

Canllawiau ar addysgu sgiliau ysgrifennu

Cyfleoedd HMS i athrawon pob pwnc
ar draws y cwricwlwm yng Nghyfnodau
Allweddol 2 a 3



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cymry Ifanc
Young Wales

www.cymru.gov.uk



Canllawiau ar addysgu sgiliau ysgrifennu

Cyfleoedd HMS i athrawon pob pwnc ar draws y cwricwlwm yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3

- Cynulleidfa** Athrawon, cydlynwyr llythrennedd, penaethiaid a chyrff llywodraethu pob ysgol gynradd ac uwchradd a gynhelir yng Nghymru; sefydliadau addysg a hyfforddiant athrawon; awdurdodau lleol; undebau athrawon a chyrff cynrychioli ysgolion; awdurdodau esgobaethol eglwysi; cyrff cenedlaethol yng Nghymru ac eraill â diddordeb mewn addysg.
- Trosolwg** Mae'r cyhoeddiad hwn yn darparu gweithgareddau HMS i athrawon sy'n canolbwyntio ar addysgu sgiliau ysgrifennu ym mhob un o bynciau'r cwricwlwm yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3.
- Camau i'w cymryd** Adolygu polisiau a gweithdrefnau i hybu dulliau addysgu penodol ac effeithiol ar gyfer sgiliau ysgrifennu ar draws y cwricwlwm yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3.
- Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu
Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 5822
e-bost: C&A3-14.C&A3-14@cymru.gsi.gov.uk
- Copïau ychwanegol** Ar gael drwy gysylltu:
Ffôn: 0870 242 3206 (cyfrwng Cymraeg)
0845 603 1108 (cyfrwng Saesneg)
Ffacs: 01767 375920
e-bost: dcells1@prolog.uk.com

Neu drwy ymweld â gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru
www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau
- Dogfennau cysylltiedig** *Canllawiau ar addysgu uwch sgiliau darllen: Cyfleoedd HMS i athrawon pob pwnc ar draws y cwricwlwm yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010)

Mae'r canllawiau hyn ar gael yn y Saesneg hefyd.

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Trosolwg o'r unedau	7
Defnyddio'r unedau ar gyfer HMS	10
Uned 1: Addysgu ysgrifennu	13
Taflenni gwaith	19
Uned 2: Ysgogiadau ar gyfer ysgrifennu: gweithgareddau, cyd-destun a modelau	25
Taflenni gwaith	31
Uned 3: Ysgrifennu ar y cyd ac ysgrifennu dan arweiniad	37
Taflenni gwaith	43
Uned 4: Cyfansoddi testun	49
Taflenni gwaith	57
Uned 5: Ysgrifennu mewn gwahanol ffurfiau ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd a dibenion	69
Taflenni gwaith	73
Uned 6: Edrych ar ramadeg	89
Taflenni gwaith	95
Uned 7: Mwy o ramadeg: gwaith lefel brawddegau	111
Taflenni gwaith	116
Uned 8: Gwaith lefel geiriau: sillafu a geirfa	121
Taflenni gwaith	125
Uned 9: Technegau ysgrifennu: ysgrifennu i greu effaith	137
Taflenni gwaith	142
Uned 10: Asesu gwaith ysgrifennu	159
Taflenni gwaith	164
Atodiad 1: Rhestr termau	173
Atodiad 2: Cyfeiriadau defnyddiol	183
Cydnabyddiaethau	188

Cyflwyniad

Pam mae angen y ddogfen hon?

Mae tystiolaeth o adroddiadau diweddar gan Estyn ac eraill yn dangos, er bod llawer o ysgolion yn addysgu sgiliau ysgrifennu yn effeithiol, bod y ffeithiau canlynol yn parhau i fodoli:

- Dros nifer o flynyddoedd, mae dysgwyr wedi cyflawni safonau uwch mewn darllen nag mewn ysgrifennu yn ystod Cyfnodau Allweddol 2 a 3. Ceir llai o waith da a rhagorol mewn ysgrifennu na darllen yn ystod y ddau gyfnod allweddol. Mae'r bwlch rhwng safonau darllen ac ysgrifennu, sy'n amlwg yn ystod Cyfnod Allweddol 1, yn cynyddu fwyfwy yn ystod Cyfnodau Allweddol 2 a 3.
- Yn ystod y 10 mlynedd ddiwethaf, mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched wedi cynyddu, a cheir y bwlch mwyaf ym maes ysgrifennu.
- Mae sillafu, atalnodi a gramadeg anghywir yn difetha cynnwys yr hyn y mae llawer o ddysgwyr o bob gallu'n ei ysgrifennu.
- Mae dysgwyr llai abl yn aml yn datblygu'n araf oherwydd eu sgiliau llythrennedd gwael.
- Lleiafrif bychan yn unig o ysgolion sy'n rhoi tasgau ysgrifennu sy'n profi a herio dysgwyr mwy galluog.
- Collir cyfleoedd i ddatblygu sgiliau cyfathrebu dysgwyr yn ystod eu hastudiaethau ar draws y cwricwlwm cyfan.
- Mae diffygion pwysig o ran addysgu'n cynnwys...diffyg sylw agos i wella ansawdd a chywirdeb gwaith ysgrifennu dysgwyr.
- Prin iawn yw'r ysgolion sy'n defnyddio gwybodaeth asesu i gynllunio gwelliannau mewn ysgrifennu i'r un graddau ag y maen nhw'n defnyddio gwybodaeth asesu i wella darllen.

Mae'r canfyddiadau hyn o *Arfer orau mewn darllen ac ysgrifennu disgyblion 7 i 14 oed* (Estyn, 2008) yn gyson â'r rhai o waith cymedroli yn y Gymraeg a'r Saesneg yn ystod Cyfnod Allweddol 3. Mae'n ymddangos bod tybiaeth yn aml mewn ysgolion bod dysgwyr yn gwybod sut i ysgrifennu ac felly nad yw athrawon yn addysgu sgiliau ysgrifennu yn benodol nac yn darparu digon o gyfarwyddyd ar sut i wella ysgrifennu.

Beth yw nodweddion ysgrifennu effeithiol?

Wrth i ddysgwyr ddatblygu fel ysgrifenywyr, maen nhw'n dangos y gallan nhw:

- ennyn diddordeb eu darllenwr/wyr
- addasu eu hysgrifennu yn ôl y gynulleidfa a diben y darn
- defnyddio nodweddion gramadegol ac arddulliadol i sicrhau eglurder, y naws gywir ac i greu effeithiau penodol
- defnyddio amrywiaeth o strwythurau brawddegau
- trefnu eu hysgrifennu, cysylltu eu syniadau'n gydlynol a defnyddio paragraffau'n effeithiol
- dewis a defnyddio geirfa briodol
- defnyddio atalnodi i egluro ystyr
- defnyddio amrywiaeth o strategaethau i'w galluogi i sillafu'n gywir
- cyflwyno eu hysgrifennu'n briodol, naill ai â llaw neu drwy ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

Er mwyn gwneud cynnydd, mae angen dulliau addysgu da ar ddysgwyr sy'n cynnwys modelu ysgrifennu, cyfleoedd rheolaidd i ddatblygu eu sgiliau, ac arfer asesu effeithiol sy'n caniatáu iddyn nhw ddeall y ffyrdd gorau o wella eu gwaith. Yn y pen draw, bydd yr agweddau mecanyddol ar ysgrifennu, megis sillafu ac atalnodi, yn dod yn ail natur i awdur effeithiol, a bydd yn gallu rhoi ei holl sylw i arbrofi gydag iaith a ffurf er mwyn denu sylw ac addysgu ei ddarllenwr.

Beth yw nod y ddogfen hon?

Nod y ddogfen hon yw darparu canllawiau i athrawon a chynorthwyr cymorth dysgu lle bo hynny'n briodol, ar ffyrdd o addysgu sgiliau ysgrifennu er mwyn cynorthwyo dysgwyr i fod yn awduron mwy effeithiol.

Mae'r ddogfen wedi'i chynllunio i gynyddu ymwybyddiaeth o'r sgiliau unigol niferus y mae'n rhaid i ddysgwyr eu meistroli wrth ddysgu sut i ysgrifennu (gan gynnwys ystyried cynnwys eu gwaith ysgrifennu, y syniadau, y dadleuon neu'r plot). O wynebu heriau mor lluosog, nid yw'n syndod bod dysgwyr ifanc neu'r rheiny sy'n tangyflawni mewn llythrennedd yn gwneud llawer o gamgymeriadau pan fyddan nhw'n ceisio gwneud hyn i gyd ar unwaith. Mae'r ddogfen yn awgrymu, felly, bod angen rhoi sylw i addysgu sgiliau unigol yn eglur mewn ffordd systematig ac ar yr adeg(au) sydd fwyaf addas ar gyfer y dysgwr unigol. Bydd addysgu yn y ffordd hon yn sicrhau bod dysgwyr wedi'u paratoi'n dda i fynd i'r afael â heriau ysgrifennu'n effeithiol i:

- ddatblygu syniadau trwy ysgrifennu
- cyfathrebu ag amrywiaeth o gynulleidfaoedd ac ar gyfer gwahanol ddibenion
- mynd i'r afael â'r tasgau asesu y byddan nhw'n eu hwynebu trwy gydol eu blynyddoedd yn yr ysgol, gan gynnwys Deunyddiau Asesu Sgiliau Dewisol Blwyddyn 5, arholiadau TGAU a TAG
- ymdopi ag unrhyw asesiadau a thasgau ysgrifennu eraill y gallai fod angen iddyn nhw eu cyflawni ar ôl gadael yr ysgol.

Mae'n hanfodol bod y gwaith o addysgu sgiliau ysgrifennu yn cael ei wneud yn gyson trwy'r ysgol gyfan. Mewn ysgol gynradd, mae hyn yn golygu y dylai pob athro/athrawes fod wedi cytuno ar y negeseuon y byddan nhw'n eu rhoi i ddysgwyr am y cynnwys a'r strwythur gofynnol (er enghraifft diwyg y testun mewn math penodol o ysgrifennu) er mwyn osgoi drysu'r dysgwyr wrth iddyn nhw symud i ddosbarth a addysgir gan rywun newydd. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn ysgolion uwchradd, wrth i ddysgwyr symud o un adran i'r llall fel rhan o'u proses ddysgu. Golyga hyn fod angen i athrawon pob pwnc trwy'r ysgol gyfan sy'n darparu cyd-destunau amrywiol ar gyfer ysgrifennu, yn ogystal ag athrawon 'iaith' yn yr adrannau Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd tramor modern, addysgu sgiliau ysgrifennu yn gyson. Mae hefyd angen i ysgolion rannu gwybodaeth ymhlith ei gilydd yn y cyfnod trosglwyddo er mwyn i gydweithwyr yn y sector uwchradd allu datblygu'r hyn a addysgwyd yn yr ysgol gynradd. Drwy sefydlu disgwyliadau cyffredin, gellir atgyfnerthu negeseuon a chynorthwyo dysgwyr i fireinio'u sgiliau yn eu holl waith ysgrifennu.

Mae'r *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008) yn nodi'n eglur bod angen i athrawon ymateb i ddysgwyr yn ôl lle y maen nhw o ran eu dysgu ar y pryd, ac nid lle y maen nhw'n credu y dylen nhw fod, er enghraifft yn ôl eu hoedran. Bydd gweithdrefnau asesu effeithiol (ffurfiannol, diagnostig a chrynodol) yn rhoi'r dystiolaeth angenrheidiol i athrawon fel y gallan nhw deilwra'r dull penodol o addysgu sgiliau ysgrifennu i ddiwallu anghenion yr unigolion yn y dosbarth. Fodd bynnag, dylid defnyddio'r dull addysgu hwn fel cymorth ar gyfer ysgrifennu testunau cyfan yn hytrach na gwersi ar wahân heb unrhyw gyd-destun.

Mae angen annog dysgwyr i ystyried ysgrifennu fel proses o gynllunio cynnwys, drafftio, gwerthuso, diwygio a golygu fel camau sy'n arwain at y cynnyrch terfynol. Wrth gwrs, nid yw'n bosibl mynd trwy'r broses gyfan hon pan fo'n rhaid i ddysgwr gynhyrchu darn ysgrifenedig mewn amser penodol, megis mewn prawf neu arholiad. Fodd bynnag, os yw'r dysgwr hwnnw wedi arfer gweithio drwy'r broses fel mater o drefn, bydd y broses honno yn rhan o'i feddwl a bydd yn gallu ei dilyn yn feddyliol hyd yn oed os yw'r amser yn brin.

Nod y gweithgareddau yn y ddogfen hon yw amlinellu'r camau amrywiol yn y broses o addysgu ysgrifennu y mae angen i athro neu athrawes eu hystyried. Ni fyddai unrhyw un yn annog rhoi tudalen wag a theitl i ddysgwr a dweud wrtho am ysgrifennu stori neu adroddiad, ac eithrio mewn arholiad y cafodd ei baratoi'n llawn ar ei gyfer. Mae'r dudalen wag yn peri gwir ofn i ddysgwyr am nad oes ganddyn nhw syniad sut i gychwyn ar y broses ac mae'n gwneud iddyn nhw deimlo nad oes ganddyn nhw unrhyw syniadau nac arbenigedd; gallan nhw ddigalonni, colli hyder a datblygu rhyw gasineb at ysgrifennu am weddill eu hoes oni bai yr addysgir strategaethau eglur iddyn nhw ar sut i ymdopi.

Beth mae'r ddogfen yn ei chynnwys?


Mae'r ddogfen yn cynnwys 10 uned wedi'u trefnu fel sesiynau hyfforddiant mewn swydd (HMS), a gellir defnyddio pob un ohonyn nhw yn unigol neu fel rhan o raglen waith barhaus. Er bod y ddogfen mewn dilyniant rhesymegol, nid oes rhaid defnyddio'r unedau yn eu trefn. Mae pob un wedi'i chynllunio i fod yn annibynnol a gellid eu defnyddio ar eu pen eu hunain i ddiwallu angen penodol a nodir gan athrawon.

Mae'r unedau'n crynhoi syniadau cyfredol am y ffyrdd mwyaf effeithiol o addysgu a chyflawni cynnydd mewn ysgrifennu, gan ddefnyddio'r gwaith ymchwil a'r adnoddau sydd ar gael, i ddarparu 'siop ateb pob galw' gynhwysfawr i athrawon yng Nghymru. Yn amlwg, ni all dogfen fel hon gynnig llawer mwy na'r prif bwyntiau sy'n ymwneud â'r materion. Darperir cyfeiriadau, felly, i'r rhai sy'n dymuno ymchwilio ymhellach i'r pwnc.

Datblygwyd y dogfennau Cymraeg a Saesneg ochr yn ochr â'i gilydd. Mae mwyafrif yr unedau yn union yr un fath o ran cynnwys ac yn disgrifio sgiliau cyffredin a throsglwyddadwy. Mae rhai, lle y mae arferion gramadegol ac ieithyddol yn wahanol yn y ddwy iaith, yn cynnwys testun sy'n benodol i'r iaith.

Mae pob uned yn annibynnol ac yn cynnwys gweithgareddau, cyfarwyddyd cefnogol ac 'atebion' at ddefnydd arweinydd/arweinwyr grŵp. Mae'n bosibl defnyddio'r unedau hyn yn annibynnol, neu os oes diwrnod cyfan ar gael ar gyfer HMS, mae'n bosibl eu grwpio gan ddefnyddio tair neu bedair adran, fel sy'n briodol. Gellid cynnal yr HMS fel cyfres o sesiynau min nos neu fel rhan o ddiwrnod HMS mewn ysgolion unigol, mewn clwstwr o ysgolion neu mewn gweithgor traws-gyfnod.

Trosolwg o'r unedau



Ar gyfer pwy mae'r ddogfen hon?

Mae'r ddogfen hon wedi'i chynllunio i'w ddefnyddio ar gyfer HMS mewn ysgolion neu HMS ar sail clwstwr ym mhynciau Cymraeg a Saesneg y cwricwlwm cenedlaethol yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, neu ar gyfer hybu iaith a llythrennedd ar draws y cwricwlwm yn unol â'r *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008). Fe allai gael ei ddefnyddio gan:

- athrawon y Gymraeg a'r Saesneg
- pob athro/athrawes pwnc/dosbarth mewn ysgolion cynradd, arbennig neu uwchradd
- cynorthwyyr dysgu sy'n gweithio i wella sgiliau ysgrifennu
- cydlynwyr llythrennedd
- uwch reolwyr sy'n gyfrifol am iaith a llythrennedd ar draws y cwricwlwm
- swyddogion cyngori awdurdodau lleol (ALI)
- tiwtoriaid hyfforddiant ac addysg gychwynnol athrawon (HAGA).

Er efallai bod y canllaw yn fwyaf pwysig i athrawon/cydlynwyr y Gymraeg a'r Saesneg, mae'n berthnasol i bob athro/athrawes mewn ysgolion cynradd, arbennig ac uwchradd fel y gellir ei ddefnyddio i hysbysu pob athro/athrawes am ffyrdd o wella ysgrifennu dysgwyr, beth bynnag fo'u pynciau arbenigol. Dylai'r gwaith hwn gael ei arwain gan y cydlynnydd llythrennedd a'i gefnogi gan yr uwch dîm rheoli gan dynnu ar arbenigedd athrawon iaith lle bo hynny'n bosib. Gallai'r math hwn o symbyliad fynd i'r afael â'r broblem a nodir yn *Arfer orau mewn darllen ac ysgrifennu disgyblion 7 i 14 oed* (Estyn, 2008) sy'n nodi:

'...mewn tua thraean o ysgolion, yn enwedig ysgolion uwchradd, nid yw'r gwaith i ddatblygu medrau cyfathrebu disgyblion ar draws y cwricwlwm wedi datblygu digon o hyd.'

Yn y modd hwn, bydd y mwyafrif o unedau'n briodol i'w defnyddio gyda'r holl athrawon mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig lle y bydd eu pynciau'n cefnogi defnyddio ac atgyfnerthu'r sgiliau y mae'r uned yn canolbwyntio arnyn nhw. Er enghraifft, gellid defnyddio'r ddogfen os bydd proses hunanwerthuso ysgol wedi dangos bod safon ysgrifennu dysgwyr yn broblem yn y Gymraeg, y Saesneg neu mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Mewn ysgolion Cymraeg neu ddwyieithog, gallai fersiwn Gymraeg y ddogfen fod yn fwyaf defnyddiol ar gyfer mwyafrif yr unedau, gan edrych ar yr unedau Saesneg pan fo gwahaniaethau rhwng y ddwy iaith, er enghraifft Unedau 6 a 7 ar ramadeg ac Uned 8 ar sillafu.

Mae pob uned wedi'i strwythuro fel y gellir ei darparu heb fod angen i arweinydd y grŵp baratoi'n helaeth. Efallai mai'r cydlynnydd Cymraeg a/neu Saesneg mewn ysgol gynradd neu arbennig a/neu'r pennaeth/penaethiaid adran priodol mewn ysgol uwchradd, aelod o uwch dîm rheoli ysgol neu dîm cynghori'r ALI, neu diwtor mewn hyfforddiant cychwynnol athrawon fydd yr arweinydd hwn.

Dylai datblygu sgiliau ysgrifennu fod yn rhan o strategaeth ysgol gyfan, dylai gael ei arwain gan uwch athro/athrawes a dylai gynnwys pob athro/athrawes yn yr ysgol. Mae'r ddogfen yn anelu i ddarparu deunydd a all ffurfio rhan o hyfforddiant ysgol gyfan mewn ysgol yn ogystal â gwaith mewn ALI a sefydliadau hyfforddi athrawon. Mae'n hanfodol i aelod o uwch dîm rheoli ysgol, ALI neu sefydliad addysgu a hyfforddi athrawon fod yn gyfrifol am fonitro'r hyfforddiant a'r broses ddilynol o werthuso'i effaith.

Defnyddio'r unedau ar gyfer HMS

Cyn defnyddio unrhyw un o'r unedau hyn, darllenwch drwy'r holl uned yn ofalus ac ystyriwch y pwyntiau canlynol:

Amcanion	<p>Beth ydych chi am ei gyflawni yn y sesiwn? Sut mae'n diwallu'r anghenion a nodwyd? Sut bydd y sesiwn yn eich cynorthwyo i weithredu'r fframwaith sgiliau a Chymraeg/Saesneg yn y cwricwlwm cenedlaethol a/neu ddarparu cyfarwyddyd i athrawon pynciau eraill ar draws y cwricwlwm? Beth fydd y canlyniad?</p> <p>Pa un o'r meini prawf llwyddiant hyn (neu eraill) sy'n berthnasol i'r uned a ddefnyddir? Mae athrawon yn dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> • dealltwriaeth gynyddol o'r angen i wella gwaith ysgrifennu dysgwyr • dealltwriaeth gynyddol o'r modd y gellir addasu gofynion ysgrifennu i gyd-fynd ag anghenion dysgu dysgwyr unigol • ymwybyddiaeth gynyddol o amrywiaeth o strategaethau i addysgu ysgrifennu • gwybodaeth gynyddol am 'ffeithiau'/rheolau allweddol ynglŷn ag ysgrifennu ar lefel testun, brawddegau a geiriau • mwy o hyder wrth ddefnyddio dulliau nad oedd yn gyfarwydd iddyn nhw cynt.
Amser	<p>Faint o amser sydd ar gael gennych? Mae mwyafrif o'r unedau hyn yn cymryd rhwng 1½ a 2 awr i'w cwblhau. Gellir rhannu rhai'n sesiynau byrrach. Peidiwch â cheisio gwneud gormod mewn un sesiwn. Penderfynwch faint o amser rydych yn mynd i'w neilltuo ar gyfer pob un o'r tasgau a chadwch at eich penderfyniad cyn belled â phosib.</p>
Lleoliad	<p>Ble fyddai'r lle gorau i gynnal gweithgaredd HMS? A fydd seibiant? Oes gennych chi gyfleusterau gwneud paned?</p>
Adnoddau	<p>Bydd sydd ei angen arnoch? Rhestrir adnoddau penodol ar gyfer pob uned HMS. Oes gennych chi ddigon o gopïau o'r adnoddau ar gyfer holl aelodau'r grŵp? Oes angen papur, pennau lliwddangos, siartiau troi, uwchdaflunydd, cyfrifiadur, taflunydd neu fwrdd gwyn rhyngweithiol arnoch? Oes gennych chi gopïau o Orchmynion perthnasol y cwricwlwm cenedlaethol rhag ofn y bydd aelodau'r grŵp yn dymuno cyfeirio atyn nhw?</p>
Pa unedau a ddefnyddir?	<p>Pa unedau sy'n fwyaf perthnasol i wahanol gynulleidfaoedd? Bydd angen seilio penderfyniadau ar anghenion a nodwyd trwy hunanwerthuso mewn ysgolion neu grwpiau clwstwr. Er enghraifft, gallai'r holl athrawon mewn ysgol gynradd neu holl aelodau adran y Gymraeg/Saesneg mewn ysgol uwchradd ddefnyddio:</p> <ul style="list-style-type: none"> • pob uned ar ei phen ei hun dros gyfnod maith fel sesiynau min nos • pob uned mewn tri neu bedwar diwrnod HMS heb ddysgwyr • un neu ddwy uned i ddiwallu angen a nodwyd, e.e. Uned 8.

	<p>Gallai grŵp clwstwr traws-gyfnod:</p> <ul style="list-style-type: none"> ganolbwyntio i ddechrau ar Uned 10 fel rhan o ymarfer cymedroli traws-gyfnod defnyddio unedau megis Uned 3 neu Uned 8 i sicrhau addysgeg gyffredin a negeseuon cyson i ddysgwyr ar draws cyfnodau. <p>Gallai athrawon o bynciau ar draws y cwricwlwm mewn ysgol uwchradd ddefnyddio:</p> <ul style="list-style-type: none"> Uned 3 fel modd o ehangu eu dulliau addysgu eu hunain a chynorthwyo dysgwyr i wella eu sgiliau ysgrifennu Unedau 5, 6, 7 ac 8 i ganolbwyntio ar bwysigrwydd dewis testun priodol, cywirdeb mewn gwaith ysgrifennu dysgwyr a strategaethau ar gyfer addysgu gramadeg, sillafu ac atalnodi.
Cyflwyniad	Sut byddwch chi'n dechrau'r sesiwn HMS? Oes angen i chi atgoffa pobl o ddiben y sesiwn? Wnaethoch chi ofyn iddyn nhw wneud unrhyw beth ymlaen llaw neu ddod â rhywbeth i'r cyfarfod?
Casgliad	Sut byddwch chi'n cloi'r sesiwn HMS? Oes angen i chi grynhoi'r hyn a ddysgwyd neu'r penderfyniadau a wnaed? Oes rhaid i chi ddosbarthu unrhyw dafleuni gwybodaeth neu adnoddau? Oes angen i chi gytuno ar y cam nesaf neu awgrymu gweithgaredd dosbarth i'w gyflawni cyn y sesiwn nesaf?
Gwerthuso (ar ddiwedd y cyfnod HMS pan fydd canlyniadau ar gael)	<p>Beth yw'r manteision i'r athrawon ac, yn y pen draw, i'r dysgwyr?</p> <p>I ba raddau y mae athrawon yn dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> dealltwriaeth gynyddol o'r angen i wella gwaith ysgrifennu dysgwyr parodrwydd a gallu cynyddol i werthuso'u harferion eu hunain dealltwriaeth gynyddol o'r modd y gellir addasu gofynion ysgrifennu i gyd-fynd ag anghenion dysgu dysgwyr unigol ymwybyddiaeth gynyddol o amrywiaeth o strategaethau i addysgu ysgrifennu gwybodaeth gynyddol am 'ffeithiau'/rheolau allweddol ynglŷn ag ysgrifennu ar lefel testun, brawddegau a geiriau mwyr o hyder wrth ddefnyddio dulliau nad oedd yn gyfarwydd iddyn nhw cynt? <p>I ba raddau y mae dysgwyr o bob gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> wedi cael budd o ddefnyddio amrywiaeth o fodelau ar gyfer ysgrifennu effeithiol wedi dod yn fwy cyfarwydd â nodweddion gwahanol fathau o ysgrifennu, yn enwedig ysgrifennu anllenyddol wedi dod yn fwy cywir o ran gramadeg, sillafu ac atalnodi wedi cyrraedd safonau perfformiad uwch o ran ysgrifennu yn gyffredinol wedi dangos mwy o frwdfrydedd tuag at ysgrifennu?

Yn ystod y sesiwn HMS, sicrhewch eich bod yn cadw at yr amser a neilltuwyd. Sicrhewch fod aelodau eich grŵp yn canolbwyntio ar y dasg dan sylw (mae'n hawdd iawn ymgolli mewn trafodaethau hirfaith ac amherthnasol). Ceisiwch gynnwys pawb yn y tasgau a'r drafodaeth ddilynol gan ganolbwyntio ar yr hyn y gellir ei wneud yn realistig.





Uned 1: Addysgu ysgrifennu

Uned 1

Addysgu ysgrifennu

Nod: Esbonio'r rhesymeg ar gyfer y canllaw hwn a'r angen i **addysgu** ysgrifennu yn hytrach na thybio gallu dysgwyr.

Amser: 1½ awr

Paratoi: Darllenwch Uned 1 i gyd.

Sicrhewch eich bod yn gyfarwydd â'r Rhaglen(ni) Astudio perthnasol ar gyfer Ysgrifennu yng Ngorchymyn y cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg/Saesneg a/neu'r gofynion ysgrifennu ar gyfer pynciau eraill y cwricwlwm a'r *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008).

Dewch o hyd i ddata sy'n ymwneud â chyrhaeddiad yn y tri tharged cyrhaeddiad ar gyfer y Gymraeg/Saesneg yn eich ysgol/clwstwr/ALI ar gyfer y ddwy flynedd ddiwethaf, e.e. data Menter Cyfnewid Data Cymru (DEWi), gwybodaeth o ysgolion cynradd fel rhan o'r cynllun trosglwyddo/pontio, data ar berfformiad bechgyn/merched.

Dewch o hyd i ddata ysgol sy'n ymwneud â dysgwyr a nodwyd, at ddibenion Safonau Ansawdd Sgiliau Sylfaenol, fel rhai sy'n perthyn i'r grŵp targed ar gyfer cymorth llythrennedd.

Gofynnwch i athrawon yn y grŵp ddod ag enghreifftiau o waith ysgrifennu yn ystod un tymor gan un dysgwr y mae ei gynnydd o ran ysgrifennu wedi peri pryder iddyn nhw yn ddiweddar.

Paratowch lungopiau/sleidiau uwchdaflunydd angenrheidiol.

Adnoddau: Copïau o Orchmynion y cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg/Saesneg a/neu bynciau eraill y cwricwlwm cenedlaethol fel sy'n briodol.

Copïau o gyhoeddiadau Estyn, *Arfer orau mewn darllen ac ysgrifennu disgyblion 7 i 14 oed* (Estyn, 2008) a *Rhannu arfer dda wrth ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion* (Estyn, 2009).

Copïau o'r Tablau 1 i 6 priodol o ddogfen Estyn *Arfer orau mewn darllen ac ysgrifennu disgyblion 7 i 14 oed* (Estyn, 2008) ar sleidiau uwchdaflunydd/PowerPoint, i'w defnyddio gyda'r grŵp cyfan.

Copïau o ddata ar Daflen 1.2, wedi'i ddiweddarau yn ôl y gofyn.

Portffolio safoni'r ysgol/adran o waith Cyfnod Allweddol 3 a gymedrolwyd yn y Gymraeg/Saesneg a/neu bynciau eraill lle bo'n briodol.

Copiau caled o ddata ysgol/clwstwr/ALL a/neu'r wybodaeth hon ar sleid uwchdaflunydd/PowerPoint.

Copiau o Daflenni 1.1 i 1.5 ar gyfer pob aelod o'r grŵp.

Crynodeb o'r tasgau

Tasg 1: Pam mae angen i ni wella'r broses o addysgu ysgrifennu?

Tasg 2: Ydyn ni'n dilyn tueddiadau cyfredol?

Tasg 3: Sut hwyl mae eich dysgwyr yn ei gael?

Tasg 4: Beth mae angen i ni ei addysgu am y broses ysgrifennu?

Tasg 5: Y system o dri chiw

Tasg 1

Pam mae angen i ni wella'r broses o addysgu ysgrifennu?

Gan ddefnyddio'r rhesymeg yn y Cyflwyniad (gweler Taflen 1.1) cyflwynwch ganfyddiadau adroddiad Estyn, *Arfer orau mewn darllen ac ysgrifennu disgyblion 7 i 14 oed* (Estyn, 2008) i'r grŵp i'w trafod. Ydy'r canfyddiadau hyn yn wir o ran perfformiad dysgwyr yn eich ysgol(ion) chi?

Cymerwch tua 15 munud.

Tasg 2

Ydyn ni'n dilyn tueddiadau cyfredol?

Edrychwch ar baragraffau 32 i 39 ('Safonau mewn Cymraeg a Saesneg yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3') yn *Arfer orau mewn darllen ac ysgrifennu disgyblion 7 i 14 oed* (Estyn, 2008). Mae'r rhain yn cyflwyno'r darlun cenedlaethol yn ystod y blynyddoedd diweddar gan ddefnyddio canlyniadau o brofion yn y gorffennol lle bo'n briodol yn ogystal â gwybodaeth o arolygiad Estyn o ysgolion.

Edrychwch hefyd ar ddata cenedlaethol ar Daflen 1.2, wedi'i diweddarau yn ôl y gofyn. Mae cyfoeth o ddata ar gael ond mae'n rhaid ei drosglwyddo i'r bobl mae arnyn nhw angen ei weld a'i ddefnyddio, neu ni fydd yn ddefnyddiol o gwbl.

Sylwer: Gan mai athrawon sy'n gyfrifol am asesiadau ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol bellach, dylai fod yn bosibl i ysgolion archwilio perfformiad dysgwyr o ran y tri tharged cyrhaeddiad o'u cofnodion eu hunain.

Gyda'r grŵp cyfan, cyflwynwch ddata am berfformiad dysgwyr yn eich ysgol(ion)/ALL yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf o ran targedau cyrhaeddiad unigol. Trafodwch:

- yr hyn y mae'r data hwn yn ei ddweud wrthyich am y berthynas rhwng perfformiad darllen ac ysgrifennu
- ydy hyn yn cyfateb i'r canfyddiadau a nodwyd yn adroddiad Estyn, *Arfer orau mewn darllen ac ysgrifennu disgyblion 7 i 14 oed* (Estyn, 2008) a'r safonau cenedlaethol
- os felly, sut gallwch chi unioni'r fantol yn eich ysgol(ion) chi?

Cymerwch tua 30 munud.

Tasg 3

Sut hwyl mae eich dysgwyr yn ei gael?

Mewn parau, edrychwch ar waith dysgwyr a ddarparwyd gan athrawon, a nodwch:

- oes amrywiaeth o ffurfiau ysgrifennu
- ydy'r awdur yn dangos ei fod yn ymwybodol o'r gynulleidfa a diben y darn
- ydy'r darn o hyd priodol ar gyfer y dasg
- ydy'r gwaith heb ei orffen neu wedi'i orffen yn wael
- ydy'r gwaith wedi'i ddifetha gan gamgymeriadau esgeulus o ran sillafu, atalnodi a gramadeg
- ydy sylwadau a chywiriadau blaenorol yr athro/athrawes wedi'u nodi ac wedi cael effaith
- a fu gwelliant cyffredinol yn y gwaith ysgrifennu dros amser.

Cymerwch tua 10 munud.

Trafodwch yr hyn rydych wedi'i ddysgu am addysgu ysgrifennu yn eich ysgol(ion) chi yn sgîl hyn.

Edrychwch ar Daflen 1.3 a thrafodwch a yw'r datganiadau sydd yn y tri phwynt bwled yn gwneud synnwyr i'r grŵp.

Cymerwch tua 15 munud.

Tasg 4

Beth mae angen i ni ei addysgu am y broses ysgrifennu?

- Mae angen i sgiliau ysgrifennu gael eu haddysgu'n benodol.
- Ni allwn dybio bod dysgwyr yn gwybod yn reddfodol sut i ysgrifennu.

Mewn parau, trafodwch y datganiadau hyn yn fyr a phenderfynwch, yn eich barn chi, beth yw'r pump strategaeth bwysicaf mae angen eu haddysgu i ddysgwyr er mwyn iddo fod yn awdur effeithiol.

Cymerwch tua 10 munud.

Trafodwch y canfyddiadau gyda'r grŵp cyfan a lluniwch restr ar siart troi neu debyg. Cymharwch gyda Thaflen 1.4. Ni honnir bod hon yn rhestr gynhwysfawr ac efallai na fydd yn cynnwys yr holl syniadau a awgrymwyd, ond mae'r strategaethau a restrir yma a'r broses a ddisgrifir yn bwysig. Gweithgaredd cychwynnol yw hwn heb os. Bydd unedau diweddarach yn dychwelyd at y strategaethau hyn ac yn eu harchwilio'n fwy manwl.

Cymerwch tua 15 munud.

Tasg 5

Y system o dri chiw

Mae'r system o dri chiw y cyfeirir ati ar Daflen 1.5 yn cyflwyno datganiad cyffredinol am yr wybodaeth sydd ei hangen arnom i fod yn ysgrifennwyr effeithiol: gwybodaeth am y byd, am ramadeg ac am eiriau.

Rhowch gopiau o'r daflen i aelodau'r grŵp a gofynnwch iddyn nhw ystyried y datganiad o safbwynt eu haddysgu eu hunain.

Taflen 1.1

Mae tystiolaeth o adroddiadau diweddar gan Estyn ac eraill yn dangos, er bod llawer o ysgolion yn addysgu sgiliau ysgrifennu yn effeithiol, bod y ffeithiau canlynol yn parhau i fodoli:

- Dros nifer o flynyddoedd, mae dysgwyr wedi cyflawni safonau uwch mewn darllen nag mewn ysgrifennu yn ystod Cyfnodau Allweddol 2 a 3. Ceir llai o waith da a rhagorol mewn ysgrifennu na darllen yn ystod y ddau gyfnod allweddol. Mae'r bwlch rhwng safonau darllen ac ysgrifennu, sy'n amlwg yn ystod Cyfnod Allweddol 1, yn cynyddu fwyfwy yn ystod Cyfnodau Allweddol 2 a 3.
- Yn ystod y 10 mlynedd ddiwethaf, mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched wedi cynyddu, a cheir y bwlch mwyaf ym maes ysgrifennu.
- Mae sillafu, atalnodi a gramadeg anghywir yn difetha cynnwys yr hyn y mae llawer o ddysgwyr o bob gallu'n ei ysgrifennu.
- Mae dysgwyr llai abl yn aml yn datblygu'n araf oherwydd eu sgiliau llythrennedd gwael.
- Lleiafrif bychan yn unig o ysgolion sy'n rhoi tasgau ysgrifennu sy'n profi a herio dysgwyr mwy galluog.
- Collir cyfleoedd i ddatblygu sgiliau cyfathrebu dysgwyr yn ystod eu hastudiaethau ar draws y cwricwlwm cyfan.
- Un diffyg pwysig a geir o ran addysgu yw'r ffaith nad oes digon o sylw manwl yn cael ei roi i wella ansawdd a chywirdeb gwaith ysgrifennu dysgwyr.
- Prin iawn yw'r ysgolion sy'n defnyddio gwybodaeth asesu i gynllunio gwelliannau mewn ysgrifennu i'r un graddau ag y maen nhw'n defnyddio gwybodaeth asesu i wella darllen.

Mae'r canfyddiadau hyn o *Arfer orau mewn darllen ac ysgrifennu disgyblion 7 i 14 oed* (Estyn, 2008) yn gyson â'r rhai o waith cymedroli yn y Gymraeg a'r Saesneg yn ystod Cyfnod Allweddol 3. Mae'n ymddangos bod tybiaeth yn aml mewn ysgolion bod dysgwyr yn gwybod sut i ysgrifennu ac felly nad yw athrawon yn addysgu sgiliau ysgrifennu yn benodol nac yn darparu digon o gyfarwyddyd ar sut i wella ysgrifennu.

Yn ychwanegol, mae angen i athrawon sicrhau bod anghenion ysgrifennu ym mhob pwnc yn ystyried beth yw ansawdd sgiliau cyfredol dysgwyr.

Taflen 1.2

Canlyniadau Cyfnod Allweddol 2 yn ôl pwnc a tharged cyrhaeddiad, 2000–2009 – canran y disgyblion sy'n cyrraedd Lefel 4

Blwyddyn	2000	2001	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008	2009
Pwnc										
Saesneg	69.4	73.3	75.8	76.1	76.6	79.3	78.6	78.6	79.8	81.0
Saesneg – Llafaredd							79.1	79.1	80.6	81.8
Saesneg – Darllen							78.4	78.5	79.9	80.8
Saesneg – Ysgrifennu							73.3	72.5	73.2	74.2
Cymraeg	66.4	69.6	73.6	75.6	76.7	76.3	75.5	72.8	77.0	79.9
Cymraeg – Llafaredd							79.4	76.0	79.9	82.8
Cymraeg – Darllen							76.0	73.4	77.0	80.1
Cymraeg – Ysgrifennu							65.1	64.1	67.7	70.8

Canlyniadau Cyfnod Allweddol 3 yn ôl pwnc a tharged cyrhaeddiad, 2000–2009 – canran y disgyblion sy'n cyrraedd Lefel 5

Blwyddyn	2000	2001	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008	2009
Pwnc										
Saesneg	62.6	63.2	64.1	64.7	66.8	67.2	67.8	68.6	69.5	70.6
Saesneg – Llafaredd									69.5	70.8
Saesneg – Darllen									69.0	69.7
Saesneg – Ysgrifennu									65.5	65.3
Cymraeg	71.8	70.5	71.6	73.7	73.1	74.9	71.9	72.6	72.3	75.1
Cymraeg – Llafaredd									73.6	78.0
Cymraeg – Darllen									70.5	73.1
Cymraeg – Ysgrifennu									68.2	68.2

Sylwer: Bydd angen diweddarau'r data hwn yn ystod y blynyddoedd i ddod – gweler www.statswales.wales.gov.uk/index_cy.htm

Taflen 1.3

Mae Gorchymyn y cwricwlwm cenedlaethol yn darparu model o'r broses ysgrifennu. Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr *baratoi a chynllunio, drafftio ac ailddrafftio'r cynnwys a'r iaith, prawf-ddarllen a pharatoi copi terfynol o'u gwaith ysgrifennu.*

Mae pob un o'r elfennau hyn yn bwysig i gynhyrchu darn o waith ysgrifennu gorffenedig.

Fodd bynnag, mae perygl y gall addysgu ysgrifennu gael ei droi'n **addysgu trwy gywiro** – addysgu ar ôl y digwyddiad – yn hytrach nag **addysgu wrth ysgrifennu** sy'n canolbwyntio ar ddangos ac ystyried y penderfyniadau y mae awduron yn eu gwneud wrth ysgrifennu. Mae angen i athrawon arwain dysgwyr trwy'r broses gyfan (gan fodlu'r ffordd y mae awdur yn meddwl trwy sesiynau ysgrifennu a rennir a sesiynau ysgrifennu dan arweiniad) fel bod pob dysgwr yn gyfarwydd â'r broses ac yn ei deall yn llawn.

Bydd addysgu effeithiol yn canolbwyntio'n aml ar agweddau penodol ar y broses ysgrifennu (er enghraifft cynllunio esboniad, ysgrifennu cyfarwyddol, dadl neu stori, neu ddiwygio fersiwn ddrafft i'w newid neu ei gwella). Fodd bynnag, dylai pob dysgwr gael profiad rheolaidd o ddatblygu darn ysgrifenedig drwy'r broses gyfan. Mae'n arbennig o bwysig bod dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu cynnwys yn y broses, gyda chymorth a chefnogaeth yn ôl yr angen, fel eu bod nhw hefyd yn cael profiad cyfannol yn hytrach nag ailadrodd rhannau penodol o'r broses gan ystyried 'nad ydyn nhw yn barod' i symud yn eu blaenau.

Yn aml iawn, bydd trefn addysgu fel a ganlyn:

- Darllen – yn ystod amser darllen a rennir a thrwy bynciau eraill, e.e. hanes.
- Trafod pwnc y gwaith ysgrifennu – darparu syniadau.
- Datblygu banc geiriau.
- Ysgrifennu annibynnol, gydag athro/athrawes yn cynorthwyo wrth i'r dysgwyr weithio.
- Gwaith yn cael ei gyflwyno ac yn cael ei farcio gan yr athro/athrawes sy'n nodi rhai gwallau sillafu ac yn gwneud sylwadau cynorthwyol a chalonogol ar y gwaith.
- Dychwelyd y gwaith i'r plentyn.

Taflen 1.3 (parhad)

Mae ysgrifennu annibynnol yn anodd i lawer o ddysgwyr oherwydd bod rhaid iddyn nhw feddwl am gymaint o bethau ar yr un pryd: mae'n rhaid iddyn nhw gynllunio'r cynnwys, meddwl am y geiriau cywir a'r drefn gywir i frawddegau, ystyried y sillafu a'r atalnodi a rhoi'r cwbl ar y dudalen. Yn aml, rhoddir llawer o'u sylw i sillafu ac ysgrifellu, gan adael fawr ddim lle i ystyried agweddau cyflawn eu hysgrifennu. Mae angen i athrawon fod yn greadigol er mwyn cynnwys yr holl ddysgwyr, gan gynnwys y rhai sy'n tangyflawni a'r rhai â dyslecsia neu anawsterau dysgu penodol, gan ddarparu cymorth ac adborth priodol fel y gall dysgwyr gymryd rhan yn y broses ysgrifennu gyfan a chael eu hysgogi i ysgrifennu.

Yn aml, wrth archwilio gwaith dysgwr dros gyfnod, mae sawl peth yn dod i'r amlwg:

- mae cyfran uchel o waith cryno, heb ei orffen neu wedi'i orffen yn wael
- mae'n ymddangos mai prin yw'r effaith y mae sylwadau a chywiriadau'r athro/athrawes wedi'i chael
- nid yw'n ymddangos bod y gwaith ysgrifennu wedi gwella llawer.

Mae llawer o addysgu wedi canolbwyntio ar ysgogi syniadau a pharatoi ar gyfer ysgrifennu, ond pan adewir y dysgwr i ysgrifennu – i ddrafftio a diwygio, i weithio ar ei ben ei hun – mae ef/hi yn cael problemau. Ni all unrhyw athro/athrawes ddarparu cymorth manwl i bob aelod o'r dosbarth wrth iddyn nhw ysgrifennu, felly prin fydd y cynnydd a wneir gan lawer o ddysgwyr oni bai yr anogir annibyniaeth wrth ysgrifennu.

Taflen 1.4

Y broses ysgrifennu: strategaethau ar gyfer ysgrifennu

Hunan-gwestiynu	<p>Gofyn cwestiynau i'w hunain am eu gwaith ysgrifennu er mwyn penderfynu ar y gynulleidfa a'r diben yn eu meddyliau eu hunain, megis:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pam rydw i'n ysgrifennu'r testun hwn? • Ar gyfer pwy rydw i'n ysgrifennu? • Pa fath o iaith y mae angen i mi ei defnyddio? • Beth y mae angen i mi ei ddweud wrthyn nhw? • Sut byddaf yn trefnu fy ngwaith?
Cynllunio cynnwys	<p>Meddwl am y plot, y thema, cynnwys yr wybodaeth ac ati i gyd-fynd â'r dasg trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • dafllu syniadau, yn unigol neu gyda phobl eraill • ymchwilio i'r pwnc mewn llyfrau neu ar sgrin a gwneud nodiadau • defnyddio adnoddau eraill i ysgogi a/neu gyfarwyddo.
Ynganu	<p>Ymarfer yr hyn sydd i'w ysgrifennu ar lafar cyn ysgrifennu mewn grwpiau bach neu gyda phartneriaid siarad/trafod ac arbrofi tan ei fod yn swnio'n iawn. 'Os na allan nhw ei ddychmygu, allan nhw ddim ei ysgrifennu.'</p>
Ysgrifennu'r drafft cyntaf	<p>Rhoi rhywbeth ar bapur neu ar y sgrin. Canolbwyntio ar drefn syniadau/cynnwys. 'Rhoi cynnig' ar sillafu anodd yn ystod y cam hwn gan ddefnyddio strategaethau sillafu a gyflwynir drwy ddysgu uniongyrchol. Mae hyn yn arbennig o bwysig i ddysgwyr sydd yn tangyflawni a'r rheiny â dyslecsia/dysgwyr ag anawsterau dysgu penodol na ddylid gadael iddyn nhw ddigalonni oherwydd camgymeriadau neu lawysgrifen wael.</p>
Diwygio'r testun	<p>Darllen yr hyn a ysgrifennwyd yn uchel i bartner neu iddo ef/iddi hi ei hun. Mae hyn yn amlygu unrhyw beth nad yw wedi'i gynnwys, anghysondebau gramadegol, ac ati efallai na fydden nhw yn amlwg o ddarllen y gwaith yn dawel, gan y bydd yr awdur yn aml yn 'darllen' yr hyn a ddylai fod yno yn hytrach na'r hyn sydd ar y dudalen mewn gwirionedd. Adolygu'r testun a nodi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yw'r testun yn gwneud synnwyr • oes angen rhagor o fanylion i ategu'r plot, ychwanegu at ddisgrifiadau neu ddarparu gwybodaeth sydd ar goll • yw'r cywair yn briodol i'r gynulleidfa • oes angen hepgor unrhyw beth oherwydd ei fod yn ailadroddus neu'n amherthnasol, ac ati <p>a gwneud diwygiadau ar bapur neu ar sgrin.</p>
Golygu	<p>Gwirio:</p> <ul style="list-style-type: none"> • trefn/dilyniant syniadau/digwyddiadau/paragraffau er mwyn sicrhau bod yr ysgrifennu'n eglur • sillafu, atalnodi a gramadeg.
Paratoi'r copi terfynol	<p>Cynhyrchu copi terfynol sy'n addas i'w 'gyhoeddi', ar gyfer cynulleidfa go iawn yn ddelfrydol, gan roi sylw i'r cyflwyniad mewn llawysgrifen ddealladwy neu gan ddefnyddio TGCh.</p>


Uned 1

Taflen 1.5

Rydym yn gyfarwydd â'r syniad bod darllenwyr effeithiol yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth wrth iddyn nhw chwilio am ystyr mewn testunau. Crynhoir y rhain yn y system o dri chiw a gyflwynwyd gan David Pearson mor bell yn ôl â 1976 ac sy'n cynnwys:


- ciwiau semantig – sy'n ymwneud â gwybodaeth am bynciau, gwybodaeth ddiwylliannol neu am y byd, syniadau a geirfa
- ciwiau cystrawennol – sy'n ymwneud â gwybodaeth am ramadeg a'r ffordd y trefnir testunau cyfan
- ciwiau graffoffonig – sy'n ymwneud â gwybodaeth am eiriau a'r ffordd y maen nhw'n cael eu sillafu.

Defnyddir yr un system gan awduron effeithiol wrth iddyn nhw gyfansoddi testunau. Gyda'i gilydd, mae'r tri chiw'n cwmpasu gwybodaeth flaenorol dysgwr ac mae dysgwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon wrth iddyn nhw ysgrifennu.



Mae'n hanfodol bod dysgwyr yn cael cyfleoedd pan y byddan nhw'n ifanc iawn i gynyddu'r wybodaeth a'r sgiliau o fewn pob ciw os ydyn nhw am ysgrifennu'n effeithiol. Mae hyn yn golygu bod angen i athrawon (a rhieni/gofalwyr) ddarparu cyfleoedd iddyn nhw:

- ehangu eu gwybodaeth am bynciau, pobl, lleoedd a syniadau trwy holi a thrafod, darllen amrywiaeth mor eang â phosibl o destunau, cymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol megis chwarae rhan a defnyddio TGCh, a sicrhau eu bod yn cael amrywiaeth gynyddol o brofiadau y tu allan i'r ysgol
- datblygu eu geirfa
- datblygu eu dealltwriaeth o ramadeg
- deall sut mae paragraffau'n tueddu i gael eu trefnu mewn gwahanol fathau o ysgrifennu
- canolbwyntio ar nodweddion ieithyddol gwahanol fathau o ysgrifennu/testun
- deall geiriau a rhannau o eiriau
- archwilio'r berthynas rhwng synau a symbolau'r wyddor ynghyd â datblygu strategaethau i wella eu sillafu.



Uned 2: Ysgogiadau ar gyfer ysgrifennu: gweithgareddau, cyd-destun a modelau

Uned 2

Ysgogiadau ar gyfer ysgrifennu: gweithgareddau, cyd-destun a modelau

Nod: Ystyried ffyrdd o ysgogi syniadau cyn ysgrifennu a chynorthwyo dysgwyr i fwynhau a gwella eu gwaith.

Amser: 1½ i 2 awr

Paratoi: Darllenwch Uned 2 i gyd, gan roi sylw penodol i'ch swyddogaeth chi yn y gweithgareddau.

Archwiliwch amgylchedd yr ysgol o ran ysgrifennu. Ydy e'n adlewyrchu'r awgrymiadau ar Daflen 2.1?

Ymgylchwyddwch â'r ffordd y mae Awduron ar Daith yn gweithio, faint byddai ymweliad gan awdur yn ei gostio, ac ati.

Dewch o hyd i ble mae'r Sgwad 'Sgwennu agosaf. Yw eich ALL chi yn trefnu un?

Ymgylchwyddwch ag unrhyw gystadlaethau ysgrifennu i ddysgwyr.

Adnoddau: Copïau o Daflenni 2.1 i 2.5 ar gyfer pob aelod o'r grŵp.

Copi o'r llyfryn Awduron ar Daith diweddaraf a gwybodaeth am Sgwadiâu 'Sgwennu'r Ifainc – sydd ar gael gan yr Academi yn www.sgwadiausgwennu.org

Copïau o unrhyw wybodaeth am gystadlaethau ysgrifennu cyfredol.

Copïau o Astudiaethau Achos 2 a 12 o adroddiad Estyn, *Arfer orau mewn darllen ac ysgrifennu disgyblion 7 i 14 oed* (Estyn, 2008).

Ar ôl y sesiwn:

- Sicrhewch fod pob aelod o'r grŵp yn cael copi o'r awgrymiadau a wnaed am yr amgylchedd dysgu cyn gynted â phosibl.
- Os yw'n briodol, rhannwch y syniadau a gynigwyd gyda'r uwch dîm rheoli/athrawon eraill/penaethiaid adrannau fel rhan o ddull ysgol gyfan.
- Gofynnwch am 'sesiwn rannu' gwersi sy'n gweithio, ym mhob cyfarfod staff/adrannol yn y dyfodol.
- Os yw'n briodol, gofynnwch i bwy bynnag a gytunodd i ymchwilio ymhellach i Sgwadiâu 'Sgwennu'r Ifainc' wneud hynny ac adrodd yn ôl yn y sesiwn nesaf.

Crynodeb o'r tasgau

Tasg 1: Yr amgylchedd dysgu

Tasg 2: Ysgogiadau effeithiol yn yr ysgol ar gyfer ysgrifennu

Tasg 3: Defnyddio adnoddau allanol

Tasg 4: Annog dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol

Tasg 1

Yr amgylchedd dysgu

Gofynnwch i aelodau'r grŵp ystyried yr hyn sy'n nodweddiadol o amgylchedd sy'n annog dysgwyr i ysgrifennu. Bydd hyn yn amrywio yn ôl y cyfnod yn yr ysgol ac oedran a gallu'r dosbarthiadau a addysgir. Mewn ysgol gynradd, bydd hyn yn gysylltiedig ag oedran i ryw raddau, ond bydd yn rhaid cefnogi dysgwyr o bob gallu yn y dosbarth hwnnw, boed hynny'n grŵp un flwyddyn neu'n ddosbarth oedran cymysg. Mewn ysgol uwchradd, bydd angen i'r amgylchedd gefnogi dysgwyr o bob oedran a gallu oherwydd bydd yr ystafell ddosbarth yn cael ei defnyddio gan amrywiaeth o ddosbarthiadau. Yn yr achos hwn, bydd angen deunydd cyffredinol a lle penodol i ddosbarthiadau ar gyfer arddangos gwaith dysgwyr o'r holl ddosbarthiadau a addysgir. Ym mhob achos, dylai'r amgylchedd gynnwys modelau a chanllawiau sy'n briodol ar gyfer y gwahanol gamau datblygiad ym maes ysgrifennu, gan gynnwys geirfa allweddol, enghreifftiau o ymatebion ar gyfer darllen ac ysgrifennu, a meini prawf llwyddiant.

Cymerwch tua 10 munud i drafod.

Yna, gofynnwch i aelodau'r grŵp (mewn parau i gychwyn ac yna fel grŵp) ystyried, yng ngoleuni'r drafodaeth flaenorol:

- i) eu hystafelloedd dosbarth eu hunain
- ii) yr ysgol yn ei chyfanrwydd
- iii) pa welliannau y gellid eu gwneud – yn y byrdymor? Yn yr hirdymor?
- iv) ydy aelodau'r grŵp yn barod i ymrwymo i wneud gwelliannau o'r fath?

Lluniwch restr o awgrymiadau (ar siart neu fwrdd troi i gychwyn efallai) a chytunwch ar rai camau y gellid/dylid eu cymryd ac yr ystyrir eu bod yn ymarferol. Cyfeiriwch at Daflen 2.1 a chymharu. Ni fyddwch yn dymuno/gallu rhoi'r holl awgrymiadau ar waith, ond efallai y byddwch yn dewis dau neu dri sy'n cyd-fynd â'ch rhestr fel man cychwyn. Bydd yn ddefnyddiol os byddwch yn canolbwyntio ar ddeunyddiau a gynhyrchwyd gan ddysgwyr pan fo hynny'n bosibl.

Penderfynwch pwy fydd yn gyfrifol am fonitro'r broses o weithredu'r gwelliannau hyn, a sut y bydd hyn yn cael ei gyflawni heb achosi dadleuon na chynyddu'r llwyth gwaith.

Cymerwch tua 20 munud.

Ar ôl y sesiwn:

- sicrhewch fod pob aelod o'r grŵp yn cael copi o'r rhestr y cytunwyd arni cyn gynted â phosibl
- os yw'n briodol, rhannwch y syniadau a gynigwyd gyda'r uwch dîm rheoli/athrawon eraill/penaethiaid adrannau fel rhan o ddull ysgol gyfan.

Tasg 2

Ysgogiadau effeithiol yn yr ysgol ar gyfer ysgrifennu

Mewn parau neu grwpiau bychain, gofynnwch i aelodau'r grŵp restru'r ysgogiadau ysgrifennu mwyaf effeithiol yn yr ysgol, yn eu barn nhw. Dylai'r parau adrodd yn ôl i'r grŵp cyfan ar ôl tua 15 munud i sbarduno trafodaeth rhwng y grŵp cyfan.

Cymharwch y canfyddiadau â'r rhestr ar Daflen 2.2 a thrafodwch unrhyw wahaniaethau, hepgoriadau neu ychwanegiadau.

Gofynnwch i bob aelod o'r grŵp argymhell un ysgogiad sydd wedi gweithio'n arbennig o dda iddyn nhw a'u dysgwyr. Fel grŵp, ystyriwch y syniadau hyn ac anogwch yr athrawon i roi cynnig ar rywbeth newydd yn ystod yr wythnos nesaf.

Awgrymwch rannu arferion/adnoddau/syniadau effeithiol ymhellach fel elfen reolaidd o gyfarfodydd staff/adrannol yn y dyfodol.

Cymerwch tua 20 munud, neu fwy os yw'r syniadau'n llifo. Fel arweinydd y grŵp, bydd yn rhaid i chi fwrw amcan faint o amser sydd ei angen ar gyfer y gweithgaredd hwn.

Tasg 3

Defnyddio adnoddau allanol

Bydd lleoliad eich ysgol yn pennu, i ryw raddau, natur yr adnoddau allanol y gallech eu defnyddio i ysgogi syniadau ar gyfer gwaith ysgrifennu ar draws y cwricwlwm. Gall pobl, lleoedd a phethau fod yn ysbrydoliaeth a byddwch chi'n gwybod beth neu bwy sydd ar gael yn eich ardal chi.

Un ai mewn parau neu fel gweithgaredd grŵp cyfan, rhestrwch:

- bobl leol a allai ymweld â'r ysgol neu wahodd eich dysgwyr i'w canolfannau i drafod eu diddordebau/hanes/sefydliadau penodol â nhw (e.e. yr heddlu, diffoddwyr tân, swyddogion yr eglwys, nyrsys, perchnogion siopau, aelodau o gymdeithasau hanes lleol, ac ati)
- rhannau diddorol o'ch tref neu bentref neu gymdogaeth leol y gallech ymweld â nhw gyda'ch dysgwyr
- casgliadau o gelf, crefft neu arteffactau mewn amgueddfeydd, orielau neu adeiladau hanesyddol lleol
- cyfleoedd ar gyfer drama trwy ymweld â theatrau neu leoliadau sy'n cynnig gweithgareddau
- cyfleoedd i werthuso cynnyrch – cymharu gwahanol fwydydd, profion blasu ac ati yn gysylltiedig â chynhyrchion a dulliau cynhyrchu lleol
- cyfleoedd a gynigir gan eich llyfrgell leol neu wasanaeth llyfrgell yr ysgol
- awduron proffesiynol y mae eu gwaith yn boblogaidd gyda'ch dysgwyr ac, yn ddelfrydol, a allai fod wedi'u hargymell i chi gan gydweithwyr mewn ysgol arall. Gallai'r rhain fod yn awduron llyfrau am yr ardal leol, er enghraifft, neu awduron ffuglen
- unrhyw beth arall sy'n unigryw i'ch ardal chi a allai ysbrydoli ysgrifennu da.

Cymerwch tua 20 munud.

Tasg 4

Annog dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol

Mae angen annog a chefnogi pob dysgwr i wella ei sgiliau ysgrifennu; bydd angen anogaeth a chymorth ychwanegol ar y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'n hanfodol i athrawon sicrhau eu bod yn diwallu anghenion pob un o'r dysgwyr yn eu dosbarthiadau.

Fel grŵp, ystyriwch sut y cynorthwyir y dysgwyr canlynol yn eich ysgol(ion) chi:

- y rhai sydd ag anghenion addysgol ychwanegol, gan gynnwys dyslecsia
- y rhai sydd â gallu gwybyddol ond sydd angen cymorth technegol, e.e. dysgwyr ag anableddau corfforol neu'r rhai ar y sbectrwm awtistig sydd â rhai anawsterau echddygol
- y rhai sy'n tangyflawni
- y rhai hynny y mae'r Gymraeg/Saesneg yn iaith ychwanegol iddyn nhw
- y rhai sy'n alluog ac yn ddawnus.

Pa strategaethau y gellid eu defnyddio i gynorthwyo'r dysgwyr hyn i wella eu sgiliau ysgrifennu?

Edrychwch ar Daflen 2.3 ac ystyriwch y sylwadau a nodir arni.

Cymerwch tua 15 munud.

Mae Atodiad 2 yn darparu rhai cyfeiriadau defnyddiol.

Taflen 2.1

Yr amgylchedd dysgu

Bydd ystafell ddosbarth sydd â'r nod o ysgogi dysgwyr i fod yn awduron yn cynnwys toreth o ddeunydd ysgrifennu gwahanol gan gynnwys y canlynol.

Amrywiaeth eang o destunau llenyddol ac anllenyddol y gellir eu defnyddio fel modelau i ddangos nodweddion gwahanol fathau o ysgrifennu, megis:

- taflenni gwybodaeth – gwybodaeth i dwristiaid, addysg iechyd, llyfrynnau teithio, ac ati
- ysgrifennu cyfarwyddiadol – ryseitiau, llawlyfrau cyfarwyddyd, ac ati
- hysbysebion
- apeliadau elusennol
- papurau newydd, cylchgronau, comics, nofelau graffig ac erthyglau
- cyfeirlyfrau – geiriaduron, thesawrysau, gwyddoniaduron, cyfeirlyfrau ffôn, llyfrau 'pwnc'
- adnoddau TGCh – gwefannau, negeseuon e-bost, blogiau
- nofelau, straeon byrion, mythau a chwedlau
- barddoniaeth – clasurol, cyfoes, doniol, mewn amrywiaeth o ffurfiau
- testunau drama sy'n briodol i'r grŵp oedran
- adnoddau o wahanol ddiwylliannau ar gyfer dysgwyr y mae'r Gymraeg/Saesneg yn iaith ychwanegol iddyn nhw
- enghreifftiau o ysgrifennu o bob rhan o'r cwricwlwm, sy'n briodol i wahanol bynciau, gan dynnu sylw at strwythurau, nodweddion a geirfa allweddol.

Casgliadau a gynhyrchwyd gan ddysgwyr, er enghraifft:

- ryseitiau
- adroddiadau
- taflenni gwybodaeth
- geiriau sy'n dilyn patrymau sillafu penodol
- geiriau yn hytrach na... ('neis', 'meddai', ac ati)
- eu straeon byrion gorau
- agoriadau effeithiol i straeon
- disgrifiadau effeithiol.

Arddangosfa sy'n dathlu gwaith gorau'r dysgwyr, a newidir yn rheolaidd.

Cymorth cwricwlwm fel rhan o'r arddangosfa a ddefnyddir/y cyfeirir ato yn rheolaidd gan athrawon. Er enghraifft, posterï a gynhyrchwyd gan y dysgwyr sy'n amlinellu:

- sut i fod yn bartner ymateb da
- cwestiynau i'w gofyn cyn ysgrifennu
- nodweddion gwahanol fathau o destunau.

Taflen 2.1 (parhad)

Deunydd ysgogi sy'n ymwneud â'r pwnc neu'r dasg gyfredol:

- lluniau
- arteffactau
- cyflwyniadau ar fwrdd gwyn rhyngweithiol
- offer clywedol gyda CDau, DVDau ac ati priodol
- muriau geiriau.

Adnoddau TGCh digonol i alluogi dysgwyr i greu testunau, gan gyfuno print, delweddau a seiniau, gan gynnwys:

- cyfrifiaduron
- meddalwedd
- bwrdd gwyn rhyngweithiol
- camera digidol
- radio/chwaraewr CDau
- mynediad at y rhynggrwyd.

Trefnu'r dosbarth mewn modd sy'n golygu y gellir ffurfio gwahanol grwpiau ar gyfer amrywiaeth o dasgau. Bydd hyn yn cynnwys:

- gwaith dosbarth cyfan ar gyfer gweithgareddau megis ysgrifennu ar y cyd
- gwaith grŵp gyda chyfraniad yr athro/athrawes, megis sesiynau ysgrifennu dan arweiniad
- gwaith mewn parau, megis cyfle i rannu a mireinio syniadau, cadarnhau dealltwriaeth, rhoi enghreifftiau, ac ati
- gwaith mewn grwpiau bach, a bennwyd gan yr athro/athrawes yn aml, i drafod materion cyn ysgrifennu amdanyn nhw
- grwpiau cyfeillion i drafod a chynllunio, e.e. prosiect menter a fydd yn cynnwys peth gwaith ysgrifenedig
- gwaith unigol gyda chefnogaeth, o bosibl gan gynorthwy-ydd dysgu.

Taflen 2.2

Ysgogiadau effeithiol yn yr ysgol ar gyfer ysgrifennu

Mae'r rhestr ar Daflen 2.1 eisoes wedi darparu llawer o syniadau ar gyfer adnoddau yn yr ystafell ddosbarth, ond bydd gan rai ohonyn nhw oblygiadau ariannol sylweddol i gyllidebau ysgolion. Bydd angen cynllunio'n ofalus dros amser er mwyn darparu amrywiaeth dda o adnoddau ym mhob ystafell ddosbarth yn eich ysgol(ion). Fodd bynnag, nid oes angen i lawer o'r adnoddau fod yn rhy ddrud. Mae'r rhain yn cynnwys:

- llyfrau a chasgliadau a gynhyrchwyd gan y dysgwyr
- arddangosfeydd o'r gwaith gorau
- deunydd cefnogi'r cwricwlwm
- casgliadau o destunau anllenyddol a ddarparwyd gan ddysgwyr neu athrawon o'r byd y tu allan i'r ysgol, gan gynnwys taflenni, papurau newydd, cylchgronau, rhaglenni, ac ati. Gellid casglu'r rhain mewn bocs priodol i'w defnyddio pan fo hynny'n briodol
- catalogau, llyfrynau, Yellow Pages
- y rhyngrwyd.

Os bydd dysgwyr yn cymryd rhan yn y gwaith o gasglu adnoddau o'r fath byddan nhw'n fwy tebygol o ddangos diddordeb yn yr ysgrifennu sydd o'u cwrmpas yn y byd y tu allan i'r ysgol a'i ddefnyddio i gefnogi eu gwaith ysgrifennu eu hunain.

Pobl yn yr ysgol

Arbenigedd a gwaith cynllunio cwricwlwm arbenigwyr pwnc eraill

- Bydd arbenigwyr mewn hanes, daearyddiaeth, cerddoriaeth, celf a dylunio, dylunio a thechnoleg, drama a phynciau eraill yn ffynhonnell syniadau da ar gyfer deunydd ysgogi priodol sy'n ymwneud â phwnc, awyrgylch neu gyfnod penodol.
- Bydd yn ddefnyddiol i athrawon Cymraeg a/neu Saesneg fod yn ymwybodol o bwyslais y cwricwlwm ym mhynciau ei gilydd yn ogystal â phynciau eraill ar gyfer grŵp penodol o ddysgwyr fel y gellir cynllunio gwaith cysylltiedig – efallai trwy ystyried y ffurf, yr amrywiaeth neu'r math o ysgrifennu y gallai dysgwyr ei ddefnyddio i ddangos yr hyn y maen nhw'n ei ddysgu mewn pynciau eraill (gweler Uned 5). Ni fydd hyn yn broblem mewn ysgol gynradd, ond bydd angen cydweithio mwy cynlluniedig rhwng adrannau mewn ysgol uwchradd, fel yr anogir yn *Manteisio i'r eithaf ar ddysgu: Gweithredu'r cwricwlwm diwygiedig* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008).
- Llyfrgellydd yr ysgol a fydd yn gallu darparu cymorth ac adnoddau pwysig.

Ymwelwyr ag ysgolion a allai gynnig cymorth:

- cwmnïau Theatr mewn Addysg
- ymweliadau gan arbenigwyr neu gynrychiolwyr sefydliadau
- rhieni/gofalwyr, teidiau a neiniau, cyn-ddisgyblion
- awduron sy'n ymweld (fel rhan o gynllun Awduron ar Daith yr Academi)
- ymweliadau gan enwogion o fyd chwaraeon neu bobl enwog leol
- cysylltiadau busnes neu entrepreneuriaeth lleol gan gynnwys sefydliadau megis Gyrfa Cymru
- gwyddonwyr o ddiwydiannau lleol.

Annog dysgwyr ag anghenion ychwanegol

Dysgwyr â dyslecsia/anawsterau dysgu penodol

Efallai y bydd angen annog dysgwyr o'r math hwn i ganolbwyntio ar yr hyn y gallan nhw ei wneud a chanolbwyntio ar eu meysydd cryfaf i osgoi a goresgyn trafferthion. Drwy addysgu sensitif, gellir defnyddio gweithgareddau ysgrifennu hefyd i atgyfnerthu dysgu sy'n gysylltiedig â phrosesu sain, gwahaniaethu gweledol a gramadeg/cystrawen, gan fynd i'r afael â meysydd dethol yn systematig er mwyn osgoi gorlethu'r dysgwr. Efallai y bydd gan rai dysgwyr anawsterau o ran cofio, felly gall fod yn fuddiol i ddarparu cymorth gweledol ar gyfer cynllunio, dilyniannu a threfnu tasgau a syniadau'n ddefnyddiol. Efallai y bydd rhai yn araf neu'n methu ffurfio llawysgrifen ac y bydd ganddyn nhw anawsterau o ran cyfeirioldeb. Yn gyffredinol, ni ddylid gofyn i ddysgwyr gopïo testun, a dylid cynnig dewisiadau llafar lle bo'n briodol. Gallai cymorth cyfeillio/cyfoedion fod o gymorth pan fydd yn rhaid i ddysgwyr ddarllen eu gwaith yn uchel, ac ati. Dylid annog dysgwyr i ddatblygu strategaethau ar gyfer gweithio'n annibynnol gan ystyried eu dewisiadau eu hunain o ran cynllun, lliwiau, cyferbyniad, ac ati. Defnyddir technoleg yn gynyddol i gefnogi amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys cynhyrchu gwaith ysgrifenedig mewn fformatau deniadol. Mae rhestr o feddalwedd ddefnyddiol ar gael ar wefannau Cymdeithas Dyslecsia Prydain a Chymdeithas broffesiynol athrawon myfyrwyr ag anawsterau dysgu penodol (Patoss) – gweler Atodiad 2.

Dysgwyr y mae'r Gymraeg neu'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddyn nhw

Yng Nghymru, siaredir 98 o ieithoedd gan o leiaf 8,000 o blant ochr yn ochr â'r Gymraeg a'r Saesneg ac mae angen i ni fanteisio'n llawn ar y ffaith hon. Mae cryn dipyn o dystiolaeth ymchwil ar gael sy'n dangos bod gan ddysgwyr sy'n siarad mwy nag un iaith fwy o allu i ddefnyddio a dysgu iaith yn gyffredinol. Mae cefnogi datblygiad defnydd dysgwr o iaith y cartref yn ogystal â'r Gymraeg a/neu'r Saesneg yn cynnig llawer o fanteision ac fe all wella llythrennedd a dealltwriaeth. Mae angen i ysgolion fanteisio ar amrywiaeth ddiwylliannol ac ieithyddol dysgwyr fel bod profiad pob dysgwr ar draws y cwricwlwm yn cael ei gyfoethogi.

Er hynny, mae angen i athrawon ystyried rhai materion penodol:

- gallai dysgwyr sydd wedi dysgu darllen/ysgrifennu mewn iaith arall fod â pherthynas wahanol rhwng sain a symbol, ac mae'n bosibl felly y byddan nhw'n ei chael hi'n anodd gwahaniaethu rhwng gwahanol seiniau. Gallai hyn effeithio ar sillafu er nad yw'n arwydd o anawsterau clyw na lleferydd
- mae atalnodi mewn ysgrifennu yn dangos goslef, seibiannau, ac ati, felly mae dealltwriaeth yn dibynnu i raddau ar ddatblygiad patrymau lleferydd yn y Gymraeg a/neu Saesneg
- diwylliant sy'n pennu'r ffiniau rhwng gwahanol fathau o ysgrifennu. Bydd ar ddysgwyr o gefndiroedd diwylliannol eraill angen cymorth gyda strwythur, trefn, nodweddion gramadegol, ac ati.

Taflen 2.3 (parhad i)

Sylwer: Mae gan ddysgwyr dwyieithog yng Nghymru yr un manteision â'r rhai a ddisgrifir uchod. Os byddan nhw'n dysgu sgil trwy gyfrwng un iaith yna gallan nhw drosglwyddo'r sgil hwnnw i'w hail iaith, ac yn sicr gallan nhw ei drafod yn y ddwy iaith. Mae llawer o ddysgwyr yn dangos sgiliau aruthrol pan fyddan nhw'n darllen mewn un iaith, yn cyfieithu'n feddyliol ac yn defnyddio eu hail iaith i siarad neu ysgrifennu mewn ymateb – digwyddiad cyffredin mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog lle y mae adnoddau'n aml drwy gyfrwng y Saesneg. Mae angen cydnabod a datblygu sgiliau o'r fath. Ceir trafodaeth bellach ynglŷn â'r materion hyn yn *Datblygu llythrennedd deuol: Papur trafod Estyn* (Estyn, 2002).

Dysgwyr â chyrhaeddiad isel

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae rhai rhaglenni ymyrryd llwyddiannus a gefnogwyd gan Sgiliau Sylfaenol Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru ac awdurdodau lleol, wedi cynorthwyo dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau darllen a sillafu. Mae'r rhain yn cynnwys rhaglenni Adfer Darllen a Dal i Fyny. Fodd bynnag, ceir llai o raglenni cymorth i gynorthwyo dysgwyr i wella eu sgiliau ysgrifennu ehangach, er y gall ansicrwydd ym maes ysgrifennu effeithio ar allu dysgwr i ddysgu a chyfyngu ar ei berfformiad ym mhob maes o'r cwricwlwm. Gall dysgwyr â chyrhaeddiad isel, yn enwedig bechgyn, ddigalonni oherwydd gwallau technegol a threfnu mewn gwaith ysgrifenedig os nad ydyn nhw'n gwybod sut i'w cywiro. Mae'n hanfodol i ddysgwyr o'r fath gael cyfle i:

- ddefnyddio sgwrs er mwyn datblygu syniadau ar lafar
- ymarfer a threfnu eu syniadau cyn ysgrifennu gan ddefnyddio fframweithiau siarad, partneriaid siarad, ac ati
- derbyn cymorth penodol sy'n gysylltiedig â'u hanghenion unigol
- cwblhau tasgau ysgrifennu strwythuredig a phwrpasol sydd wedi'u hegluro'n glir
- canolbwyntio'n systematig ar feysydd megis sillafu, gan nodi eu manau gwan eu hunain a chael cymorth i ddeall sut i wella
- defnyddio technoleg i'w hysgogi eu hunain ac annog awydd i gyfathrebu ag eraill mewn cyd-destunau perthnasol.

Mae gan Sgiliau Sylfaenol Cymru ystod eang o ddeunyddiau i gefnogi dysgwyr â chyrhaeddiad isel. Gweler Atodiad 2 am fanylion.

Dysgwyr mwy galluog a thalentog

Mae tueddiad mewn llawer o ysgolion i athrawon fodloni os yw dysgwyr yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Mae hyn yn golygu, fodd bynnag, nad yw rhai dysgwyr mwy galluog a thalentog yn cael eu hystmyn yn ddigonol a'u bod yn gorffwys ar eu rhwyfau yn hytrach na chyflawni eu potensial. Mae ar ddysgwyr o'r fath angen profiadau dysgu estynedig i'w cyfoethogi o ddydd i ddydd, a bydd ysgrifennu'n rhan o'r profiadau hyn neu'n ganlyniad iddyn nhw yn aml.

Taflen 2.3 (parhad ii)

Nod y pecyn o ddeunyddiau a gyhoeddwyd yn ddiweddar – *Cefnogi uwch sgiliau llythrennedd dysgwyr* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009) (mae dogfen i enghreifftio sgiliau yn y Saesneg hefyd – *Supporting learners' higher-order literacy skills*) yw tynnu sylw athrawon ysgolion uwchradd at y sefyllfa hon a'u hannog i dargedu dysgwyr galluog yn benodol er mwyn codi disgwyliadau a gwella eu cyrhaeddiad. Mae'r ddogfen yn cynnwys enghreifftiau o ddarllen ac ysgrifennu dysgwyr ar Lefelau 7, 8 a Pherfformiad Eithriadol. Bydd cyhoeddiad tebyg, yn canolbwyntio ar sgiliau llythrennedd uwch ar draws y cwricwlwm, yn cael ei anfon at ysgolion yn nhymor y Pasg 2010. Mae Atodiad 2 yn darparu cyfeiriadau a gwefannau perthnasol, gan gynnwys manylion y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Plant Galluog mewn Addysg (NACE) sy'n cyhoeddi canllawiau yn ymwneud â dysgwyr mwy galluog.

Un strategaeth sydd wedi bod yn boblogaidd ac yn effeithiol yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf yw sefydlu Sgwadiau 'Sgwennu'r Ifainc mewn rhai ALLau. Mae'r rhain yn galluogi awduron dawnus i gyfarfod â dysgwyr sydd yr un mor fedrus ac i weithio gyda nhw dan arweiniad awdur proffesiynol (yn yr un ffordd ag y bydd y rhai sydd â dawn mewn chwaraeon yn cyfarfod i gael hyfforddiant ychwanegol gan arbenigwr). Trefnir y cynllun gan yr Academi yng Nghaerdydd ac mae manylion ar gael wrth we-lywio drwy'r adrannau Sgwadiau 'Sgwennu'r Ifainc ar wefan yr Academi yn www.academi.org

Trafodwch a oes grŵp o'r fath yn bodoli yn eich ALL chi. (Byddwch chi, fel arweinydd y grŵp wedi gwneud rhywfaint o waith ymchwil ac yn gallu rhoi arweiniad i'r grŵp.) Os oes grŵp o'r fath yn bodoli, a yw'ch dysgwyr yn cymryd rhan ynddo? Os nad oes un yn bodoli, a allai fod yn bosibl/dymunol/ymarferol ymuno â chynllun sydd eisoes wedi'i sefydlu neu sefydlu un eich hun? Ceisiwch wneud penderfyniad ynglŷn â'r ffordd ymlaen. Er enghraifft, os bydd angen i chi gysylltu â'ch ymgynghorydd/Swyddog ALL, sicrhewch fod rhywun yn cytuno i wneud hynny a mynd â'r mater ymhellach.

Er hynny, mae'n bwysig peidio ag ystyried gwaith 'y tu allan i oriau arferol' fel rhywbeth i ddisodli gweithgareddau i gyfoethogi ac ymestyn y profiadau dysgu y mae angen iddyn nhw ddigwydd mewn ysgolion o ddydd i ddydd i ymestyn hyd a lled y gwaith ar gyfer dysgwyr mwy galluog a dawnus a rhoi cyfleoedd ar gyfer dysgu annibynnol.



Uned 3: Ysgrifennu ar y cyd ac ysgrifennu dan arweiniad

Uned 3

Ysgrifennu ar y cyd ac ysgrifennu dan arweiniad

- Nod:** Addysgu wrth ysgrifennu, gan ganolbwyntio ar ddangos ac archwilio'r penderfyniadau y mae awduron yn eu gwneud wrth gyfansoddi yn hytrach nag addysgu trwy gywiro.
- Amser:** 1½ i 2 awr
- Paratoi:** Darllenwch Uned 3 i gyd ac ymgylfarwyddo â'r prosesau a ddisgrifir.
- Dewiswch bwnc priodol ar gyfer y sesiwn ysgrifennu ar y cyd gyda'ch cydweithwyr. Penderfynwch ar yr agweddau ymarferol o wneud hyn (e.e. ar fwrdd, uwch daflunydd, bwrdd gwyn rhyngweithiol neu ffyrdd eraill) a sicrhewch fod yr offer ar gael ac yn gweithio.
- Defnyddiwch Daflen 3.2 fel pwnc y sesiwn ysgrifennu dan arweiniad. Yn ddelfrydol, dylid rhoi'r daflen ar ddarn mawr o bapur, maint A3 o leiaf, fel y gellir gwneud anodiadau ynglŷn â ffyrdd o wella'r gwaith. Paratowch ddigon o enghreifftiau ar gyfer o leiaf un copi rhwng dau unigolyn; gyda chopi i bob un yn ddelfrydol.
- Gwnewch gopïau o Daflenni 3.1 a 3.3.
- Adnoddau:** Yr offer a ddewiswyd ar gyfer y sesiwn ysgrifennu ar y cyd.
- Copïau o waith ysgrifennu ar gyfer y sesiwn ysgrifennu dan arweiniad.
- Copïau o Daflenni 3.1 a 3.3 ar gyfer pob aelod o'r grŵp.

Crynodeb o'r tasgau

- Tasg 1: Ysgrifennu ar y cyd
- Tasg 2: Ysgrifennu dan arweiniad
- Tasg 3: Gweithredu un strategaeth

Cyflwyniad

Y ddwy strategaeth a ddisgrifir yma yw'r ffyrdd gorau o fodelu'r broses ysgrifennu gyda dysgwyr. Maen nhw'n cynnwys addysgu wrth ysgrifennu, canolbwyntio ar ddangos ac archwilio'r penderfyniadau y mae awduron yn eu gwneud yn ystod y broses gyfansoddi. Mae hyn yn llawer mwy cadarnhaol ac effeithiol na'r dull addysgu trwy gywiro a ddefnyddir yn gyffredin.

Os bydd yr hunan-gwestiynu sy'n ganolog i'r strategaethau hyn yn cael ei sefydlu ym meddyliau dysgwyr trwy ysgrifennu ar y cyd ac ysgrifennu dan arweiniad rheolaidd, yna mae'n hynod debygol y bydd y dysgwyr eu hunain, wrth ysgrifennu'n annibynnol, yn defnyddio'r un dulliau ac yn mynd trwyddyn nhw yn eu meddyliau wrth iddyn nhw gyfansoddi a gwella eu gwaith ysgrifennu eu hunain.

Tasg 1

Ysgrifennu ar y cyd

Sicrhewch fod aelodau'r grŵp yn eistedd fel eu bod yn gallu gweld yr offer rydych wedi'i ddewis ar gyfer y sesiwn ysgrifennu ar y cyd.

Esboniwch mai strategaeth yw ysgrifennu ar y cyd sy'n arafu'r broses ysgrifennu ac sy'n dangos ac yn modelu i ddysgwyr y ffordd y mae angen i awdur feddwl. Mae hyn yn digwydd ar ôl gwneud y penderfyniadau cychwynnol am y pwnc ysgrifennu. Gellir gwneud hyn mewn un o ddwy ffordd: trwy arddangosiad gan yr athro/athrawes i gychwyn ac yna gyda'r athro/athrawes fel ysgrifennydd yn nodi awgrymiadau gan y dosbarth, pan fyddan nhw'n gyfarwydd â'r broses ysgrifennu.

Dylid defnyddio'r ddwy broses ar wahân yn y dosbarth, yn enwedig gyda dysgwyr ifanc neu'r rheiny sydd â sgiliau llythrennedd llai cadarn a fydd angen yr elfen arddangos yn benodol. Fodd bynnag, yn y sefyllfa hon, gyda grŵp o athrawon, mae'n ddoeth cyfuno'r ddwy broses, gan gychwyn gydag arddangosiad ond caniatáu i'r grŵp ymuno â'r gwaith yn raddol tra eich bod chi'n cyflawni swyddogaeth ysgrifennydd.

Cyhoeddwch bwnc/teitl y gwaith ysgrifenedig rydych yn bwriadu ei wneud a chynhaliwch y sesiwn. Bydd angen i chi ymddwyn fel pe bai dosbarth o'ch blaen.

Dechreuwch drwy arddangos: dechreuwch ysgrifennu, gan gwestiynu eich hun yn uchel ynglŷn â'r hyn rydych yn ei wneud a sicrhau bod y broses o feddwl yn eglur. Er enghraifft, os byddwch yn dewis stori, efallai y byddech yn gofyn y canlynol i'ch hun ac yn ateb yn uchel cyn nodi rhywbeth yn ysgrifenedig:

- Ar gyfer pwy rydw i'n ysgrifennu?
- Pam rydw i'n ysgrifennu?
- Pa fath o ysgrifennu fydd hyn?
- Pa naws yr wyf yn dymuno ei greu?
- Pwy neu beth fydd testun fy stori?
- Sut bydd y stori'n cychwyn er mwyn hoelio sylw'r darllenwr?

...ac yn y blaen.

Os byddwch yn dewis adroddiad (er enghraifft, ar agweddau'r dysgwyr at ginio ysgol) gallech ofyn:

- Pwy fydd yn darllen yr adroddiad?
- Beth yw ei nod?
- Pa fath o iaith fyddai'n briodol i'w defnyddio?
- Sut bydd yr adroddiad yn cael ei strwythuro?

Wrth i'r grŵp ddechrau trafod, caniatewch iddyn nhw wneud awgrymiadau – ystyriwch nhw ac yna penderfynwch ba rai i'w defnyddio, gan gyflawni swyddogaeth ysgrifennydd bellach ar gyfer y dosbarth er y byddwch yn parhau i arwain y broses a'r cynnwys. Gofynnwch i aelodau'r grŵp ddrafftio'r gwaith ysgrifennu ar lafar trwy ymarfer brawddegau a gwahodd y lleill i'w 'gwella' cyn i chi eu hysgrifennu. Arbrofwch gyda gwahanol strwythurau i'r brawddegau a gwahanol gysyllteiriau. Parhewch i ddatblygu'r gwaith ysgrifennu, gan ddangos y broses ddrafftio trwy ail-ddarllen pob adran wrth i chi fynd yn eich blaen, gan ofyn a ellid ei gwella – gyda gair mwy priodol, manylion disgrifiadol ychwanegol, trwy aildrefnu'r geiriau, ychwanegu lleferydd uniongyrchol, cofnodi'r dystiolaeth a gasglwyd, ac ati.

Parhewch tan eich bod wedi sefydlu'r broses. Byddwch yn ofalus: gellir cael llawer o hwyl yn gwneud hyn ac mae'n rhaid i chi fod yn ymwybodol o'r amser (dim mwy nag 20 munud yn ddelfrydol).

Trafodwch y strategaeth hon fel grŵp, pa un a yw aelodau'r grŵp eisoes yn ei defnyddio neu efallai y bydden nhw yn fodlon ei defnyddio yn y dyfodol. Os yw rhai athrawon eisoes yn ei defnyddio, gellid tybio y byddan nhw o'r farn ei bod yn ddefnyddiol, felly gofynnwch iddyn nhw rannu eu profiadau o'r strategaeth gyda'r grŵp.

Ystyriwch y sylwadau ar Daflen 3.1 gyda'ch gilydd.

Cymerwch tua 25 munud (h.y. cyfanswm o 45 munud ar ysgrifennu ar y cyd).

Tasg 2

Ysgrifennu dan arweiniad

Dosbarthwch gopiâu o Daflen 3.2 ar dudalennau A3. Mae'r camgymeriadau yn y darn hwn yn amlwg iawn ond serch hynny, dylen nhw arwain at drafodaeth ddiddorol am y ffyrdd gorau o symud y dysgwr hwn yn ei flaen. Yn dibynnu ar faint y grŵp, gofynnwch i'r aelodau weithio mewn grwpiau o bump neu chwech. Mae'n rhaid i un aelod gyflawni swyddogaeth arweinydd y grŵp/yr athro neu'r athrawes.

Bydd aelodau'r grŵp yn efelychu gwaith gyda grwpiau bychain mewn ystafell ddosbarth lle y mae'r athro/athrawes yn gweithio gydag uchafswm o bum dysgwr un ai ar yr un darn o waith neu, gydag ysgrifenydd mwy profiadol, ar ddarn gwahanol y daethpwyd ag ef gan bob aelod o'r grŵp. Mae'r math hwn o waith yn cyd-fynd yn dda â'r holl athroniaeth sy'n ymwneud ag asesu ar gyfer dysgu, h.y. rhannu gydag awdur sut y gellir gwella darn o waith, ac mae'n ffordd werthfawr o gyfnerthu'r dull hwnnw o feddwl.

Dilynwch y drefn hon:

- Darllenwch y darn cyfan yn uchel i'r grŵp.
- Ystyriwch bob brawddeg/paragraff a thrafodwch sut y gellid ei gwella er mwyn egluro'r ystyr, yn yr un ffordd ag y trafodwyd yn yr adran ar ysgrifennu ar y cyd. Ceisiwch annog pob aelod o'r grŵp i gyfrannu at y trafodaethau.
- Edrychwch ar y darn yn ei gyfanrwydd – ydy e'n eglur? Ydy'r syniadau/digwyddiadau/paragraffau yn y drefn briodol? A fyddai unrhyw aildrefnu'n gwneud yr ystyr yn fwy eglur?
- Fel ail gam, ystyriwch gywirdeb y darn o ran sillafu ac atalnodi.
- Gwnewch anodiadau ar y dudalen A3 er mwyn cofnodi'r hyn rydych wedi'i drafod ac wedi cytuno a fydd yn gwella'r darn.

Ar ôl gwella'r darn, trafodwch gyda'r grŵp fanteision ac anfanteision posibl y strategaeth hon ac ystyriwch y sylwadau ar Daflen 3.3.

Cymerwch gyfanswm o tua 45 munud.

Tasg 3

Gweithredu un strategaeth

Mae'r ddwy strategaeth a ystyriwyd yn ystod y sesiwn hon, sef ysgrifennu ar y cyd ac ysgrifennu dan arweiniad, yn elfennau pwysig o addysgu ysgrifennu. Mae'r elfennau ymarferol a manwl hyn yn aml yn absennol o'n hystafelloedd dosbarth. Mae'r strategaethau hyn yn berthnasol i ysgrifennwyr o bob gallu a dylen nhw fod yn rhan o gyfres o ddulliau addysgu pob athro/athrawes. Gellir eu haddasu'n hawdd ar gyfer pob dysgwr ar draws Cyfnodau Allweddol 2 a 3 a'r tu hwnt.

Anogwch athrawon i ystyried:

- Fydd y strategaethau hyn yn cynorthwyo fy nysgwyr?
- Ym mha ffyrdd y byddan nhw'n cael budd ohonyn nhw?
- Pa mor aml y dylwn i ddefnyddio'r strategaethau hyn?
- Pryd y dylwn i ddechrau defnyddio ysgrifennu ar y cyd?
- Sut gallaf drefnu fy nosbarth er mwyn ysgrifennu dan arweiniad?

Eglurwch fod angen ymsefydlu'r prosesau hyn fel rhan o'r drefn arferol, ond na fyddan nhw'n llwyddo dros nos o anghenraid ac y bydd athrawon a dysgwyr yn gwella eu technegau trwy ymarfer.

Cymerwch faint bynnag o amser sydd ei angen/sydd ar gael. Ceisiwch annog yr athrawon i ymrwymo eu hunain i o leiaf un o'r strategaethau hyn – ysgrifennu ar y cyd yn ddelfrydol – cyn eich cyfarfod nesaf.

Ysgrifennu ar y cyd

Mae ysgrifennu ar y cyd yn cyfeirio at gyfansoddi fel dosbarth cyfan. Gan fod ysgrifennu'n weithgaredd preifat a phersonol, mae dod o hyd i strategaeth addysgu sy'n ymyrryd ar yr adeg ysgrifennu yn her, ond mae ysgrifennu ar y cyd yn llwyddo i wneud hyn. Mae'n gwneud y broses anweledig a ddefnyddir gan ysgrifennwyr da yn amlwg i'r rhai nad ydyn nhw yn ysgrifennu cystal. Mae hefyd yn mynd yn groes i'r gred mai ras gan metr yw ysgrifennu. Mae gofyn am fyfyrion a diwygio.

Mae pedair techneg addysgu gyffredinol y gellir eu defnyddio yn ystod sesiwn ysgrifennu ar y cyd i gynorthwyo dysgwyr i symud tuag at fwy o annibyniaeth, er eich bod wedi cymryd rhan mewn dwy ohonyn nhw yn unig yn ystod y sesiwn. Y technegau hyn yw:

- arddangosiad gan yr athro/athrawes
- yr athro/athrawes yn ysgrifennu
- cyfansoddi â chymorth, gan ddefnyddio byrddau gwyn unigol a chanolbwyntio'n bendant ar amcan penodol y wers. Caiff y dysgwyr weithio'n unigol neu mewn parau gan ddangos eu penderfyniadau ar eu byrddau gwyn fel bod y dosbarth yn gallu dewis yr awgrymiadau mwyaf priodol i'w hychwanegu at gyfansoddiad y dosbarth. Anogwch y dysgwyr i esbonio pam fod yn well ganddyn nhw un awgrym nag un arall
- yr athro/athrawes yn dilyn polisi o beidio â chodi llaw, gan gyfeirio cwestiynau sy'n briodol i anghenion dysgu'r dysgwyr unigol er mwyn sicrhau bod dysgwyr o bob gallu yn rhan o'r drafodaeth.

Mae gweithio yn y modd hwn yn galluogi'r athro/athrawes i sicrhau bod pob dysgwr yn cymryd rhan ac i benderfynu pwy sydd angen cymorth pellach, yn unigol neu drwy sesiwn grŵp ddilynol o ysgrifennu dan arweiniad.

Nodweddion allweddol ysgrifennu ar y cyd

Wrth ysgrifennu ar y cyd, mae'n bwysig:

- cytuno gyda'r dosbarth ar sut y bydd **cynulleidfa a diben** y dasg ysgrifennu'n pennu'r strwythur, arddull, naws, y nodweddion gramadegol a'r cynnwys
- defnyddio **amcanion penodol** o'r gwaith ar lefel testun, brawddeg neu eiriau y mae'r wers yn canolbwyntio arno, e.e. ysgrifennu disgrifiadol, ehangu brawddegau, defnyddio comas, defnyddio'r amser gorffennol mewn adroddiad
- **ymarfer brawddegau** cyn eu hysgrifennu. Yn y modd hwn, mae dysgwyr yn fwy tebygol o ddysgu sut i gyfansoddi mewn brawddegau. Gall yr arfer hwn hefyd eu cynorthwyo i'w 'wneud yn iawn' y tro cyntaf gan fod brawddegau'n cael eu diwygio ar lafar cyn eu hysgrifennu ar y dudalen
- annog defnydd **awtomatig** o atalnodi sylfaenol

Taflen 3.1 (parhad)

- **ailddarllen yn gyson ac yn gynyddol** er mwyn sicrhau llif o un frawddeg i'r llall, yn ogystal â gwirio ar gyfer gwelliannau neu gamgymeriadau posibl
- **trafod ac esbonio** pam y gallai un penderfyniad fod yn well nag un arall
- cymryd seibiant yn ystod ysgrifennu er mwyn canolbwyntio'r drafodaeth ar yr amcan penodol ond, fel arall, symudwch weddill y darn yn ei flaen yn gyflym fel na cholli sylw
- derbyn awgrymiadau gan ddysgwyr a fydd yn gwneud cyfraniadau effeithiol ond gofyn hefyd i ddysgwyr a allai gael trafferth er mwyn **gwirio camdybiaethau** a chynnig cyfleoedd pellach i esbonio. Cadwch lygad ar y dysgwyr hyn hefyd pan fyddan nhw'n defnyddio byrddau gwyn bychain i ysgrifennu awgrymiadau arnyn nhw. Pan fydd grŵp bychan yn parhau i fod yn ansicr, gellir ei dargedu'n ddiweddarach fel grŵp dan arweiniad i drafod yr amcan unwaith eto
- gwneud **camgymeriad bwriadol** o dro i dro er mwyn cadw sylw'r dysgwyr a chanolbwyntio ar gamgymeriadau cyffredin neu gamgymeriad sy'n gysylltiedig â'r amcan penodol sy'n cael ei addysgu.

Mae cyfyngiadau amser yn atal sesiynau ysgrifennu dan arweiniad rhag cael eu defnyddio fel y cam nesaf tuag at ysgrifennu annibynnol bob amser. Fodd bynnag, dylai'r rhan fwyaf o ddysgwyr allu symud o ysgrifennu ar y cyd i ysgrifennu annibynnol cyn belled ag y bo'r ysgrifennu ar y cyd wedi'i gynllunio'n ofalus i ddarparu'r cymorth angenrheidiol. Dylid parhau â chanolbwynt y gwaith ysgrifennu ar y cyd mewn tasgau ysgrifennu pwrpasol y gall y dysgwyr fanteisio arnyn nhw i ddefnyddio'r pethau newydd y maen nhw wedi'u dysgu mewn gwersi Cymraeg a Saesneg ac mewn gwersi mewn pynciau eraill.

Gellir defnyddio ysgrifennu ar y cyd i roi sail i ysgrifennu annibynnol mewn nifer o ffyrdd yn ogystal ag ysgrifennu darn o'r newydd fel y dangoswyd yn ystod y sesiwn. Fe all fod yn effeithiol hefyd, er enghraifft, wrth ddarparu:

- cynllun a baratowyd i'r dysgwyr ei ddilyn. Gallai'r cynllun hwn fod ar gyfer gwaith mewn un o'r chwe phrif fath o destun anllenyddol ac yn gysylltiedig â gwaith/cyd-destun mewn pynciau eraill, neu ar gyfer stori neu gerdd
- tasgau ysgrifenedig i'r dysgwyr eu cwblhau neu 'lenwi' mewn testun a gwblhawyd yn rhannol
- amlinelliad ar ffurf nodiadau neu fel siart llif i'r dysgwyr ei ehangu i greu rhyddiaith lawn
- testun sylfaenol i ymhelaethu arno trwy newid yr eirfa ac ychwanegu ymadroddion priodol, e.e. i wneud i'r darllenwr edrych ymlaen at y darn nesaf ac ennyn ei ddiddordeb
- cyfres o ddatganiadau neu frawddegau sydd i'w huno i greu testun cyfan cydlynol
- testun i'w newid, drwy addasu ei ddiben neu ei gynulleidfa; e.e. newid adroddiad i fod yn weithdrefn, addasu dyddiadur person cyntaf i fod yn stori trydydd person, neu newid amser testun o'r presennol i'r gorffennol
- llinell glo neu ddiweddglo storiol eglur, gyda chmau hysbys yn arwain tuag ato, sydd i'w ailadrodd i greu tensiwn neu syndod.

Taflen 3.2

21 Heol Gyntaf
Pentref
Gogledd Cymru

Cyngor Tref Pentref
Pentref
Gogledd Cymru

20th Medi 2009

Annwyl Cyngorwrs,

Rwy'n sgwennu i ofyn i chi ailagor clwb ieuenctid y dref. Cafodd ei gae yn ystod yr haf ac felly nid odd y bobol ifanc a'r plant oedd adref yn ystod y gwiliau'n gallu dod o hyd i rwbeth i'w wneud.

Roedden nhw'n anfoesol i'r bobl yn y dref am eu bod wedi diflasu ac wedi cal llond bol. Os oedd y clwb ieuenctid ar agor yna byddai wedi bod rwbeth iddin nhw ei wneud! Mae'n greulon i'r cyngor gae'r clwb ieuenctid.

Os ydych chi isio gwella'r gymuned a rhoi stop ar y trafferth y tu allan i'r siopiau dylech agor y clwb ieuenctid cyn ei bod yn ry hwyr a bod rhywbeth difrifl yn digwydd. Mae gormod o sbwrial a graffiti o gwmpas yn barod.

Rwy'n credu mai eich gwaith chi yw neud rhywbeth am y problem hwn! Sortiwch o!

Yn cywir

Robert Joseph

Taflen 3.3

Ysgrifennu dan arweiniad

Mae ysgrifennu dan arweiniad yn bont rhwng cyfansoddi fel dosbarth cyfan ac ysgrifennu annibynnol unigol. Mae'n golygu addysgu grŵp bychan o ddysgwyr sydd â lefel debyg o allu neu anghenion tebyg, sydd wedi eu nodi trwy ddata asesu ysgol gyfan. Mae'n darparu cyfle i ganolbwyntio ar grŵp o ddysgwyr a gollodd bwynt dysgu allweddol (yn ystod sesiwn ysgrifennu ar y cyd neu fel y gwelir yn eu gwaith) neu i ddysgu sgiliau sy'n parhau i fod yn ansicr. Gellir ei ddefnyddio hefyd i herio ysgrifenyddwyr mwy galluog a hyderus.

Mae'n galluogi athro/athrawes i:

- oruchwylio ac ymyrryd yn y broses ysgrifennu wrth iddi ddigwydd, pa un a yw'r dysgwyr yn cychwyn darn ysgrifennu, yn diwygio rhywbeth y maen nhw eisoes wedi'i ysgrifennu neu'n derbyn sylwadau gan yr athro/athrawes sy'n ymateb i'w gwaith ysgrifenedig
- trafod a chynnig dewisiadau eraill, mewn cydweithrediad â gweddill y grŵp
- cymryd rhan mewn dull mwy adeiladol o farcio ac ailddrafftio, gan ddileu'r angen i 'gywiro' pan nad yw'r dysgwr yn bresennol
- annog dull ymarferol o wella ymhlith y dysgwyr
- galluogi'r dysgwyr i fagu hunanhyder trwy weithio mewn grŵp bychan o blant o allu tebyg iddyn nhw eu hunain
- canolbwyntio ar anghenion a gallu
- gwneud defnydd da o amser.

Er hynny mae hefyd yn golygu:

- bod angen paratoi
- bod angen sgiliau rheoli grŵp da, gan gynnwys sut i annog ac arwain trafodaeth
- bod gweddill y dosbarth wedi'u hyfforddi yn y drefn o weithio'n annibynnol.

Yn yr un modd ag ysgrifennu ar y cyd, mae angen i'r athro/athrawes ofyn cwestiynau am y broses, gan gadarnhau sut y mae angen meddwl.

Os yw'r dysgwyr yn paratoi am ysgrifennu, gallai'r athro/athrawes ofyn:

- Pam rydym ni'n ysgrifennu hyn?
- Ar gyfer pwy mae'r darn?
- Beth rydym ni'n dymuno ei ddweud?
- Pa syniadau a ddefnyddiwn ni?
- Sut gallwn ni gysylltu'r syniadau â'i gilydd?
- Sut gallem ni gychwyn?
- Sut gwnawn ni gloi'r darn?

Taflen 3.3 (parhad)

Os ydyn nhw'n diwygio darn o waith ysgrifenedig, gallai'r athro/athrawes ofyn:

- Ydy hyn yn gwneud synnwyr?
- Ydy'r iaith yn briodol i'r gynulleidfa?
- Wyt ti wedi anghofio unrhyw beth?
- Beth oeddet ti'n ei olygu fan hyn?
- Am bwy y mae hwn?
- Allet ti gychwyn y brawddegau mewn ffordd wahanol?

Os yw'r dysgwyr yn ymateb i sylwadau'r athro/athrawes, gallai'r athro/athrawes ddweud:

- Beth wyt ti'n hapus ag ef?
- Oes rhannau nad wyt ti'n siŵr amdanyn nhw?
- Beth sy'n swnio'n anghywir?
- Sut gellid sillafu hyn?
- Sut gallwn ni wella'r rhan yma?
- Allwn ni ychwanegu rhai manylion?
- Oes gen ti unrhyw syniadau?
- Allen ni ddweud...?
- Allet ti roi cynnig ar...

Mae'r dull addysgu hwn yn adlewyrchu llawer o'r hyn a drafodir yn Uned 10, asesu gwaith ysgrifennu yn ffurfiannol sy'n cynyddu dealltwriaeth y dysgwyr o sut i wella eu gwaith. Mae Uned 4 hefyd yn darparu amrywiaeth bellach o strategaethau ar gyfer ymateb i waith dysgwyr a'u cynorthwyo i nodi meysydd i'w gwella.





Uned 4: Cyfansoddi testun

Uned 4

Cyfansoddi testun

- Nod:** Ystyried camau amrywiol y broses gyfansoddi – cynllunio'r cynnwys, drafftio, diwygio a golygu, gwerthuso a rhannu'r gwaith ysgrifennu gydag eraill, fel camau sy'n arwain at y cynnyrch 'cyhoeddedig' terfynol.
- Amser:** 1½ i 2 awr
- Paratoi:** Darllenwch drwy Uned 4 i gyd ac ymgylfarwyddo â'i chynnwys.
- Adnoddau:** Copïau o Daflenni 4.1 i 4.4.

Crynodeb o'r tasgau

- Tasg 1: Cynllunio'r cynnwys
- Tasg 2: Rhoi sail i'r gwaith ysgrifennu
- Tasg 3a: Diwygio/aillddrafftio'r gwaith ysgrifennu
- Tasg 3b: Bod yn olygydd
- Tasg 4: Cyhoeddi

Cyflwyniad

Mae Gorchymyn y cwricwlwm cenedlaethol yn darparu model o'r broses ysgrifennu. Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr baratoi a *chynllunio, drafftio ac ailddrafftio'r cynnwys a'r iaith, prawf-ddarllen a pharatoi copi terfynol o'u gwaith ysgrifennu.*

Mae pob un o'r elfennau hyn yn bwysig i gynhyrchu darn o waith ysgrifennu gorffenedig.

Mae'r broses yn ailadrodd y dilyniant 'Cynllunio, Datblygu, Myfyrio' o'r broses Datblygu meddwl yn y *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*, (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008) ac, er mwyn bod yn gwbl effeithiol, mae'n gofyn bod dysgwyr yn nodi meini prawf llwyddiant priodol ar gyfer eu gwaith ar y cychwyn, ac yna gwerthuso'r canlyniad yn erbyn y meini prawf hynny.

Wrth gwrs, bydd adegau pan fydd yn ofynnol i ddysgwr ysgrifennu rhywbeth heb fynd drwy'r broses ysgrifennu gyfan. Rydym eisoes wedi crybwyll profion neu arholiadau pan fydd amser yn brin. Bydd adegau eraill hefyd pan fydd yn rhaid ysgrifennu'n gyflym ac unwaith yn unig. Fodd bynnag, os bydd dysgwyr wedi arfer mynd drwy'r broses ysgrifennu'n rheolaidd yn ystod eu blynyddoedd yn yr ysgol, bydd y broses yn dod yn ail natur iddyn nhw a byddan nhw'n mynd drwyddi'n dawel, yn eu meddyliau ac yn eu hisymwybod fwy na thebyg pryd bynnag y byddan nhw'n ysgrifennu. Os bydd dysgwr wedi darllen amrywiaeth o destunau diddorol a heriol sydd wedi'u hysgrifennu'n dda, boed y rhain yn destunau llenyddol neu'n anllenyddol, gan gynnwys y rheiny sydd yn bwnc-penodol, fel rhan o'r cwricwlwm darllen ar draws y cwricwlwm, bydd iaith a phatrymau'r testunau hynny'n cael eu hailadrodd yng ngwaith ysgrifennu'r dysgwr.

Tasg 1

Cynllunio'r cynnwys

Mae llawer o ffyrdd i gynllunio ar gyfer ysgrifennu, gan gynnwys defnyddio'r hunan-gwestiynu a nodwyd yn yr uned flaenorol, a ddylai helpu dysgwyr i benderfynu ar gynulleidfa a diben eu gwaith ysgrifennu a'u cynorthwyo i ystyried y dewisiadau y gellid eu gwneud o ran iaith a naws.

Ni fydd awdur effeithiol yn cynllunio'n ffurfiol ymlaen llaw bob amser, yn enwedig wrth ysgrifennu pethau fel llythyr personol neu gerdyn cyfarch, ond bydd testunau hirach neu fwy ffurfiol fel arfer yn mynnu rhyw lefel o gynllunio ac ystyried cyn cychwyn ar y drafft cyntaf. Mae'n debygol y bydd angen i awdur sy'n llai effeithiol wneud rhywfaint o waith cynllunio beth bynnag fo'r dasg sydd i'w chyflawni.

Gofynnwch i aelodau'r grŵp restru a thrafod y gwahanol ddulliau cynllunio sydd, yn eu barn nhw, yn gweithio i'w dysgwyr.

Cymharwch y canfyddiadau â'r rhestr ar Daflen 4.1 ac ychwanegwch ati fel sy'n briodol.

Cymerwch tua 20 munud.

Tasg 2

Rhoi sail i'r gwaith ysgrifennu

Mae angen modelau ar ddysgwyr i ddangos iddyn nhw sut i ysgrifennu. Yn aml, gall y rhain ddod o'r hyn y maen nhw wedi'i ddarllen lle y gall darllen a dadansoddi testun penodol ar y cyd gynnig awgrymiadau ynglŷn â sut i fynd i'r afael â thasg ysgrifennu debyg. Mae'n hollbwysig, felly, bod dysgwyr yn darllen amrywiaeth eang o ddeunyddiau ysgrifenedig (ystod o destunau anllenyddol sydd mor amrywiol â phosibl yn ogystal â storïau, chwedlau a straeon gwerin, barddoniaeth a sgriptiau drama) a'u bod yn dadansoddi'r testunau hyn, gyda chymorth, mewn ffordd sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu. Trafodir strategaethau ar gyfer darllen yn y modd hwn yn y ddogfen *Canllawiau ar addysgu uwch sgiliau darllen: Cyfleoedd HMS i athrawon pob pwnc ar draws y cwricwlwm yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010).

Mae siarad hefyd yn fan cychwyn pwysig ar gyfer gwaith sy'n arwain at ysgrifennu. Mae sefydlu partneriaid siarad yn ffordd effeithiol o alluogi dysgwyr i archwilio'r pwnc y byddan nhw'n ysgrifennu amdano ac ymarfer defnyddio strwythurau iaith a geirfa anghyfarwydd cyn rhoi pin ar bapur neu fys ar fysellfwrdd. Nodir rhai syniadau am bartneriaid siarad ar Daflen 4.2, syniadau y gellid eu cyflwyno ar ffurf poster cynorthwyol i'w arddangos yn yr ystafell ddosbarth. Trwy siarad, gall dysgwyr fynegi'r hyn y maen nhw am ei ysgrifennu, ei ddiwygio ar lafar hyd nes ei fod yn union gywir, ymarfer gan ddefnyddio termau a geirfa briodol, a magu hyder wrth roi eu syniadau mewn geiriau. Bydd y dull hwn yn helpu i dynnu sylw at unrhyw gamsyniadau y gellir eu herio a'u haddasu cyn eu gosod ar bapur neu ar y sgrin.

Un strategaeth addysgu boblogaidd yw annog y defnydd o fframiau ysgrifennu. Mae'r rhain yn darparu fframwaith ar gyfer ysgrifennu, gan roi dechreuadau i baragraffau a strwythur awgrymedig, a heb os maen nhw'n ddefnyddiol fel cymorth i ysgrifennwyr ifanc neu lai galluog. Gallan nhw helpu i fagu hyder a chael gwared ar y braw mae'r dudalen wag yn ei achosi i'r rhai nad ydyn nhw'n gwybod ble na sut i ddechrau ond ni allan nhw, yn unigol, alluogi dysgwyr llai galluog i ddatblygu i fod yn ysgrifennwyr annibynnol. Yn wir, ni ddylid eu defnyddio am gyfnod rhy hir. Mewn gwirionedd, gall fframweithiau rhagnodol gyfyngu'r awdur mwy galluog sydd â'r gallu i arbrofi'n annibynnol gyda strwythur a threfn testun.

Camau yn y broses ysgrifennu yw fframiau ysgrifennu, a dylid defnyddio llai arnyn nhw wrth i'r dysgwyr ddod i ysgrifennu'n fwy hyderus. Un ffordd o greu pont rhwng defnyddio fframiau ysgrifennu'n rheolaidd ac ysgrifennu'n annibynnol, yw gofyn i'r dysgwyr ddatblygu eu fframiau eu hunain ar gyfer darnau ysgrifennu penodol – fel gweithgaredd ysgrifennu ar y cyd gyda'r dosbarth cyfan i ddechrau, ac yna fel unigolion.

Trafodwch gyda'r grŵp y strategaethau y maen nhw'n eu defnyddio i sicrhau bod dysgwyr yn dechrau ysgrifennu pan fydd yn rhaid iddyn nhw wneud hynny, ac nad ydyn nhw'n gwastraffu amser fel ffordd o osgoi'r dasg. Darperir rhestr o awgrymiadau ar Daflen 4.3.

Cymerwch tua 15 munud.

Tasg 3a

Diwygio/ailldrafftio'r gwaith ysgrifennu

Gall ailldrafftio gwaith ysgrifennu gymryd amser ac mae'n aml yn anodd i athrawon neilltuo digon o amser i ddysgwyr fynd drwy'r holl broses ysgrifennu yn y modd hwn. Mae'r broses yn fwy llafurus fyth i ddysgwyr â sgiliau llythrennedd gwael, a byddan nhw'n rhoi'r gorau iddi oni bai bod athrawon yn defnyddio dulliau addysgu a wahaniaethwyd yn ofalus.

Gall dysgwyr hefyd deimlo fod ailldrafftio yn dasg ddiflas ac yn ddiangen oni bai y dangoswyd iddyn nhw pan oedden nhw'n ifanc mai prin yw'r bobl sy'n gallu ysgrifennu'n union yr hyn y maen nhw'n dymuno ei ysgrifennu y tro cyntaf. Mae angen i ddysgwyr ddeall ei bod yn angenrheidiol ac yn ddoeth i fynd yn ôl a diwygio'r hyn a ysgrifennwyd, yn enwedig os yw'r gwaith ysgrifennu hwnnw am gael ei gyflwyno i gynulleidfa allanol. Mae awduron sy'n ymweld ag ysgolion yn aml yn gwneud y pwynt hwn wrth ddisgrifio eu harferion gwaith eu hunain. Gellir cyfleu hyn hefyd trwy ddangos copïau o ddrafft gwaith gwirioneddol awdur – er enghraifft, darn o waith wedi ei deipio sy'n dangos newidiadau neu fersiynau drafft o rai o gerddi R. Williams Parry.

Nid oes angen i ddysgwyr ailysgrifennu pob darn o waith ysgrifenedig fel 'copi glân'. Y gweithgaredd hanfodol yw gwella'r gwaith ysgrifennu, ac mae'n gwbl dderbyniol gadael rhai darnau o waith ysgrifennu ar eu ffurf 'gweithdy' gyda llinell trwy rai geiriau, geiriau newydd wedi'u rhoi yn eu lle, trefn y geiriau wedi'i newid a chyfresi syniadau wedi'u diwygio. Nid yw'r un problemau'n codi gyda gwaith sy'n cael ei ailldrafftio ar gyfrifiadur.

Y pwynt allweddol yw bod yr athro/athrawes a'r dysgwr yn penderfynu pa fathau o waith ysgrifennu y mae angen eu rhannu â chynulleidfa go iawn, neu a fyddai'n elwa o hynny, ac felly y gellir eu hailddrafftio a'u 'cyhoeddi' at ddiben go iawn.

Mae angen i ddysgwyr gydnabod bod y gallu i ddatblygu eu gwaith ysgrifennu ym mhob un o bynciau'r cwricwlwm yn hanfodol i'w llwyddiant yn y dyfodol. Mae angen gwneud rhywfaint o waith ysgrifennu ar gyfer bron i bob arholiad cyn-16 oed – nid rhyw lawer iawn yn aml ond er hynny mae angen mynegiant eglur a chywirdeb technegol – ac mae angen llawer mwy ar gyfer cyrsiau ôl-16 uwch megis safonau UG/U. Mae angen paratoi'n systematig trwy gydol Cyfnodau Allweddol 2 a 3 ym mhob pwnc ar gyfer cwblhau gwaith estynedig o'r fath, o ran strwythuro testun a sicrhau cywirdeb awtomatig mewn agweddau megis sillafu ac atalnodi.

Yn Uned 3, darparodd y prosesau ysgrifennu ar y cyd ac ysgrifennu dan arweiniad ddwy ffordd y gall athrawon gynorthwyo dysgwyr i feddwl fel awdur a gwella eu testun. Mae angen bellach i chi ystyried ffyrdd y gall dysgwyr eu hunain fynd i'r afael â'r broses hon.

Mewn parau, ac yna fel grŵp cyfan, trafodwch ffyrdd mwyaf effeithiol athrawon o annog dysgwyr i ailddrafftio gwaith.

Edrychwch ar Daflen 4.4 lle y trafodir 'partneriaid ymateb' a 'chadair yr awdur' fel dwy ffordd bosibl ac ymarferol o wneud y broses yn ddiddorol. Trafodwch ac ychwanegwch awgrymiadau'r grŵp er mwyn creu rhestr y gellir cyfeirio ati. Mae Taflen 4.5 yn darparu mwy o awgrymiadau.

Cymerwch tua 20 munud.

Tasg 3b

Bod yn olygydd

Mae dwy ran i waith golygydd proffesiynol:

- i) gwella trefn syniadau a digwyddiadau mewn testun ac amlygu unrhyw beth sy'n ramadegol anghywir, yn yr un ffordd ag y gallai'r dosbarth gynorthwyo awdur yng nghadair yr awdur (gweler Tasg 3a)
- ii) cywiro camgymeriadau sillafu, atalnodi a chynllun yn y gwaith – cynhyrchir yr hyn a elwir yn 'gopi' a defnyddir termau fel golygydd copi neu brawf-ddarllen.

Mae angen i bob awdur fod yn ymwybodol o bob un o'r prosesau hyn.

Trafodwch gyda'r athrawon sut y gallan nhw gynorthwyo'r broses golygu copi. Beth sydd ei angen ar ddysgwyr i'w cynorthwyo? Sut gallwch chi annog dysgwyr i adael y broses o gywiro sillafu a mireinio atalnodi tan ar ôl iddyn nhw gofnodi eu syniadau cychwynnol ar bapur neu sgrin?

Cymerwch tua 15 munud.

Tasg 4

Cyhoeddi

Un o'r ffyrdd gorau o annog dysgwyr i 'wneud pethau'n iawn' yw sicrhau bod pwrpas gwirioneddol i'w gwaith ysgrifennu ac y bydd yn cael ei rannu gyda chynulleidfa go iawn. Os mai'r unig berson a fydd yn darllen yr hyn a ysgrifennwyd yw'r athro/athrawes, yna prin yw'r cymhelliad i lawer o ddysgwyr geisio creu argraff dda gan nad oes unrhyw beth yn digwydd o ganlyniad i'w gwaith ysgrifennu. Mae hyn yn arbennig o wir i rai dysgwyr, er enghraifft y rhai hynny nad ydyn nhw'n dangos llawer o frwdfrydedd tuag at dasgau sydd, yn eu barn nhw, yn ddibwrpas ac yn ddiflas.

Gofynnwch i hanner y grŵp drafod ysgrifennu llenyddol a'r hanner arall i drafod ysgrifennu anllenyddol, ac i nodi dibenion a chynulleidfaoedd y gellid eu defnyddio i roi canolbwynt i dasgau ysgrifennu. Dewch â'r grwpiau at ei gilydd a rhannu'r canfyddiadau.

Mae Taflen 4.6 yn darparu rhestr rannol ond bydd pethau eraill sy'n benodol i'r ysgol neu'r ardal y byddwch yn gallu eu defnyddio hefyd. Gweler hefyd Uned 9 lle y trafodir yr agweddau ymarferol ar gyhoeddi ac yr archwilir penderfyniadau am ba nodweddion i'w defnyddio o ran trefn a chyflwyno gwaith.

Cymerwch tua 20 munud.

Dulliau cynllunio

1. Mae cadw dyddiadur ysgrifennu neu syniadau yn ffordd ddefnyddiol i ddysgwyr gofnodi eu syniadau, eu teimladau, eu harsylwadau, yr hyn maen nhw'n ei hoffi am faterion, awduron, straeon, geiriau, ymadroddion neu ffeithiau diddorol, ac ati. Gall hon fod yn ddogfen gynllunio barhaus ac yn ysgogiad ar gyfer ysgrifennu yn y dyfodol.
2. Un rhan o'r broses gynllunio yw nodi meini prawf llwyddiant priodol ar gyfer y darn o waith. Bydd y rhain yn gysylltiedig â diben, cynulleidfa, hyd disgwylidig a chywirdeb y gwaith. Dylai dysgwyr drafod y meini prawf llwyddiant fel rhan o'u gwaith cynllunio.

Er enghraifft, gallen nhw gynnwys:

- ysgrifennu darn o waith sy'n gwneud synnwyr
- cynnal diddordeb y darllenwr/wyr
- defnyddio iaith sy'n ddealladwy i'r darllenwr y mae'r gwaith wedi'i fwriadu ar ei gyfer (e.e. dysgwr iau yn y Cyfnod Sylfaen)
- atalnodi'n gywir
- sillafu'n gywir
- ysgrifennu'n eglur ac yn ddealladwy/cyflwyno'r gwaith yn effeithiol gan ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

O ran gwaith ysgrifennu llenyddol, bydd y meini prawf llwyddiant yn gysylltiedig â'r dasg yn yr un ffordd.

Fodd bynnag, mae meini prawf llwyddiant cyffredinol y dylai dysgwr eu hystyried ar gyfer pob darn o waith ysgrifenedig a gyflawnir, yn y cyfnod cynradd ac uwchradd. Amlinellir y rhain isod.

Ar ôl cwblhau pob darn o waith, gwiriwch eich bod wedi:

- defnyddio atalnodau llawn a phriflythrennau
- defnyddio llawysgrifen ddealladwy
- cyflwyno eich gwaith yn briodol
- darllen y meini prawf llwyddiant.

Gallai rhestr atgoffa fel hon fod yn rhan ddefnyddiol o arddangosfa mewn ystafell ddosbarth.

Meini prawf llwyddiant ar gyfer Ysgrifennu – Ydw i wedi:

- ysgrifennu mewn brawddegau
- defnyddio atalnodau llawn a phriflythrennau
- cymysgu priflythrennau a llythrennau bach
- defnyddio geiriau sy'n briodol i'r pwrpas a'r gynulleidfa
- defnyddio amrywiaeth o strwythurau brawddegau lle bo'n briodol
- defnyddio dyfynodau os yw pobl yn siarad yn fy erthygl/hysbyseb/stori.

Taflen 4.1 (parhad)

3. Mae'n anochel y bydd dulliau cynllunio yn adlewyrchu oedran y dysgwyr. Yn gynnar yng Nghyfnod Allweddol 2, er enghraifft, gallen nhw gynnwys:
- twba lwcus – tri bocs sy'n cynnwys, ar gardiau ar wahân, casgliad o bobl, casgliad o leoedd a chasgliad o ddigwyddiadau. Mae'r dysgwyr yn cymryd un eitem o bob bocs ac yn eu defnyddio fel sail ar gyfer stori
 - taflu'r dis – gwnewch ddis papur gyda chwestiynau neu ddatganiadau perthnasol ar bob wyneb ohono. Mae'r dysgwyr yn taflu'r dis ac yn ymateb i'r hyn sy'n ymddangos, yna maen nhw'n ailadrodd y broses tan i bob wyneb gael ei ddefnyddio. Yna, gallan nhw drefnu'r wybodaeth y maen nhw wedi'i chasglu i ffurfio eu darn o waith ysgrifennu
 - byrddau stori (gyda lluniau neu hebddyn nhw) lle y nodir digwyddiadau allweddol mewn stori neu broses yn eu trefn. Yna gellid troi pob rhan yn baragraff a dylai'r dysgwyr nodi beth fydd y brif frawddeg neu bwnc yn y paragraff
 - fframiau ysgrifennu, a drafodir ac a gynhyrchir fel gweithgaredd a rennir yn y dosbarth neu a ddarperir gan yr athro/athrawes
 - fframweithiau siarad, fel yr uchod
 - cardiau symbylu gyda chwestiwn neu ddatganiad, neu lun neu wrthrych efallai, sydd o bosibl yn gysylltiedig â phynciau megis hanes neu wyddoniaeth, a fyddai'n symbylu trafodaeth (grŵp neu ddosbarth cyfan), neu waith ysgrifennu. Cwestiynau megis: 'Beth sydd yn y parcel/blwch, ac o ble y daeth ef?', 'Edrychwch ar y llwybr yma, pwy wnaeth y llwybr ac i ble mae'n mynd?', 'Pe baech yn cael ymweld ag unrhyw le ac amser mewn hanes, ble a pha gyfnod fydddech yn ei ddewis? Pam?'

Yn ystod camau diweddarach, gallai'r dysgwyr:

- daflu syniadau, fel gweithgaredd grŵp fwy na thebyg; gan gysylltu'r syniadau hyn a'u rhoi mewn trefn resymegol i gyfateb i bwrpas y gwaith y bwriedir ei ysgrifennu
- archwilio syniadau trwy weithgareddau seiliedig ar ddrama, e.e. chwarae rhan, 'tableaux' neu rewi sefyllfa
- cynnal ymarfer 'cadair goch' ar gyfer cymeriad priodol wrth baratoi am gyflwyno safbwynt
- defnyddio trefnwyr graffig megis diagramau pry cop neu goeden, neu fapiau meddwl, lle y rhoddir y prif syniad yn y canol ac mae'r syniadau ategol yn deillio ohono
- cynhyrchu llinellau amser, siartiau llif neu fapiau sy'n dangos trefn yr hyn sy'n digwydd fel bod rhaid iddyn nhw feddwl am eu pwnc ac ystyried y trosolwg
- gweithio gyda phartner siarad i drafod syniadau ac ymarfer defnyddio iaith.

Mae Sgiliau Sylfaenol Cymru wedi cyhoeddi ystod o lyfrynnau sy'n ymwneud â fframiau siarad/llafar a strategaethau eraill sy'n gysylltiedig â phynciau penodol yn y cwricwlwm – gweler Atodiad 2 am fanylion.

Taflen 4.2

Partneriaid siarad

Sut i fod yn bartner siarad da:	Sut i BEIDIO â bod yn bartner siarad:
Sicrhewch fod eich sylwadau'n adeiladol ac yn cynorthwyo'ch partner i wella ei waith.	Gwneud sylwadau anadeiladol/gwirion am waith eich partner.
Gadewch i'ch partner fynegi ei farn.	Peidio â gwranddo ar yr hyn y mae eich partner yn ei ddweud.
Meddyliwch am yr hyn y mae eich partner yn ei ddweud.	Torri ar draws eich partner drwy'r amser.
Edrychwch ar eich partner pan fydd yn siarad.	Osgoi gwneud cyswllt llygad â'ch partner.
Dangoswch ddiddordeb yn syniadau/gwaith eich partner.	Dangos diffyg diddordeb, e.e. edrych fel petaech wedi diflasu.
Peidiwch â gadael i bobl/pethau eraill dynnu eich sylw.	Bod yn aflonydd a thynnu sylw pobl eraill.
Sicrhewch eich bod yn canolbwyntio ar y dasg.	Tynnu sylw'ch partner, e.e. trwy siarad am bethau eraill neu wneud sylwadau gwirion/jôcs sy'n golygu na all y ddau ohonoch ganolbwyntio ar y dasg.
Os ydych chi'n credu bod syniadau eich partner yn fwy diddorol, byddwch yn barod i 'hepgor' rhai o'ch syniadau eich hun.	Esgus gwranddo ac yna 'torri ar draws' pan fydd seibiant fel y gallwch ddweud yr hyn rydych chi'n dymuno ei ddweud.
Ceisiwch fod yn eglur ynglŷn â'r hyn yr ydych yn ei olygu pan fyddwch yn siarad.	Mynegi eich syniadau'n syth heb feddwl amdanyn nhw.
Dywedwch fwy nag un neu ddau o eiriau.	Dweud un neu ddau o eiriau yn unig.
Byddwch yn barod i addasu, cyfaddawdu neu ddarbwyllio eich partner yn adeiladol.	Bosio neu fwlio eich partner i dderbyn eich atebion.

Dechrau ysgrifennu

Mae athrawon yn gwbl ymwybodol bod rhai dysgwyr yn amharod i ddechrau ysgrifennu ac y byddan nhw'n dod o hyd i lawer o resymau i gyfiawnhau'r ffaith eu bod yn oedi fel bod amser yn cael ei wastraffu a phrin iawn yn cael ei gynhyrchu. Ar ôl cyflawni'r gwaith cynllunio angenrheidiol ac i ddysgwyr benderfynu'n eglur ar y diben a'r gynulleidfa ar gyfer eu gwaith, mae'n hanfodol bod rhywfaint o ysgrifennu'n cael ei wneud ar sgrin neu ar bapur yn gyflym ac ar gyflymder priodol. Mae'n rhaid i athrawon bwysleisio mai syniadau a chynnwys yw'r blaenoriaethau a'i bod yn amhosibl gwella eu gwaith oni bai eu bod yn ysgrifennu rhywbeth. Ni ddylen nhw ddarparu sillafu cywir ar gais – yn hytrach dylen nhw annog dysgwyr i roi cynnig arni yn ystod y cam hwn a mynd ati o ddifrif i ysgrifennu. Daw'r cam diwygio a golygu (sy'n canolbwyntio ar wella trefn, sillafu ac atalnodi) yn ddiweddarach, hyd yn oed mewn arholiad pan gynghorir ymgeiswyr bob amser i dreulio ychydig funudau'n gwirio eu gwaith am gamgymeriadau amlwg.

Mae'r math hwn o hyfforddiant yn fwy hanfodol byth erbyn hyn oherwydd bydd cymwysterau TGAU yn cynnwys asesiadau a reolir – gwaith y mae'n rhaid ei gwblhau dan oruchwyliaeth o fewn amser penodol.

Gellir defnyddio'r strategaethau canlynol i gynorthwyo dysgwyr.

Casglu manau cychwyn effeithiol ar gyfer ysgrifennu

Mae dysgwyr ar y cyfan yn mwynhau casglu pethau, felly gall athrawon fanteisio ar hyn a threfnu casgliad o fannau cychwyn effeithiol – ar gyfer pob math o destunau. Pan fydd dysgwyr yn cymryd rhan ymarferol yn y broses o roi casgliad o'r fath at ei gilydd, byddan nhw'n cymryd mwy o ddiddordeb na phe bydden nhw ond yn derbyn enghreifftiau. Mae'r rhestr ganlynol yn darparu rhai syniadau am y math o fannau cychwyn a ddefnyddir wrth ysgrifennu:

- Gofyn cwestiwn – 'Ydych chi erioed wedi meddwl...?'
- Cyflwyno barn gref – 'Mae gwastraffu bwyd da yn ein cymdeithas yn warth.'
- Cynnig ffaith neu ystadegyn diddorol – 'Mae plant yng Nghymru yn siarad 98 o wahanol ieithoedd.'
- Defnyddio dyfyniad enwog – 'Mae gen i freuddwyd.'
- Datgan ffaith frawychus – 'Yn ystod yr wythnosau nesaf, bydd cannoedd o blant yn cael eu hanafu ar y ffyrdd.'
- Dangos gweithred – 'Fflachiodd y goelcerth. Roedd tân gwyllt yn sgrechian drwy'r awyr. Daeth ebychiadau o syfrdandod o'r dorf. Tachwedd y 5ed oedd hi, ac roeddem yn mwynhau'r olygfa.'
- Ail-ddweud stori'n gryno – 'Lithrodd y bachgen ar y rhew, gan syrthio'n bendramwnwgl a glanio ar y glaswellt.'
- Annerch y darllenwr yn uniongyrchol – 'Dychmygwch sefyll ar ymyl fwrdd plymio uchel.'

Taflen 4.3 (parhad)

- Darparu disgrifiad byw – ‘Roedd ei wyneb yn goch, roedd yn flin ac yn ysgwyd ei ddwrn yn galed.’
- Cychwyn gydag iaith lafar uniongyrchol – “Mi wnei di fel dwi’n ei ddweud,” meddai, “neu mi wnei di ddifaru.”

Gweler hefyd yr awgrymiadau ar gyfer annog ysgrifennu ar Daflen 4.1.

Annog dysgwyr i ddefnyddio TGCh

Bydd hyn yn ysgogi llawer o ddysgwyr i ysgrifennu gan fod ganddyn nhw gynifer o ddewisiadau o ran ffont, arddull, lliw a diwyg. Mae hefyd yn golygu nad ydyn nhw’n gorfod pryderu ynglŷn â llawysgrifen a sgiliau cyflwyno gwael. Mae TGCh yn hynod werthfawr, yn enwedig i ddysgwyr llai galluog â lefelau cyrhaeddiad is, fel dull o gwblhau’r dasg ysgrifennu wreiddiol – sy’n broses lafurus yn aml – ac yna ei hailddrafftio a’i mireinio’n ddiweddarach. Bydd dysgwyr mwy galluog â lefelau cyrhaeddiad uwch yn manteisio i’r eithaf ar nodweddion y feddalwedd i baratoi a mireinio’u gwaith, gan gyfuno gwybodaeth a chynhyrchu gwybodaeth newydd i baratoi gwaith sy’n diwallu anghenion y gynulleidfa.

Nodi amserlen fanwl

Neilltuwch gyfnod priodol i bawb gynhyrchu, er enghraifft, paragraff agoriadol. Gellid dangos hwn ar fwrdd gwyn neu ei atgyfnerthu trwy ddefnyddio cloc larwm.

Neilltuwch gyfnod hirach – gwers un awr efallai – ar gyfer darn cyflawn o waith a chadwch ato, ac eithrio ar gyfer dysgwyr sydd angen amser ychwanegol am resymau penodol. Mae angen hyfforddi dysgwyr i weithio ar gyflymder sy’n eu galluogi i ymdopi â phwysau arholiadau neu bwysau’r gweithle yn y dyfodol.

Annog aildrafftio

1. Partneriaid ymateb/hunanasesu ac asesu cyfoedion

Mae angen i ddysgwyr ddod i'r arfer o hunanasesu – hynny yw, trwy sylweddoli yn gyntaf bod eu darn ysgrifennu cyntaf yn annhebygol o fod y gorau y gallan nhw ei gynhyrchu ac yna trwy greu trefn y gallan nhw weithio drwyddi i wella eu gwaith.

Mae drafft cyntaf gwaith ysgrifennu yn aml yn cael ei gwblhau'n ddiofal, er bod llawer o ddysgwyr yn gallu cywiro eu hunain pan fydd athro/athrawes neu ddysgwr arall yn tynnu eu sylw at unrhyw wallau. Mae angen iddyn nhw gyrraedd sefyllfa lle y gallan nhw edrych ar eu gwaith eu hunain 'â llygaid newydd' – wrth fynd yn eu blaenau yn ddelfrydol – a nodi gwallau ar unwaith yn hytrach na 'darllen' yr hyn y maen nhw'n meddwl sydd wedi'i ysgrifennu yn lle'r hyn sydd yno mewn gwirionedd.

Wrth gynorthwyo dysgwyr i gyrraedd y sefyllfa hon, dangoswyd bod yr awgrymiadau canlynol yn gweithio'n dda. Maen nhw'n cyd-fynd yn dda â'r egwyddorion o asesu ar gyfer dysgu (gweler Uned 10) a chyda'r prosesau a ddisgrifir mewn Datblygu meddwl yn y *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008). Maen nhw'n tybio bod y dysgwr yn ymwybodol o'r meini prawf llwyddiant ar gyfer y gwaith sydd dan sylw y dylid bod wedi'u sefydlu ar y cychwyn, fel gweithgaredd ar gyfer y dosbarth cyfan.

Y cam cyntaf: Ar gyfer yr awdur – hunanasesu

Ar ôl i chi orffen ysgrifennu:

- i) Darllenwch y gwaith yn uchel i chi eich hunan.
- ii) Gofynnwch i chi eich hunan:
 - Ydw i'n hapus gyda fy ngwaith ysgrifennu? Ydy e'n bodloni'r meini prawf llwyddiant o ran cynulleidfa, diben a ffurf?
 - Oes unrhyw beth yr hoffwn ei ychwanegu neu ei newid?
 - Oes unrhyw eiriau wedi'u gadael allan?
 - Oes unrhyw fanylion y gallwn eu hychwanegu?
 - Oes unrhyw sillafu nad wyf yn siŵr amdano?
 - Ydy'r atalnodi'n iawn?

Taflen 4.4 (parhad i)

Yr ail gam: Asesu cyfoedion/gwaith partner ymateb

- iii) Nawr darllenwch eich gwaith ysgrifennu i ffrind/partner ymateb a gwrandewch ar ei syniadau ac ymateb iddyn nhw.

Mewn rhai achosion, os na fydd sgiliau hunanasesu dysgwr wedi'u datblygu'n dda, mae'n bosibl y bydd yn rhaid canolbwyntio ar yr ail gam yn unig. Gall gweithgaredd o'r fath – gwrandeo ar sylwadau partner – gynorthwyo dysgwr i wella'i sgiliau hunanasesu (gweler Uned 10 hefyd). Mae hunanasesu ystyrlon yn aml yn datblygu'n uniongyrchol yn sgîl asesiad gan gyfoedion.

Y trydydd cam: Drafft terfynol

- iv) Ailddrafftio eich gwaith, gan gynnwys y newidiadau rydych wedi'u trafod ac yr ydych yn credu y byddan nhw'n gwella'ch gwaith.

Sut i fod yn bartner ymateb da

- i) Gwrandewch yn ofalus wrth i'ch partner ddarllen ei waith.
- ii) Dywedwch wrth eich partner yr hyn rydych yn ei hoffi am y gwaith – nodwch o leiaf un peth, mwy os yw'n bosibl.
- iii) Ystyriwch sut y gallen nhw wella'r gwaith. Gofynnwch i chi eich hunan:
- Oes unrhyw beth ar goll?
 - Oes unrhyw beth sy'n aneglur neu'n anghywir?
 - Ydy'r dechreuad a'r diwedd glo'n briodol? Os nad ydyn nhw, gallech chi awgrymu rhywbeth gwell?
 - A ellid gadael unrhyw beth allan?
 - Ydy'r gwaith ysgrifennu'n briodol ar gyfer y gynulleidfa darged – ydy e wedi defnyddio'r testun a'r iaith briodol? Fyddan nhw'n ei ddeall? Fyddan nhw'n credu ei fod yn ddiddorol ac yn ei fwynhau? Ydy'r gwaith tua'r hyd cywir?
 - Allwch chi awgrymu unrhyw eiriau neu ymadroddion defnyddiol?
 - Allwch chi helpu gydag unrhyw broblemau sillafu ac atalnodi?
- iv) Nawr, trafodwch eich syniadau gyda'ch partner. Ysgrifennwch nhw ar ddarn o bapur os oes angen.

Bydd y dysgwyr yn gweithio mewn parau, o allu cyffelyb fwy na thebyg, er nad oes angen i hyn fod yn wir bob amser oherwydd gall gweithiwr galluog sy'n gweithio gyda dysgwr llai galluog fod o fudd i'r ddau. Byddan nhw'n diwygio'u gwaith – yn eu tro – gan ddefnyddio trefn sy'n debyg i'r uchod i roi strwythur i'w trafodaeth.

Taflen 4.4 (parhad ii)

2. Cadair yr awdur

Estyniad o waith partner ymateb yw hyn, ond mae'n defnyddio'r dosbarth cyfan i ymateb i waith ysgrifennu dysgwr. Wrth ddechrau defnyddio'r strategaeth hon gyda dosbarth, dewiswch yn gyntaf y dysgwyr hynny sy'n ddigon hyderus i ddarllen eu gwaith yn uchel ac i drafod ffyrdd o'i wella'n gyhoeddus.

Gofynnwch i'r dysgwr ddod i eistedd mewn cadair arbennig – cadair yr athro/athrawes fwy na thebyg, ond wedi'i labelu a'i haddurno'n briodol. Rydych yn atgyfnerthu'r syniad bod dysgwyr yn awduron go iawn a bod angen cynulleidfa ar y gwaith ysgrifennu os ydyw am olygu unrhyw beth. Ar ôl iddyn nhw wrando'n ofalus ar y darn:

- gofynnwch i'r dosbarth nodi'r hyn roedden nhw'n ei hoffi am y gwaith ysgrifennu, gan gadw'r awyrgylch mor gadarnhaol â phosibl
- gofynnwch os oedd unrhyw fanylion pellach bydden nhw wedi hoffi cael gwybod amdany'n nhw
- anogwch yr awdur i ehangu ar y manylion hyn ar lafar, gan wneud nodyn cyflym ar eu gwaith ysgrifennu yn ddelfrydol, er mwyn dangos lle y gellid ychwanegu manylion o'r fath, efallai gyda seren i atgoffa eu hunain nad oedd rhan benodol yn gwbl eglur neu heb ei disgrifio'n ddigon llawn
- rhowch ganmoliaeth i'r awdur ond ceisiwch ei annog i werthfawrogi sylwadau'r dosbarth hefyd.

Adborth gan yr athro/athrawes

Gall dull marcio athrawon hefyd gynorthwyo dysgwyr i wella eu gwaith os yw'n nodi meysydd lle y gellid gwneud gwelliannau posibl, ond heb roi'r atebion. Mae angen i'r dysgwyr wneud y gwaith, nid yr athro/athrawes, ond bydd llawer o ddysgwyr yn croesawu rhai awgrymiadau ynglŷn â ble i ddechrau, yn enwedig os na ellir gwneud gwaith partner ymateb am ryw reswm.

Gallai athrawon ddefnyddio unrhyw rai o'r strategaethau canlynol:

- Mynnu bod dysgwyr yn gadael llinell wag rhwng llinellau ysgrifennu fel bod lle i wneud diwygiadau.
- Mynnu bod dysgwyr yn ysgrifennu eu drafft cyntaf ar dudalen chwith y llyfr ysgrifennu fel y gellir ysgrifennu fersiwn ddiwygiedig ar yr ochr dde – un ai rhannau o'r darn neu'r darn cyfan.
- Annog defnyddwyr i ddefnyddio TGCh sy'n golygu y gellir diwygio rhannau o waith ysgrifennu a'u symud o gwmpas yn hawdd a gwirio sillafu a gramadeg, gan osgoi gorfod ailysgrifennu â llaw a chreu annibendod trwy groesi geiriau allan, ychwanegu geiriau, ac ati.
- Rhoi sylw calonogol ar ddiwedd y gwaith sy'n nodi cryfderau ac agweddau i'w gwella, e.e. nodi tri cryfder ac un gwelliant.
- Defnyddio cod marcio – S ar gyfer gwall sillafu, A i nodi bod angen atalnod, ac ati – ond gadael y cywiriad ei hun i'r dysgwr. Byddai o gymorth mawr petai'r un cod yn gyffredin rhwng yr holl athrawon mewn ysgol, neu glwstwr o ysgolion, er mwyn i ddysgwyr ddod yn gyfarwydd ag ymatebion cyson, ar draws pynciau a dros amser.
- Rhoi seren yn yr ymyl wrth ochr y rhan sydd i'w wella – i annog y dysgwr i ystyried sut y gellid gwella'r rhan hon.
- Ychwanegu anogwyr gwella ym mhrif ran y testun. Gallai'r rhain gynnwys:
 - cwestiynau i wneud i ddysgwyr gyfiawnhau neu esbonio eu syniadau (e.e. 'Pam...?')
 - sylwadau sy'n annog dysgwyr i ymhelaethu ac ymestyn eu syniadau (e.e. 'Hoffwn wybod mwy am...')
 - ychwanegu gair neu frawddeg (e.e. 'Beth arall allech chi ei ychwanegu fan hyn i...')
 - newid y testun (e.e. i ddefnyddio gair gwell; i wella strwythur brawddeg; i gywiro gwallau sillafu/atalnodi/gramadeg).

Cynulleidfa a diben

Bydd dysgwyr yn ymateb yn fwy brwdfrydig os byddan nhw'n teimlo bod gan eu gwaith ysgrifennu ddiben a chynulleidfa go iawn. Os byddan nhw'n ysgrifennu ar gyfer yr athro/athrawes yn unig bob amser, prin yw'r ysgogiad iddyn nhw wneud eu gorau gan nad oes unrhyw beth yn digwydd o ganlyniad i'w gwaith ysgrifennu ac felly nid ydyn nhw'n teimlo bod angen gwneud ymdrech arbennig. Manteision ysgrifennu at ddiben go iawn yw:

- mae'n arbed amser o ran gosod cyd-destun
- mae'n darparu diben gwirioneddol a darllenwyr go iawn; mae dysgwyr yn gwybod bod rhaid i'w gwaith ysgrifennu fod yn effeithiol
- mae cyfleoedd i dderbyn adborth ac adolygiadau go iawn
- mae'r dysgwyr yn gweld eu gwaith ysgrifennu'n cael ei ddefnyddio ac yn gwerthfawrogi pwysigrwydd ei grefftio'n dda.

Gellir cynllunio gwaith ysgrifennu anllenyddol, er enghraifft, i:

- fynegi barn trwy llythyr mewn papur newydd yr ysgol, neu bapur newydd lleol neu genedlaethol
- darparu rhestr o feini prawf ar gyfer gwneud tegan mewn dosbarth dylunio a thechnoleg
- cyflwyno erthygl neu adroddiad ar gystadleuaeth chwaraeon ar gyfer cylchgrawn/papur newydd yr ysgol
- cyflwyno adroddiad ar gyfer pennaeth/llywodraethwyr yr ysgol
- darparu rhestr o lyfrau am grefyddau'r byd yn llyfrgell yr ysgol
- trefnu a llunio adroddiad ar arolwg o safbwyntiau dysgwyr am fater yn yr ysgol neu fater lleol
- cynllunio a chynhyrchu rhaglen/tocynnau/deunydd cyhoeddusrwydd ar gyfer cyngerdd sy'n cynnwys y côr a cherddorfa'r ysgol
- ysgrifennu llythyr at ddysgwr mewn ysgol arall sydd â chyswllt â'r ysgol, e.e. Blwyddyn 7 i Flwyddyn 6 neu fel arall – am y broses drosglwyddo neu fel rhan o gysylltiadau ysgol gyfan â phrosiectau Dinasyddiaeth Fyd-eang (gweler gwefan APADGOS, www.cymru.gov.uk, am ragor o wybodaeth)
- ysgrifennu llythyr o ddiolch at rywun sydd wedi darparu gwasanaeth i'r ysgol, e.e. cyflwyno gwybodaeth fel rhan o raglen addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh)
- ysgrifennu llythyr i gwyno neu wneud ymholiad, e.e. am amser agor oriel gelf leol
- bod yn rhan o arddangosfa ddosbarth sy'n dathlu gwaith ysgrifennu da ym mhob un o bynciau'r cwricwlwm, e.e. hanes brwydr hanesyddol enwog yn y papur newydd neu trafod pwnc o ddau safbwynt gwahanol mewn gwyddoniaeth neu ddaearyddiaeth, ac ati.

Taflen 4.6 (parhad)

Gellir cynllunio ysgrifennu creadigol, er enghraifft, fel rhan o:

- lyfr straeon y dosbarth sy'n cynnwys drafftiau terfynol o straeon y dysgwyr
- arddangosfa yn y dosbarth sy'n dathlu gwaith da
- prosiect pontio lle y mae dysgwyr uwchradd yn ysgrifennu ar gyfer dysgwyr iau yn eu hysgolion cynradd clwstwr
- cylchgrawn neu bapur newydd yr ysgol
- detholiad o waith y dosbarth/ysgol, ar bapur neu CD-ROM, i'w gyhoeddi ar gyfer rhieni
- gwefan yr ysgol
- gohebiaeth e-bost gydag ysgol/dysgwr arall
- cymryd rhan mewn cystadleuaeth leol neu genedlaethol.

Mae'n hanfodol, fodd bynnag, y cyflawnir y tasgau hyn mewn gwirionedd – bod y llythyrau'n cael eu postio neu eu trosglwyddo, bod y gwaith yn cael ei gynnwys mewn cystadlaethau, bod y safbwyntiau'n cyrraedd y gynulleidfa darged.

Gweler hefyd Uned 9 sy'n ymdrin â'r agweddau ymarferol ar gyhoeddi.





Uned 5: Ysgrifennu mewn gwahanol
ffurfiau ar gyfer gwahanol
gynulleidfaoedd a dibenion

Uned 5

Ysgrifennu mewn gwahanol ffurfiau ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd a dibenion

- Nod:** Archwilio nodweddion gwahanol fathau o destun a thrafod ffyrdd o'u haddysgu.
- Amser:** 1½ i 2 awr
- Paratoi:** Darllen drwy Uned 5 i gyd.
- Adnoddau:** Copïau o Daflenni 5.1 i 5.7 ar gyfer pob aelod o'r grŵp.

Crynodeb o'r tasgau

Tasg 1: Mathau o destun

Tasg 2: Cynorthwyo dysgwyr i ddewis

Tasg 3: Defnyddio'r un ffurf o ysgrifennu ar gyfer gwahanol ddibenion

Tasg 4: Defnyddio gwahanol fathau o destunau mewn pynciau ar draws y cwricwlwm

Mathau o destunau anllenyddol

Cytunir yn gyffredinol bod chwe phrif fath o destun anllenyddol ac, os yw dysgwyr am lwyddo i'w hailgynhyrchu, bod angen iddyn nhw archwilio nodweddion gramadegol pob un ohonyn nhw. Fodd bynnag, mae hwn yn fater tebyg i hwnnw sy'n ymwneud â defnyddio fframiau ysgrifennu. Er bod archwilio a defnyddio mathau unigol o destun yn gam cyntaf angenrheidiol tuag at ddysgu ysgrifennu anllenyddol mae angen i ni gydnabod y bydd yr ysgrifennydd effeithiol iawn yn symud y tu hwnt i'r cam hwn ac yn arbrofi gyda chyfuniad o fathau o destun ac arddull i fodloni dibenion penodol. Ar gyfer y rhan fwyaf o ddysgwyr, mae angen trafod ac ymarfer mathau penodol o destun yn ystod Cyfnod Allweddol 2, a dylid annog dysgwyr hŷn i blygu'r 'rheolau' pan fo hyn yn briodol.

Tasg 1

Mathau o destun

Dosbarthwch Daflen 5.1(a-dd) lle y crynhoir y chwe math o destun.

Edrychwch ar bob un yn ei dro, gan drafod y nodweddion gramadegol sy'n gysylltiedig â nhw ac ystyried ble a phryd y gallai dysgwyr ddarllen ac ysgrifennu'r testunau hyn. Sut gall athrawon ddarparu modelau digonol ar gyfer gwaith ysgrifennu o'r fath? Mae Taflen 5.2 yn darparu rhai awgrymiadau.

Gofynnwch i chwech o athrawon – gwirfoddolwyr yn ddelfrydol – i gynnal sesiwn ysgrifennu ar y cyd gyflym ar gyfer pob math o destun. Dylai gweddill yr athrawon chwarae rôl y dosbarth, ac yn ddelfrydol dylen nhw gynnig awgrymiadau nad ydyn nhw bob amser yn briodol. Cymerwch tua 45 munud.

Tasg 2

Cynorthwyo dysgwyr i ddewis

Mae unedau blaenorol wedi pwysleisio'r angen i ddysgwyr gwestiynu eu hunain am y gwaith ysgrifennu y maen nhw ar fin ei wneud er mwyn diffinio ei gynulleidfa, ei ddiben a'i ffurf. Mae'r hunan-gwestiynu hyn yr un mor angenrheidiol pan fydd y dysgwr yn penderfynu pa fath o destun i'w ddewis. Y cwestiwn cyntaf fydd, 'Beth ydw i'n ceisio ei wneud yn y darn ysgrifenedig hwn?' Gall helpu dysgwyr i nodi cwestiynau allweddol am ddiben darn ysgrifennu eu cynorthwyo i wahaniaethu rhwng gwahanol fathau o ysgrifennu, penderfynu pa un sy'n briodol ar gyfer y dasg sydd dan sylw a nodi'r nodweddion y dylen nhw eu defnyddio.

Fel grŵp, gan ddefnyddio siart troi, bwrdd neu sgrin gyfrifiadurol fawr, rhestrwch y cwestiynau y gallai dysgwyr eu gofyn i'w cynorthwyo i wneud penderfyniad. Cymharwch eich rhestr â Thaflen 5.3 a thrafod. Byddai llunio rhestr fel hon gyda dosbarth yn brofiad defnyddiol, a gellid ei defnyddio wedyn fel rhan o arddangosfa ddosbarth er mwyn i'r dysgwyr gyfeirio ati i'w hatgoffa.

Cymerwch tua 15 munud.

Tasg 3

Defnyddio'r un ffurf o ysgrifennu ar gyfer gwahanol ddibenion

Mae angen i ddysgwyr fod yn gyfarwydd ag amrywiaeth o ffurfiau ysgrifennu a'u defnyddio mor aml â phosibl. Mae rhestr o'r ffurfiau hyn ar gael ar Daflen 5.4. Trafodwch yn gyflym gyda'r grŵp ffyrdd/cyd-destunau ar gyfer ymarfer y ffurfiau hyn o ysgrifennu.

Nodwch, fodd bynnag, y gellir defnyddio llawer o ffurfiau at wahanol ddibenion. Dosbarthwch gopïau o Daflen 5.5 i aelodau'r grŵp. Gofynnwch iddyn nhw benderfynu ar ddiben pob poster.

Cymerwch tua 20 munud.

Tasg 4

Defnyddio gwahanol fathau o destunau mewn pynciau ar draws y cwricwlwm

Fel grŵp, trafodwch pa bynciau yn y cwricwlwm a allai ddarparu cyd-destun priodol ar gyfer pob math o destun, gan alluogi'r dysgwyr i atgyfnerthu eu gwybodaeth am fathau o destunau.

Mae Taflen 5.6 yn darparu rhai awgrymiadau.

Cymerwch tua 20 munud.

Mae Taflen 5.7 yn darparu taflen gynllunio bosibl i'w defnyddio yn yr ysgol gyfan. Gofynnwch i'r athrawon fynd â chopi ohoni gyda nhw ac i ystyried a fyddai taflen o'r fath o gymorth fel rhan o ddull ysgol gyfan.

Taflen 5.1a

Y chwe phrif destun anllenyddol – Adrodd yn ôl

Pwrpas: ail-ddweud ynghylch digwyddiadau.

Nodweddion ieithyddol:

- wedi'i ysgrifennu yn yr amser gorffennol
- wedi'i ysgrifennu mewn trefn gronolegol
- defnyddio cysyllteiriau yn ymwneud ag amser, e.e. 'yna', 'wedyn', 'ar ôl hynny', 'yn ddiweddarach'
- canolbwyntio ar unigolion neu grŵp, e.e. 'fi', 'ni', 'y dynion', 'y trigolion'.

Strwythur cyffredinol:

- cyfeirio'r gynulleidfa – disgrifio'r olygfa, agor, e.e. 'Roedd hi'n noson braf yn Llandrindod'
- digwyddiadau – ail-ddweud ynghylch yr hyn a ddigwyddodd
- ailgyfeirio'r gynulleidfa – datganiad i gloi.

Cyd-destunau posibl:

- stori
- ail-ddweud digwyddiad/digwyddiadau, e.e. mewn cyfnod hanesyddol, mewn cyfnod o newid daearyddol.

Dulliau o baratoi/cynllunio:

- yr athro/athrawes yn modelu ysgrifennu adroddiad/testun traethiadol drwy gynnal gweithgaredd ysgrifennu ar y cyd
- dysgwyr yn darllen yn eang, gan ddarllen adroddiadau llenyddol ac anllenyddol, e.e. cofiannau, hunangofiannau, straeon
- dysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau llafar i egluro trefn digwyddiadau, e.e. rhoi cymeriad yn y gadair goch, boed yn gymeriad go iawn neu'n gymeriad ffuglennol; paratoi bwletin newyddion ar gyfer y teledu neu'r radio
- dysgwyr yn nodi dilyniant digwyddiadau mewn testun traethiadol/digwyddiad, ar ffurf nodiadau
- dysgwyr yn rhoi digwyddiadau mewn trefn gronolegol gan ddefnyddio llinell amser neu ddyfais graffig tebyg.

Meini prawf llwyddiant:

- Ydy pob un o fanylion perthnasol y digwyddiad wedi'u cynnwys?
- Ydy'r digwyddiadau yn y drefn gywir o ran dilyniant?
- Oes strwythur rhesymegol â dechrau a diwedd priodol yn yr adroddiad?
- Ydy'r hyn a ysgrifennwyd yn ennyn diddordeb y darllenydd?

Noder: Gall awdur hyderus drin cronoleg testun traethiadol yn ddeheuig, drwy ddefnyddio technegau cofio'n ôl, ac ati. Yn aml mae'r gallu i wneud hynny'n nodwedd sy'n perthyn i sgiliau ysgrifennu ar lefel uchel.

Y chwe phrif destun anllenyddol – Cyfarwyddiadau

Pwrpas: disgrifio sut mae rhywbeth yn cael ei wneud trwy restru cyfres o gamau.

Nodweddion ieithyddol:

- wedi'i ysgrifennu yn amser presennol neu orchmynnol y ferf, e.e. 'Hidlwch y blawd' neu 'I ddechrau rydych yn hidlo'r blawd'
- wedi'i ysgrifennu yn nhrefn amser
- defnyddio cysyllteiriau yn ymwneud ag amser, e.e. 'i ddechrau', 'nesaf', 'yn olaf'
- defnyddio ansoddeiriau ac adferfau er mwyn egluro (nid er mwyn disgrifio)
- canolbwyntio ar bobl yn gyffredinol yn hytrach nag unigolion a enwir, e.e. 'chi'
- cynnwys:
 - datganiad o'r hyn y dylid ei gyflawni
 - rhestr o eitemau/cynhwysion angenrheidiol
 - camau mewn trefn, yn dangos y broses
 - diagram neu lun dewisol.

Cyd-destunau posibl:

- gwneud gwrthrych mewn dosbarth dylunio a thechnoleg
- sut i ddefnyddio cyfrifiadur mewn dosbarth TGCh
- sut i gynnal ymchwiliad gwyddonol
- sut i gwblhau gweithgaredd celf a dylunio
- sut i chwarae pêl-droed neu chwaraeon eraill
- disgrifio gweithdrefnau mewn mathemateg
- disgrifio gweithdrefnau cyffredinol yr ysgol.

Dulliau o baratoi/cynllunio:

- yr athro/athrawes yn ysgrifennu cyfres o gyfarwyddiadau fel gweithgaredd ysgrifennu ar y cyd
- dysgwyr yn cael profiad uniongyrchol o'r broses dan sylw
- dysgwyr yn paratoi nodiadau mewn siart llif neu linell amser, gan ddangos y camau angenrheidiol
- dysgwyr yn penderfynu sut i osod y cyfarwyddiadau.

Meini prawf llwyddiant:

- Ydy'r camau i gyd wedi'u nodi'n eglur?
- Ydy'r eitemau/cynhwysion angenrheidiol i gyd wedi'u restru?
- A gafodd unrhyw ran o'r gyfres o gamau eu hepgor?
- Oes yna ddigon o wybodaeth fanwl?
- Ydy'r iaith yn briodol i'r gynulleidfa?
- A all rhywun arall gwblhau'r dasg yn llwyddiannus?

Y chwe phrif destun anllenyddol – Adroddiadau nad ydyn nhw yn nhrefn amser

Pwrpas: disgrifio nodweddion; disgrifio sefyllfa; cyflwyno gwybodaeth.

Nodweddion ieithyddol:

- wedi'i ysgrifennu yn amser presennol y ferf
- ddim yn nhrefn amser – wedi'i drefnu yn ôl themâu
- canolbwyntio ar gyfranogwyr cyffredinol
- defnyddio arddull amhersonol
- defnyddio dyfeisiau trefnu fel paragraffau, rhestrau wedi'u rhifo, is-benawdau
- gellid defnyddio diagramau neu luniau.

Cyd-destunau posibl:

- adran ar gyfer cyfeirlyfr i'r dosbarth yn amlinellu nodweddion, patrymau bywyd cyffredinol a chynefinoedd planhigion neu anifeiliaid
- agweddau ar fywyd bob dydd mewn cyfnod hanesyddol
- disgrifiad o leoliadau a nodweddion daearyddol
- cymharu 'nawr' a 'phryd hynny', e.e. dulliau trafndiaeth, ein hysgol dros y blynyddoedd
- taflenni gwybodaeth yn gysylltiedig â gwaith mewn unrhyw faes yn y cwricwlwm
- poster i ynglŷn â digwyddiadau yn y dyfodol, e.e. perfformiad yn yr ysgol.

Dulliau o baratoi/cynllunio:

- yr athro/athrawes yn dangos sut i ymchwilio i ffeithiau, eu dethol a'u rhoi mewn trefn resymegol
- dysgwyr yn edrych ar gyfeirlyfrau neu enghreifftiau o'r math o ysgrifennu y maen nhw ar fin rhoi cynnig arno
- dysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau llafar er mwyn meithrin eu dealltwriaeth
- dysgwyr yn cynnig gwybodaeth a syniadau, a threfnu ffeithiau yn glystyrau gan ddefnyddio diagram gwe, grid cymharu, diagram Venn, map wedi'i labelu, llun neu fap meddwl
- dysgwyr yn penderfynu beth yw'r dull mwyaf rhesymegol o gyflwyno'r ffeithiau.

Meini prawf llwyddiant:

- Ydy'r ysgrifennu yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol?
- Ydy'r wybodaeth yn eglur a chywir?
- A oes trefn resymegol i'r ysgrifennu?
- Ydy naws yr ysgrifennu'n briodol ar gyfer cynulleidfa gyffredinol anhysbys?
- A oes cofnod o'r ffynonellau a ddefnyddiwyd i gasglu'r wybodaeth, e.e. llyfryddiaeth pan fo'n briodol?

Y chwe phrif destun anllenyddol – Esboniadau

Pwrpas: esbonio proses neu sut mae rhywbeth yn gweithio; egluro achos ac effaith.

Nodweddion ieithyddol:

- wedi'i ysgrifennu yn amser presennol y ferf, e.e. 'mae ar y car angen...'
- defnyddio cysyllteiriau sy'n ymwneud ag amser, e.e. 'yna', 'nesaf' a/neu gysyllteiriau'n ymwneud ag achos, e.e. 'oherwydd', 'felly'
- defnyddio termau technegol pan fo'n briodol
- wedi'i drefnu fel datganiad cyffredinol ac yna cyfres o gamau rhesymegol nes bod yr esboniad yn gyflawn
- byddai'n elwa o gynnwys diagramau a siartiau llif yn yr ysgrifennu.

Cyd-destunau posibl:

Esboniad i ateb cwestiynau fel:

- Sut mae deunydd insiwleiddio'n gweithio?
- Beth sy'n achosi'r tymhorau?
- Sut mae'r cylch dŵr yn gweithio?
- Sut adeiladodd y Rhufeiniaid eu ffyrdd?
- Sut mae tortsh batri yn gweithio?
- Beth achosodd y Rhyfel Byd Cyntaf?
- Pam fod arfordiroedd yn erydu?
- Beth sy'n digwydd pan fo llosgfynydd yn ffrwydro?
- Pam fod angen rheolau yn yr ysgol?

Dulliau o baratoi/cynllunio:

- yr athro/athrawes yn ysgrifennu enghraifft o esboniad fel gweithgaredd ysgrifennu ar y cyd
- dysgwyr yn ymchwilio i ffeithiau a gwneud nodiadau, creu diagramau a/neu siartiau llif i ddangos y broses, e.e. siart llif i gofnodi twf planhigion mewn dosbarth gwyddoniaeth
- dysgwyr yn ymarfer rhoi esboniad ar lafar i gynulleidfa, e.e. grŵp neu ddosbarth
- dysgwyr yn defnyddio ymarferion drama i atgyfnerthu'r hyn y maen nhw wedi'i ddysgu, e.e. llunio fersiwn ffisegol o gylched trydan.

Meini prawf llwyddiant:

- Ydy'r esboniad yn eglur?
- A gafodd unrhyw gam ei hepgor?
- A ddefnyddiwyd yr iaith dechnegol angenrheidiol yn effeithiol?
- A oes trefn resymegol i'r esboniad?
- A oes diagramau i gefnogi'r esboniad?

Y chwe phrif destun anllenyddol – Perswâd

Pwrpas: perswadio'r darllenydd i gytuno; dadlau'r achos dros safbwynt penodol.

Nodweddion ieithyddol:

- wedi'i ysgrifennu yn amser presennol y ferf
- gallai ddefnyddio iaith emosiynol, dyfeisiau rhethregol neu hanesion, neu gyfarch y darllenydd yn uniongyrchol ('Oeddech chi'n gwybod...?') i atgyfnerthu'r elfen o berswâd
- cysyllteiriau'n ymwneud â rhesymeg yn hytrach nag amser, ar y cyfan, e.e. 'oherwydd', 'felly', 'mae hyn yn dangos'
- dechrau fel arfer â datganiad yn nodi'r prif syniad, yna cyfres o bwyntiau i gefnogi'r ddadl gyda chrynodeb ar y diwedd ac ailadrodd y datganiad cychwynnol
- gallai ddefnyddio is-benawdau, gwahanol fathau o ffont a nodweddion diwyg eraill i greu effaith.

Cyd-destunau posibl:

- ymgyrch gyhoeddusrwydd ar gyfer perfformiad yn yr ysgol
- llyfryn am amgueddfa leol neu lecyn o ddiddordeb
- araith yn mynegi un ochr o ddadl/trafodaeth
- taflen hybu iechyd
- ymgyrch diogelwch ar y ffyrdd neu i gefnogi elusen
- erthygl yn amlinellu safbwynt, e.e. ynglŷn â phwnc llosg lleol
- llythyr at bapur newydd yn mynegi barn ar bwnc yn y newyddion.

Dulliau o baratoi/cynllunio:

- yr athro/athrawes yn ysgrifennu enghreifftiau o destunau sy'n perswadio, er mwyn tynnu sylw at strwythurau posibl
- chwarae rôl/ail-greu digwyddiadau lle mae pobl yn trafod materion, e.e. cyfarfod cyhoeddus, dadl yn y cyngor, llys barn
- ymchwilio i'r pwnc dan sylw, gyda'r dysgwyr yn gwneud a threfnu nodiadau yn dangos y prif bwyntiau, gyda phwyntiau ategol o dystiolaeth/eglurhad ar gyfer pob un – gellid gwneud hyn gyda grid, diagram gwe neu fap meddwl
- penderfynu pa fath o ysgrifennu fyddai'n gweddu orau i'r gynulleidfa a'r diben.

Meini prawf llwyddiant:

- Ydy'r ysgrifennu yn denu sylw'r darllenydd?
- Ydy'r ffeithiau'n dod at ei gilydd i greu dadl gref?
- Ydy safbwynt y sawl sy'n ysgrifennu yn gwbl eglur ac yn dwyn perswâd?
- A oes digon o dystiolaeth i gefnogi'r ddadl?
- Ydy e'n debygol o berswadio'r darllenydd i gytuno/gweithredu?

Y chwe phrif destun anllenyddol – Trafodaeth

Pwrpas: cyflwyno dadleuon a gwybodaeth o wahanol safbwyntiau.

Nodweddion ieithyddol:

- wedi'i ysgrifennu yn amser presennol y ferf
- defnyddio cysyllteiriau rhesymegol, e.e. 'felly', 'fodd bynnag', 'ar y llaw arall', 'er hynny', 'fel arall'
- cynnwys:
 - datganiad ar y pwnc dan sylw, yn aml gyda rhagflas o'r prif ddadleuon
 - dadleuon o blaid, a thystiolaeth i'w cefnogi
 - dadleuon yn erbyn, a thystiolaeth i'w cefnogi neu
 - dadl/dadl groes, un pwynt ar y tro
 - crynodeb a chasgliad, personol o bosibl, ar ôl pwyso a mesur y dadleuon a phenderfynu ar un ochr
- dylid defnyddio iaith wrthrychol, amhersonol, heblaw yn y casgliad o bosibl pryd y gellid mynegi barn bersonol fel sylw i gloi.

Cyd-destunau posibl:

Mae materion yn codi ym mhob un o bynciau'r cwricwlwm lle mae angen i ddysgwyr fod yn ymwybodol bod mwy nag un safbwynt dyls. Mae angen iddyn nhw ddysgu osgoi gwneud penderfyniad cyflym heb ddod o hyd i'r holl wybodaeth, gwerthfawrogi barn pobl eraill a gwneud asesiad cytbwys o'r mater dan sylw. Gallen nhw ysgrifennu am fanteision ac anfanteision y canlynol:

- effeithiau datblygiad trefol mewn dosbarth daearyddiaeth
- ailgylchu mewn dosbarth gwyddoniaeth
- darlun penodol mewn dosbarth celf a dylunio
- ffonau symudol a'u defnydd mewn ysgolion mewn dosbarth ABCh
- bwyd iach mewn dosbarth dylunio a thechnoleg
- gwisg ysgol mewn dosbarth ABCh.

Dulliau o baratoi/cynllunio:

- yr athro/athrawes yn dangos enghraifft o'r strwythur(au) ar gyfer ysgrifennu traethawd yn cyflwyno trafodaeth
- dysgwyr yn darllen enghreifftiau o ysgrifennu sy'n cyflwyno trafodaeth
- dysgwyr yn paratoi grid 'o blaid ac yn erbyn' ar gyfer pob prif bwynt, gan fynegi dadleuon yn gryno a gwrthrychol a rhoi tystiolaeth i gefnogi'r pwyntiau
- dysgwyr yn cymryd rhan mewn dadleuon neu efelychiadau er mwyn eu galluogi i fynegi eu dadleuon a gwrandao ar bobl â safbwyntiau gwahanol.

Meini prawf llwyddiant:

- Ydy'r ysgrifennu wedi'i strwythuro'n effeithiol?
- Ydy'r ysgrifennu yn cyflwyno asesiad cytbwys o'r pwnc dan sylw?
- Ydy'r dadleuon yn ddilys ac eglur?
- Ydy'r naws a'r iaith a ddefnyddir yn briodol i'r diben ac i'r gynulleidfa?
- Ydy'r casgliad yn rhesymegol ac wedi'i seilio i raddau helaeth ar dystiolaeth a ffeithiau?

Enghreifftiau o fodelau o'r chwe math o destun

Gellir dod o hyd i fodelau o'r mathau hyn o destunau yn y byd y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol, gyda llawer ohonyn nhw yn rhad ac am ddim os bydd dysgwyr (ac athrawon) yn casglu enghreifftiau'n rheolaidd er mwyn ychwanegu at adnoddau'r dosbarth. Wrth lunio'r rhestrau hyn, mae'n dod yn fwyfwy amlwg bod llawer o destunau'n gymysgedd o'r mathau sylfaenol hyn o destunau. Ble, er enghraifft, fydddech chi'n rhoi:

- Bwydlen bwyty?
- Erthygl bapur newydd sy'n adrodd ar ddigwyddiad?
- Rhaglen cyngerdd/theatr?
- Taflen bwrdd croeso?

Trafodwch y cyfansoddion hyn fel grŵp ac ystyriwch ffyrdd o annog dysgwyr i gymysgu a chyfateb nodweddion testunol yn eu gwaith ysgrifennu eu hunain.

Adrodd yn ôl:

- rhai erthyglau bapur newydd neu gylchgrawn, er bod y rhain wedi'u strwythuro'n wahanol yn aml
- rhai bwletinâu newyddion ar y teledu
- hunangofiannau a bywgraffiadau
- dyddiaduron/cyfnodolion
- straeon.

Cyfarwyddiadau:

- llyfrau ryseitiau
- llawlyfrau
- llyfrynau cyfarwyddyd.

Adroddiadau nad ydyn nhw yn nhrefn amser:

- llyfrau pwnc, e.e. anifeiliaid y byd
- rhai erthyglau cylchgronau
- adolygiadau o lyfrau/ffilmiau/dramâu.

Esboniadau:

- rhai testunau adrodd yn ôl sy'n disgrifio digwyddiad a'i effeithiau dilynol
- rhai taflenni gwybodaeth, e.e. effeithiau diet gwael ar blant
- atebion i gwestiynau, e.e. 'Sut mae peiriannau'n gweithio?', 'Pam mae ystlumod yn hedfan yn y nos?'

Perswâd:

- hysbysebion
- rhai erthyglau mewn cylchgronau neu ar daflenni gwybodaeth, e.e. 'Rhowch y gorau i ysmegu!'
- araith sy'n seiliedig ar un safbwynt.

Trafodaeth:

- dadleuon/trafodaethau grŵp yn y dosbarth
- erthyglau mewn cylchgronau/papurau newydd/rhaglenni teledu/rhaglenni TGCh sy'n cyflwyno'r dadleuon dros ac yn erbyn y pwnc.

Taflen 5.3

Beth ydw i'n ceisio ei wneud yn y darn ysgrifennu hwn?

Crëwyd y 'siart penderfynu' hwn gan ddosbarth a'i athro er mwyn cynorthwyo dysgwyr i benderfynu pa fath o waith ysgrifennu mae angen iddyn nhw ei gynhyrchu. Fe'i crëwyd fel ymarfer ar y cyd ac fe'i harddangosir ar wal yr ystafell ddosbarth fel cymorth parhaol i atgoffa'r dysgwyr – defnydd da o arddangos i ategu'r cwricwlwm. Mae'n fersiwn hawdd ei defnyddio o'r siart sy'n disgrifio'r chwe math o destun.

Ydw i'n adrodd yn ôl ar ddigwyddiad sydd wedi digwydd, i hysbysu neu ddiddanu? Er enghraifft yn hanes, Cymraeg/Saesneg.	laith angenrheidiol: <ul style="list-style-type: none"> amser gorffennol trefn gronolegol cyfeirio at unigolyn, lle neu ddigwyddiad penodol fel rheol gellir defnyddio 'rwyf i', 'rydym ni'.
Ydw i'n ysgrifennu cyfarwyddiadau i rywun arall eu dilyn? Er enghraifft yn addysg gorfforol neu ddylunio a thechnoleg.	laith angenrheidiol: <ul style="list-style-type: none"> amser presennol syml neu orchmynnol trefn gronolegol, e.e. '1, 2...' neu 'gyntaf, wedyn...'.
Ydw i'n ysgrifennu i adrodd ffeithiau am bwnc, i ddisgrifio sut y mae pethau? Er enghraifft mewn gwyddoniaeth neu ddaeyryddiaeth.	laith angenrheidiol: <ul style="list-style-type: none"> amser presennol enwau cyffredin ni ddylid defnyddio 'rwyf i'; dylid cadw'r darn yn amheronol.
Ydw i'n ceisio esbonio proses? Er enghraifft mewn gwyddoniaeth, mathemateg neu ddylunio a thechnoleg.	laith angenrheidiol: <ul style="list-style-type: none"> amser presennol syml geiriau 'amser' – 'nesaf', 'wedyn', 'ar ôl' geiriau achosol – 'oherwydd', 'felly', 'o ganlyniad'.
Ydw i'n ceisio darbwyll rhywun arall i hyrwyddo safbwynt penodol? Er enghraifft yn ABCh neu Gymraeg/Saesneg.	laith angenrheidiol: <ul style="list-style-type: none"> gellir ailadrodd ymadroddion delweddaeth/cyflythreniad amser presennol syml gellir defnyddio dulliau rhethregol.
Ydw i'n mynegi gwahanol safbwyntiau ac yn dod i gasgliadau yn seiliedig ar y dystiolaeth? Er enghraifft yn hanes, daeyryddiaeth neu Gymraeg/Saesneg.	laith angenrheidiol: <ul style="list-style-type: none"> amser presennol syml gellir defnyddio 'rwyf i', 'rydym ni' neu dermau cyffredinol – 'mae pobl yn meddwl...'. geiriau achosol – 'oherwydd', 'felly'.

Taflen 5.4

Mathau o ysgrifennu anllenyddol

Mae angen i ddysgwyr weld a defnyddio cymaint o'r ffurfiau canlynol â phosibl, gan gynnwys cyfleoedd yn y ddwy iaith mewn lleoliadau dwyieithog ac ar draws y cwricwlwm ym mhob lleoliad, yn ôl cyfleoedd pwnc. Bydd angen i ddewisiadau o destun adlewyrchu cynnydd o ran arddull, cynnwys a her yn ystod, dros a rhwng cyfnodau allweddol. Yn ystod y cyfnod pontio, bydd yn ddefnyddiol i athrawon uwchradd wybod rhai manylion am brofiad blaenorol dysgwyr.


naratif/stori	cerdd	chwedl
jôc	pos geiriau	stori tylwyth teg
geiriau cân	erthygl	hunangofiant/bywgraffiad
adroddiad	bwydlen	label
tudalen gynnwys	rhestr termau	mynegai
crynodeb	llyfryddiaeth	disgrifiad
esboniad	rheolau	amserlen
dogfen bolisi	cwyn	cyfnodolyn
dyddiadur	memo	arolwg
holiadur	cyfweliad	cyfres o gyfarwyddiadau
llawlyfr	rhestr	rysâit
adroddiad ar arbrwf	gŵys	anfoneb
pennawd	arwyddair	erthygl olygyddol
cais am swydd	ffurflen archeb	adolygiad
cofnodion cyfarfod	gwahoddiad	ymddiheuriad
cerdyn cyfarch	neges	nodyn
rhaglen	hysbyseb	llythyr
CV	poster	taflen
gwerslyfrau pwnc	e-byst	gweffannau
negeseuon testun	blogiau	cais ar gyfer cystadleuaeth

Taflen 5.5


Yr un ffurf; gwahanol ddiben

Gall gwaith ysgrifennu trafodaethol, neu waith anllenyddol, fod mewn llawer o wahanol ffurfiau megis llythyrau, posteri neu daflenni (gweler Taflen 5.4) ond bydd strwythur a chynllun pob ffurf yn wahanol yn unol â diben y gwaith ysgrifennu. Er enghraifft, gellir defnyddio poster ar gyfer llawer o wahanol ddibenion a bydd ganddo wahanol strwythur i gyd-fynd â hyn.

Ysgrifennir poster am brotest yn aml i gyflwyno dadl ddarbwyllol am y rhesymau pam nad yw'r sefyllfa bresennol yn ddigon da.



Beth yw diben y posteri canlynol?



Taflen 5.6

Cyd-destunau o bynciau ar draws y cwricwlwm

Mae angen i ddysgwyr ymarfer ysgrifennu ym mhob pwnc yn y cwricwlwm gan mai dyma lle y byddan nhw'n dod o hyd i gyd-destunau go iawn i ddatblygu a defnyddio eu sgiliau ysgrifennu. Mae'r rhestr ganlynol yn awgrymu rhai o'r cyfleoedd sydd ar gael.

Cymraeg, Saesneg, ieithoedd tramor modern

Pob math o destunau llenyddol a thestunau anllenyddol

Mathemateg

esboniadau o atebion
rhestr termau

Gwyddoniaeth

adroddiadau
ail-ddweud
cyfarwyddiadau
esboniadau

Hanes

gwerthuso tystiolaeth
esboniadau
bywgraffiadau
trafodaeth
crynodebau
disgrifiadau

Daearyddiaeth

adroddiadau
ail-ddweud
esboniadau
disgrifiadau
mapiau anodedig
diagramau anodedig
trafodaeth am y materion

Celf a dylunio

bywgraffiadau
disgrifiadau
cyfarwyddiadau
adroddiadau
esboniadau

Addysg gorfforol

cyfarwyddiadau
adroddiadau
esboniadau
rheolau

Taflen 5.6 (parhad)

Dylunio a thechnoleg

esboniadau
cyfarwyddiadau
anodiadau
gwerthusiadau

TGCh

diwygio testun
e-byst
gwefannau

Addysg grefyddol

naratif
esboniadau
dadl
ail-ddweud
adroddiadau
disgrifiadau

ABCh

adroddiadau
cyfnodolion/dyddiaduron
ail-ddweud
ysgrifennu gwybodaeth
trafodaeth am y materion
testun yr areithiau

Cerddoriaeth

Mewn cerddoriaeth, mae dysgwyr yn cyfathrebu trwy berfformio a chyfansoddi, ac yn datblygu a chymhwyso sgiliau siarad a gwrando wrth werthuso eu gwaith a gwaith dysgwyr eraill. Tra bod rhai dysgwyr yn cymryd nodiadau i'w helpu wrth wrando ar gerddoriaeth, nid oes unrhyw ofyniad am ysgrifennu ymestynnol. Hanfod cerddoriaeth yw ei fod yn ddieiriau. Felly, yn y mwyafrif o achosion gwaith ymarferol fydd y brif ffynhonnell tystiolaeth o ddealltwriaeth gerddorol.



Taflen 5.7

Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm: grid ar gyfer cynllunio ysgol gyfan

Pwrpas/ math o destun	Cymraeg/ Saesneg	leithoedd tramor modern	Mathemateg	Gwyddoniaeth	Hanes	Daeryddiaeth
gwybodaeth						
cyfarwyddiadau						
perswadio						
disgrifio						
cymharu/trafod						
diddanu						
adrodd am ddigwyddiadau neu 'sut mae pethau'						
mynegi teimladau						
esboniad						
rhagdybio neu ddarogan						
ysgrifennu i ddysgu						
dadansoddi						
dod i gasgliadau y gellir eu profi						
gwerthuso						

Taflen 5.7 (parhad)

Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm: grid ar gyfer cynllunio ysgol gyfan

Pwrpas/ math o destun	Celf a dylunio	Addysg gorfforol	Dylunio a thechnoleg	TGCh	Addysg grefyddol	ABCh
gwybodaeth						
cyfarwyddiadau						
perswadio						
disgrifio						
cymharu/trafod						
diddanu						
adrodd am ddigwyddiadau neu 'sut mae pethau'						
mynegi teimladau						
esboniad						
rhagdybio neu ddarogan						
ysgrifennu i ddysgu						
dadansoddi						
dod i gasgliadau y gellir eu profi						
gwerthuso						

- Gallai cydlynnydd llythrennedd a’r athrawon mewn ysgol ddefnyddio’r ffurflen hon fel dull o:
- gyllunio ar gyfer defnyddio amrywiaeth eang o fathau o ysgrifennu trwy’r ysgol gyfan dros gyfnod penodol, e.e. tymor
 - archwilio pa waith ysgrifennu sydd wedi’i gwblhau trwy’r ysgol o fewn cyfnod penodol.



Uned 6: Edrych ar ramadeg

Uned 6

Edrych ar ramadeg

- Nod:** Ystyried sut i ddysgu elfennau arbennig o ramadeg Gymraeg i ddysgwyr, gan ganolbwyntio ar waith ar lefel testun.
- Amser:** 2 i 2½ awr – gan ddibynnu ar ddewis tasgau i ymateb i anghenion eich sefydliad/grŵp.
- Paratoi:** Gwneud copïau o Daflenni 6.1 i 6.6 ar gyfer aelodau'r grŵp.
- Adnoddau:** Copïau o Daflenni 6.1 i 6.6 ar gyfer pob aelod o'r grŵp.
Sleid uwchdaflunydd o Daflen 6.3 ar gyfer gweithgaredd grŵp.

Crynodeb o'r tasgau

- Tasg 1: Beth yw gramadeg?
- Tasg 2: Rhannau ymadrodd
- Tasg 3: Treigladau
- Tasg 4: Ehangu'r ddewislen
- Tasg 5: Testun cydlynus
- Tasg 6: Gwallau cyffredin yn y Gymraeg

Mae llawer o lyfrau wedi eu hysgrifennu am addysgu gramadeg ac nid yw'n bosibl yn yr uned hon na'r unedau dilynol i ymwneud â phob agwedd. Fe anelir, er hynny, i ganolbwyntio ar rai o'r agweddau dan sylw ac i gynnig rhai syniadau am arferion effeithiol.

Tasg 1

Beth yw gramadeg?

Mewn parau, ystyriwch y datganiadau ar Daflen 6.1.

Beth yw eu goblygiadau i addysgu gramadeg?

Cymerwch rhyw 20 munud.

Rhannwch eich sylwadau (5 munud).

Tasg 2

Rhannau ymadrodd

Fel y noda un o'r datganiadau, mae gramadeg yn golygu mwy nag enwi rhannau ymadrodd. Er hynny, dylai dysgwyr wybod yr enwau hyn er mwyn iddyn nhw a'u hathrawon feddu ar yr eirfa angenrheidiol i siarad am iaith ac i feddwl am y defnydd o wahanol fathau o eiriau.

Bydd y math o addysgu am rannau ymadrodd yn gwahaniaethu yn ôl oedran datblygiad sgiliau a phrofiad blaenorol y dysgwyr. Yn gynnar yng Nghyfnod Allweddol 2, bydd angen i ddysgwyr gaffael gwybodaeth elfennol am enwau – enwau pobl, llefydd a phethau – a berfau – y geiriau gwneud – ac am eu cymhwyso gyda defnydd o ansoddeiriau ac adferfau mewn brawddegau syml. Bydd angen iddyn nhw hefyd feddwl am amserau'r ferf a'r angen am gysondeb yn eu defnydd. Bydd angen atgyfnerthu'r wybodaeth hon fel y bydd dysgwyr yn symud drwy Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3 – a thu hwnt mewn rhai achosion. Bydd dysgwyr mewn unrhyw grŵp blwyddyn ar wahanol gamau datblygu ac mae angen i'r holl athrawon fod yn ymwybodol o'r gwahaniaethau hyn a chynllunio ar eu cyfer.

Gyda'r grŵp, ystyriwch ffyrdd y gall yr addysgu hwn gael ei wneud yn fwy gweithredol a diddorol, gan rannu strategaethau sy'n gyfarwydd i'r athrawon. Mae Taflen 6.2 yn cynnig rhai awgrymiadau, os oes angen.

Cymerwch tua 30 munud.

Tasg 3

Treigladau

Yn ei chyflwyniad yng nghynhadledd Estyn ym mis Medi 2008, nododd Meinir Ebbsworth eu bod wedi cynnal arolwg o wallau ysgrifennu dysgwyr Ceredigion. Daethpwyd i'r casgliad fod 30 y cant o'r gwallau treiglo hynny yn cael eu hachosi gan un arddodiad bach – yr arddodiad 'i'. Roedd 53 y cant o'r gwallau treiglo eraill yn wallau ar ôl yr arddodiad 'o, am, ar, gan'.

Un o ryfeddodau'r iaith Gymraeg yw'r treigladau. Yn y Gymraeg, mae dechrau rhai geiriau yn gallu newid o dan amgylchiadau arbennig. Ar lafar, ceir rhai achosion lle na ddefnyddir y treigladau, ac achosion eraill o ddiffyg treiglo neu gam-dreiglo. Mae hyn yn amhersain i'r glust ac yn creu ansicrwydd wrth ysgrifennu'r Gymraeg hefyd. Felly, mae'n hanfodol bwysig i'r treigladau gael eu defnyddio'n gywir ar lafar ac yn ysgrifenedig, er y cydnabyddir bod rhai yn bwysicach nag eraill erbyn hyn. Mae llawer o reolau, ac ni ellir dysgu pob un. Dylai dysgwyr wybod am y prif rai er mwyn defnyddio'r treigladau'n gywir, ac er mwyn siarad ac ysgrifennu Cymraeg rhwydd a naturiol. Dylid dechrau eu cyflwyno cyn gynted â phosibl i ddysgwyr, boed yn Gymry iaith gyntaf neu ail iaith.

- Gofynnwch i'r grŵp drafod y modd maen nhw'n cyflwyno ac yn ymarfer y treigladau.
- Ystyriwch y cyfarwyddiadau a'r nodiadau isod am y treigladau.
- Pa rai sy'n peri trafferth i ddysgwyr? Pa rai sy'n fwyaf perthnasol i chi?

Mae Taflen 6.3 yn rhoi gwybodaeth bellach am y treigladau.

Dylech gymryd rhyw 25 munud.

Tasg 4

Ehangu'r ddewislen

Fel y daw'r dysgwyr yn fwy profiadol, fe fyddan nhw'n gallu arbrofi gyda'r defnydd o frawddegau cymhleth, gydag amrywiol gystrawennau a threfn geiriau a thrwy ddefnyddio ystod o dechnegau er mwyn creu effaith neu bwysleisio. Bydd yn rhaid iddyn nhw ehangu eu geirfa a dysgu defnyddio ffyrdd gwahanol o drefnu testun fel paragraffau a phenawdau, gan ddod yn fwyfwy abl i gynhyrchu darn o waith ysgrifenedig cydlynus a bywiog sy'n briodol i'r gynulleidfa a'r pwrpas. (Gweler Uned 5 am nodweddion gwahanol destun.)

Darllen ac ysgrifennu ar y cyd ydy'r ddwy ffordd fwyaf effeithiol i addysgu dysgwyr i wneud y fath gynnydd. Maen nhw'n briodol i'w defnyddio ym mhob pwnc yn y cwricwlwm. Drwy gyd-ddarllen testun – lle mae'r athro/athrawes a'r dosbarth yn darllen yr un testun efo'i gilydd, os yn bosibl ar sgrin fawr o flaen y dosbarth – gall yr athro/athrawes fodelu'r ffordd y mae darllenwr effeithiol yn cwestiynu testun ac yn meddwl am yr iaith a ddefnyddir. Gall yr athrawon ddewis yr elfennau gramadegol y canolbwyntir arnyn nhw yn arbennig yn y dosbarth gan annog dysgwyr i ystyried eu heffaith ac i geisio efelychu hyn yn eu darn nesaf o ysgrifennu. Esbonir strategaeth debyg, rhagfynegi grŵp, yn Uned 2 o'r ddogfen *Canllawiau ar addysgu uwch sgiliau darllen: Cyfleoedd HMS i athrawon pob pwnc ar draws y cwricwlwm yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010).

Gan ddefnyddio Taflen 6.4, gwnewch ymarfer darllen ar y cyd gyda'r grŵp gan nodi sut y gellid ei ddefnyddio i atgyfnerthu gwybodaeth am iaith a'r ffordd y mae'n cyfleu ystyr.

Gellir dilyn hyn gyda sesiwn fer o ysgrifennu ar y cyd ar bwnc priodol (gweler Uned 3) gan feddwl yn uchel am rannau ymadrodd a'u defnydd. Dylid gwella'r darn wrth fynd ymlaen drwy ychwanegu manylion angenrheidiol ac egluro'ch penderfyniadau gan ddefnyddio'r termau gramadegol.

Dylech gymryd tua 30 munud.

Tasg 5

Testun cydlynus

Mae angen hyfforddi dysgwyr i ddefnyddio gwahanol fathau o eiriau ac ymadroddion er mwyn datblygu eu syniadau. Un arwydd o ysgrifennu effeithiol ydy'r defnydd hyderus o gysyllteiriau neu ymadroddion cysylltiol. Mae rhain yn cysylltu'r prif gymal gydag is gymalau mewn brawddegau. Y cysyllteiriau mwyaf cyffredin ydy 'a/ac' ('and') ac rydym i gyd yn ymwybodol o'r dysgwr sy'n ysgrifennu rhestr o 'ac wedyn', gan gynhyrchu darn o waith diflas a difwyd.

Gofynnwch i aelodau'r grŵp adeiladu rhestr o gysyllteiriau neu ymadroddion cysylltiol a'u grwpio'n briodol i'w defnydd a'u hystyr. Mae Taflen 6.5 yn cynnig rhestr i'w chymharu wedi i'r grŵp gael tua 10 munud. Meddylwch am ffyrdd i addysgu'r arwydd-eiriau hyn.

Dylech gymryd 25 munud i gyd.

Gweler y rhestr o dermau yn Atodiad 1.

Tasg 6

Gwallau cyffredin yn y Gymraeg

Mae nifer o eiriau yn peri trafferth i rai dysgwyr am resymau gwahanol. Gall hyn amrywio o ardal i ardal ac o ysgol i ysgol.

Mae Taflen 6.6 yn rhestru amryw o'r gwallau a welir yn fynych yng ngwaith dysgwyr.

Paratowch gopi o Daflen 6.6 ar gyfer y grŵp.

Gofynnwch i'r grŵp drafod pa rai o'r elfennau hyn sy'n peri trafferth i'w dysgwyr nhw gan ystyried dulliau o'u cywiro.

Paratowch ddarn o destun gyda nifer o'r gwallau ynddo er mwyn i aelodau'r grŵp eu nodi a'u cywiro. Dylid ystyried y gynulleidfa gan ddewis y gwallau mwyaf perthnasol i'w cywiro, sef y rhai sy'n gysylltiedig â thestun neu â gwallau yng ngwaith y dysgwyr eu hunain.

Dylech gymryd rhyw 25 munud i gyd.

Taflen 6.1

Beth yw gramadeg?

Ystyriwch y datganiadau canlynol:

Gramadeg yw'r hyn sy'n rhoi synnwyr i iaith. Mae'n ymwneud â'r modd y trefnir iaith a sut mae iaith yn gweithio ac mae'n ymwneud yn gyfan gwbl â gwneud synnwyr.

Mae gramadeg yn hanfodol i ysgrifennu dysgwyr, nid ar ei ben ei hun ond fel cyfrwng. Bydd dealltwriaeth gynyddol dysgwyr a'u defnydd o ramadeg yn eu cynorthwyo i ysgrifennu'n fwy effeithiol.

Mae tri phrif nodwedd i ramadeg sydd angen sylw mewn ysgrifennu ym mhob un pwnc y cwricwlwm:

- cydlynedd mewn testun cyfan (a'r ffordd mae'n cael ei gysylltu)
- y cyswllt rhwng syniadau o fewn a rhwng brawddegau, gydag atalnodi sy'n egluro ystyr
- y dewis o eiriau a chymhwyso enwau a berfau i ychwanegu canolbwynt, diddordeb ac amrywiaeth i'r darlennydd.

O'r rhain, yr addysgu mwyaf effeithiol yw'r un sy'n rhoi blaenoriaeth i waith sy'n seiliedig ar destun, h.y. i gyfansoddiad, ac sy'n cynnig amser digonol ar gyfer ysgrifennu estynedig – darn sydd o leiaf yn hirach na pharagraff, er y gallai fod yn llawer hirach. Dylai gwaith ar frawddegau a geiriau fod bob amser yn gysylltiedig â'r egwyddor hon a dylai fod yn berthnasol, cymwys ac ymarferol. Ni ddylai byth fod yn rhywbeth ar wahân neu ar ei ben ei hun.

Nid enwi rhannau ymadrodd yn unig yw pwrpas addysgu gramadeg, na chynnig rheolau mympwyol am iaith 'gywir'. Mae'n fodd i helpu dysgwyr i gyfathrebu gydag eraill drwy gyfleu syniadau ac emosiynau'n glir.

Mae addysgu gramadeg yn fodd i ehangu'r wybodaeth sydd gan ddysgwyr eisoes, gan ddatblygu defnydd mwy hyderus ac amrywiol o iaith.

Taflen 6.1 (parhad)

Mae gramadeg yr iaith lafar ychydig yn wahanol i'r iaith ysgrifenedig. Mae siaradwyr yn aml yn dibynnu ar sgiliau cyfathrebu ehangach fel ystum corfforol ac wyneb, acen ac amseriad i gyfleu ystyr a chreu effaith ar lafar. Nid yw siaradwyr bob amser yn defnyddio brawddegau llawn, a chaniateir i eiriau gael eu talfyrru neu eu symleiddio yn aml hefyd wrth eu defnyddio ar lafar, tra disgwylir iaith mwy safonol a chyflawn mewn gwaith ysgrifenedig. Fel arfer, mae ysgrifennu wedi ei wahanu oddi wrth y darllenydd ac felly rhaid defnyddio strwythurau gramadegol amlwg ynghyd â nodweddion trefniadol i gyfathrebu ystyr yn effeithiol a chlr.

Mae llawer o ddysgwyr yng Nghymru yn ddwyieithog, yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yn gallu symud yn hyderus a llyfn rhwng y ddwy iaith i wahanol ddibenion. Er bod elfennau o ramadeg y ddwy iaith yn wahanol, mae nifer o nodweddion sy'n debyg. Gall yr wybodaeth am y nodweddion hyn, fel trefn y testun ac atalnodi, gael ei dysgu mewn un iaith a'i throsglwyddo i'r iaith arall.

Dylid manteisio ar y Sgiliau Deuol, neu'r arfer o drawsieithu, er mwyn gwneud defnydd o'r ddwy iaith, er enghraifft darllen mewn un iaith ac ysgrifennu neu siarad yn y llall. Nodir yn y ddogfen, *Datblygu llythrennedd deuol: Papur trafod Estyn* (Estyn, 2002): 'Mae'r gallu i siarad, darllen ac ysgrifennu'n hawdd yn y ddwy iaith, ynghyd â'r gallu i symud yn rhugl rhwng ieithoedd, i gyd yn rhan o lythrennedd deuol. Mae'r sgiliau sydd ynghlwm wrth lythrennedd deuol weithiau'n cael eu galw'n sgiliau trawsieithu neu drawslythrennu'.

Gweler hefyd *Agweddau ar Addysgu'r Gymraeg yn CA2 – Llythrennedd Deuol – Elwa ar Ddwyieithrwydd i Godi Safonau yn y Gymraeg* (Rhaglen Genedlaethol Hyfforddiant Mewn-swydd y Gymraeg, CBAC); a *Golwg ar drawsieithu* gan Heini Gruffydd (CAA/CBAC, 2009).

Dulliau gweithredol o addysgu rhannau ymadrodd

Gellir addasu'r gweithgareddau hyn ar gyfer dysgwyr o wahanol alluoedd. Mae'n hanfodol bod athrawon yn adnabod eu dysgwyr yn dda, ac yn cynllunio gwaith fydd yn helpu pob dysgwr i wneud cynnydd, beth bynnag fo'i allu. Mewn dosbarth o allu cymysg, er enghraifft, dylid gwahaniaethu tasgau yn ôl anghenion dysgwyr unigol fel bod y rhai sy'n tangyflawni a'r rhai sy'n fwy abl a thalentog yn cael eu cefnogi a'u herio fel ei gilydd. Mae Atodiad 2 yn cynnwys cyfeiriadau at gyhoeddiadau defnyddiol sy'n cynnwys mwy o fanylion am dulliau o helpu dysgwyr o wahanol alluoedd.

Osgoi geiriau blinedig – gwneud casgliadau

Mae'r rhan fwyaf o athrawon, ar ryw adeg neu'i gilydd, wedi gofyn i ddysgwyr gasglu geiriau mwy diddorol ac sy'n cyfleu mwy na geiriau sydd wedi eu gor-ddefnyddio fel 'dywedodd' a 'neis'. Gall y strategaeth hon gael ei hymestyn yn hawdd, drwy ganolbwyntio ar weithgaredd y dysgwyr o ychwanegu at eu casgliadau dyddiol pan ddarganfyddan nhw air addas yn eu darllen beunyddiol, mewn unrhyw bwnc. Dylid rhoi enwau gramadegol ar eiriau, yn ogystal â chadarnhau eu diben fel rhan o'r gwaith hwn. Gofynnwch i ddysgwyr fod yn dditectifs geiriau (neu derm tebyg) – fydd yn ychwanegu at ddiddordeb gweithgaredd. Daw y casgliadau hyn yn rhan o amgylchedd y dosbarth i'w defnyddio fel bo'r angen.

Gellir gwneud casgliadau ar ffurf thesawrws bychan, er enghraifft geiriau da, gwell a gorau. Tasg y dysgwyr fyddai dosbarthu'r geiriau yn ôl eu diben yn y gwaith, er enghraifft:

Da	Gwell	Gorau
hardd	prydferth	cain

Yn ogystal â chasgliadau dosbarth, dylid annog dysgwyr i wneud casgliadau personol o eiriau sy'n apelio atyn nhw ac y dymunan nhw eu defnyddio a'u sillafu'n gywir – wedi eu cynnwys yn eu hysgrifennu personol neu lyfryn sillafu. Fe ddylen nhw hefyd ddod yn gyfarwydd â geirfa sy'n benodol i wahanol bynciau ar draws y cwricwlwm.

Ehangu a gwella brawddegau

Rhowch frawddeg syml i'r dysgwyr, er enghraifft 'Aeth y bachgen adref.'

Modelwch y broses o ehangu a gwella'r frawddeg drwy ofyn cwestiynau ac awgrymu gwelliannau, gan ddefnyddio enw rhan yr ymadrodd sydd ei angen:

- Beth oedd ei enw? Rhaid i mi ddefnyddio enw priod.
- Sut olwg oedd arno? Sut oedd yn teimlo? Beth oedd yn ei wneud? Rhaid i mi ddefnyddio ansoddeiriau/idiom i'w ddisgrifio.

Taflen 6.2 (parhad i)

- Aeth e'n araf neu'n gyflym? Rhaid i mi ddefnyddio berf neu adferf i gyfleu hyn.
- Pam aeth e adref? Rhaid i mi ddefnyddio is-gymal i ychwanegu gwybodaeth.

Efallai y bydd gennych frawddeg debyg i hon:

'Oherwydd iddo golli'r bws olaf adref, a'i fod yn ofni'r tywyllwch, rhedodd Alun bach adref nerth ei draed.'

Unwaith y bydd dysgwyr yn hyderus am y broses, anogwch nhw i'w hefelychu ar eu pen eu hunain.

Gellir defnyddio'r dechneg hon o fodelu gan athro/athrawes gan symud i waith unigol, i roi sylw i ymarferion gramadegol amrywiol – gan drosglwyddo o un amser o'r ferf i'r nesaf; newid yr awyrgylch; newid o'r modd gweithredol i'r goddefol; newid trefn y geiriau er mwyn creu yr un ystyr neu ystyr gwahanol; amrywio trefn y cymalau; edrych ar gytundeb enwau a berfau. Gellir defnyddio cysyllteiriau sy'n creu brawddegau efo prif gymal ac is-gymal, er enghraifft 'Os bydd hi'n bwrw glaw yfory, fyddwn ni ddim yn mynd am bicnic'. Gellir gwella ansawdd gwaith drwy ddefnyddio ymadroddion bychain neu briod-ddulliau, er enghraifft 'Mae gwranddo ar gorau meibion yn canu yn rhoi pleser i mi bob amser'; 'Roedd y bachgen wrth ei fodd wedi iddo ennill y ras'.

Cyfannu, gan hepgor un rhan ymadrodd

Gellir defnyddio ymarferion cyfannu yn effeithiol i roi sylw i ddefnydd rhannau ymadrodd gwahanol.

Cymrwch ddarn o destun gan hepgor rhai geiriau tebyg, er enghraifft enwau, berfau neu ansoddeiriau, ac ati. Gofynnwch i ddysgwyr gwblhau'r darn – naill ai drwy roi rhestr o eiriau i'w defnyddio neu, ar gyfer dysgwyr mwy abl, gadael iddyn nhw feddwl am rai eu hunain. Nodwch y gallan nhw newid goslef ac ystyr y darn cyfan drwy amrywio'r eirfa, er enghraifft drwy ddefnyddio ansoddeiriau 'hapus' yn hytrach na rhai 'trist'.

Er enghraifft: yn y darn hwn, mae'r ansoddeiriau wedi eu hepgor. Drwy gwblhau'r darn, bydd y dysgwyr yn canolbwyntio ar ansoddeiriau a'u cyfraniad i'r disgrifiad yn y testun.

Ydych chi erioed wedi chwarae yn yr eira? Cyn gynted ag y cawson nhw eu brecwast, gwisgodd Mari a Sion yn a rhedeg yn allan o'r tŷ. Galwodd eu mam nhw yn ôl, a gwneud iddyn nhw wisgo menyg a sgarffiau. Wedyn, yn rhedodd y ddau i bendraw'r cae. Roedd yr eira'n ym mhobman ac roedd o'n gorchuddio'r mynyddoedd gyda blanced, Rhowliodd y plant yr eira'n ddwy bêl i wneud dyn eira. Roedd un bêl ar gyfer ei gorff, a phêl ar gyfer ei ben. Beth ydych chi'n feddwl ddefnyddion nhw ar gyfer ei geg a'i lygaid?

Taflen 6.2 (parhad ii)

Byddai'r dasg o hepgor cysyllteiriau o ddarn o destun yn fwy o sialens i ddysgwyr mwy galluog. Er enghraifft, gellid tynnu'r cysyllteiriau o ddarn yn dylunio a thechnoleg fyddai'n disgrifio proses. Byddai hyn yn gorfodi'r dysgwyr i ystyried dilyniant y syniadau a diben y cysyllteiriau i wneud synnwyr a chreu cydlynad.

Darllen ac ysgrifennu barddoniaeth

Gan fod barddoniaeth fel arfer wedi ei ysgrifennu'n gryno, gall fod yn ddefnyddiol ar gyfer gwaith iaith. Mae darllen ystod o farddoniaeth yn ffordd dda o ganolbwyntio sylw dysgwyr ar dechneg ysgrifennu – gweler Astudiaeth Achos 2 yn *Arfer orau mewn darllen ac ysgrifennu disgyblion oedran 7 i 14 oed* (Estyn, 2008).

Defnyddiwch y camau hyn i ysgrifennu cerdd:

- Penderfynwch ar deitl neu thema ar gyfer ysgrifennu cerdd.
- Gyda'r dosbarth, casglwch fanc o enwau y medrir eu cynnwys yn y gerdd.
- Gwnewch yr un fath eto gan gynnwys berfau, ansoddeiriau ac adferfau addas.
- Adeiladwch restr o ymadroddion i nodi llefydd, teimladau neu unrhywbeth arall addas.
- Gofynnwch i ddysgwyr greu cerdd gan ddefnyddio un neu fwy o'r eitemau o'r banciau geiriau hyn ym mhob llinell, weithiau'n amrywio trefn y geiriau o fewn y llinellau.

Taflen 6.3

Cyflwyno ac ymarfer treigladau

Gan nad yw nifer o ddysgwyr erbyn hyn yn clywed y Gymraeg yn cael ei siarad yn naturiol yn eu cymuned, mae'n hanfodol iddyn nhw ddod yn ymwybodol o'r newidiadau sy'n digwydd ar ddechrau rhai geiriau yn y Gymraeg, a'r rhesymau am hynny. Mae hyn yn golygu cyflwyno'r treigladau a'r rheolau iddyn nhw yn gynnar, gan ymarfer a dysgu eu defnyddio'n naturiol yn eu siarad a'u hysgrifennu.

- Paratowch gopi o'r tabl treigladau, e.e. ar fat geirfa, poster neu fwrdd gwyn rhyngweithiol.
- Atgyfnerthwch y treigladau trwy eu hymarfer ar lafar. Gellwch wneud hyn yn fwy diddorol, e.e. drwy siantio, gwneud ymarfer corfforol fel yr 'haca', gwneud ymarferion gweithredol ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol, neu ddefnyddio cardiau i baru lluniau â gair.
- Dylech gyflwyno un treigladau ar y tro a dewis y rheolau mwyaf perthnasol i waith cyfredol y dysgwyr fel y gallan nhw eu defnyddio yn eu gwaith.
- Dysger: Mae tri threigladau – **Meddal**, **Trwynol** a **Llaes**. Mae naw llythyren yn treiglo – naw yn feddal, chwech yn drwynol a thair yn llaes. Gweler y tablau canlynol.

Gwelir yma y cytseiniaid sy'n cael eu heffeithio a'r newid sy'n digwydd iddyn nhw.

Cytseiniaid	Treigladau meddal	Treigladau trwynol	Treigladau llaes
P T C	B D G	MH NH NGH	PH TH CH
B D G	F DD –	M N NG	Dim newid
LL M RH	L F R	Dim newid	Dim newid

Taflen 6.3 (parhad i)

Cytseiniaid	Gair gwreiddiol	Treigladd meddal	Treigladd trwynol	Treigladd llaes
P T C	pen tŷ cath	dy ben dy dŷ dy gath	fy mhen fy nhŷ fy nghath	ei phen ei thŷ ei chath
B D G	brawd dant gardd	dy frawd dy ddant dy -ar dd	fy mrawd fy nant fy ngardd	
LL M RH	llyfr mam rhwyl	dy lyfr dy fam dy rwyl		

Dyma rai o'r prif reolau wrth dreiglo y dylai dysgwyr ymgyswrttu â nhw. Dylai athrawon eu cyflwyno bob yn dipyn, gan ddewis y rhai pwysicaf a mwyaf perthnasol i'r dysgwyr ar y pryd, gan eu cysylltu â chyd-destun eu gwaith.

Treigladd meddal

Enwau

- Enwau benywaidd unigol ar ôl y fannod *y, yr, 'r*, e.e. 'y **fam**'. Ni threiglir *ll* a *rh*, ac nid yw'r ffurfiau lluosog yn newid.
- Ar ôl yr arddodiaid: *am, ar, at, dan, dros, drwy, wrth, gan, hyd, heb, i, o*, e.e. 'o **Gaerdydd** i **Gonwy**'.
- Ar ôl y rhagenwau personol *dy, ei* (gwrywaidd), *'i* (gwrywaidd), *'w*, e.e. 'dy **lythyr**'.
- Enw benywaidd ar ôl *un* e.e. 'un **ferch**' (nid yw *ll* a *rh* yn treiglo).
- Ar ôl *dau, dwy, saith, with*, e.e. 'dau **gi**', 'dwy **gath**'.
- Ar ôl y cysylltair *neu*, e.e. 'ci neu **gath**'.
- Ar ôl ansoddair, e.e. 'hen **gyfaill**'.

Ansoddeiriau

- Ar ôl enw benywaidd unigol, e.e. 'ffordd **fawr**'.
- Ar ôl y traethiad *yn*, e.e. 'yn **ddiddorol**' (ni threiglir *ll* a *rh*).
- Ar ôl y cysylltair *neu*, e.e. 'mawr neu **fach**'.
- Wrth gymharu, e.e. 'mor **ddrud**', 'cyn **gryfed**'. (ni threiglir *ll* a *rh*).

Berfau

- Ar ôl y rhagenw perthynol *a*, e.e. 'y llythyr a **dderbyniais**'.
- Ar ôl *pan*, e.e. 'pan **ddaw**'.
- Ar ôl *ni* a *na* (*b d g ll m rh* yn unig), e.e. 'ni **lwyddodd**'.

Taflen 6.3 (parhad ii)

Treigladd trwynol

1. Ar ôl y rhagenw blaen *fy*, e.e. 'fy **m**hen'.
2. Ar ôl yr arddodiad yn (sy'n newid i *ym* neu *yng*), e.e. 'ym **M**angor', 'yng **N**ghaernarfon'.
3. Yn y geiriau *blynedd*, *blwydd*, *diwrnod* ar ôl y rhifolion *pum*, *saith*, *wyth*, *naw*, *deg*, *deuddeg*, *pymtheg*, *deunaw*, *ugain*, *can*, e.e. 'pum **m**lynedd', 'wyth **m**lwydd oed'.

Treigladd llaes

1. Ar ôl y rhagenwau personol benywaidd *ei*, *'i*, *'w*, e.e. 'ei **c**hartref', '*i*'w **t**hŷ'.
2. Ar ôl y rhifolion *tri* a *chwe*, e.e. 'tri **c**heffyl', 'chwe **p**heth'.
3. Ar ôl yr arddodiaid *â*, *gyda*, *tua*, e.e. 'gyda **c**hylllell'.
4. Ar ôl *ni* a *na*, e.e. 'ni **c**hredais', 'na **p**hrofwyd'.

Paratowch ddarn o destun sy'n cynnwys geiriau wedi eu treiglo, naill ai un treigladd ar y tro, neu'n cynnwys enghreifftiau o'r tri threigladd. Gofynnwch i aelodau'r grŵp adnabod y treigladdau, nodi pa lythrennau sydd wedi newid, enwi'r treigladd a dyfalu'r rheswm am y treigladd.

Er enghraifft:

Darllenwch y ddau baragraff canlynol o *Datblygu Cywirdeb Iaith, Codi Safonau Llythrennedd, Agweddau ar Addysgu'r Gymraeg Cyfnodau Allweddol 3 a 4*, Rhaglen Genedlaethol Hyfforddiant mewn-swydd y Gymraeg, (CBAC, 2004). Mae'n cynnwys geiriau sy'n treiglo yn dilyn *ei* gwrywaidd a benywaidd (*a'i* ac '*i* hefyd). Nodwch y geiriau sy'n treiglo, a sut mae'r llythrennau'n newid. Enwch y treigladd.

Paragraff 1

Cawr oedd Bendigeidfran. Ei ffugenw oedd Brân ond dim ond ei chwaer oedd yn galw hynny arno. Branwen oedd ei chwaer a'i frodyr oedd Manawydan, Nisien ac Efnisien. Roedd Bendigeidfran yn ddyn tal iawn. Roedd ei lygaid fel llynnoedd a'i wallt fel coedwig. Tebyg i ddail cabatsen oedd ei glustiau a'i geg yn fawr fel ogof. Roedd ei draed mor fawr â llongau. Roedd pawb yn ei ofni am ei fod mor dal a chryf. Doedd e erioed wedi bod mewn tŷ na llys oherwydd ei fod mor dal. Roedd yn cario'i darian a'i gleddyf i bob man. Person caredig oedd Bendigeidfran achos roedd e'n amddiffyn ei deulu bob amser.

Paragraff 2

Roedd Mererid yn dywysoges hardd iawn. Roedd ei gwallt mor donnog â'r môr ac mor felyn â'r haul. Roedd ei chroen yn glir fel y grisial a'i thrwyn fel botwm! Noson ei pharti pen-blwydd gwelodd ei thywysog am y tro cyntaf a syrthiodd mewn cariad ag ef. Gwyn oedd ei enw. Doedd ei thad ddim yn hapus â'r berthynas yma achos mai dyn tlawd oedd ei chariad. Roedd arno fe ofn fod Gwyn yn mynd i ddwyn ei chyfoeth a'i thrysorau i gyd.

Taflen 6.4

Darllen ar y cyd

Paratowch gyflwyniad o'r darn hwn – ar daflunydd neu fwrdd gwyn rhyngweithiol – a gwnewch sesiwn o ddarllen ar y cyd, yn canolbwyntio ar y defnydd o iaith. Oherwydd mai oedolion fydd y gynulleidfa, gallwch ofyn cwestiynau na fyddai'n addas ar gyfer dysgwyr iau – er enghraifft, beth sy'n dangos nad darn cyfoes yw hwn? – ond efallai y gallech drafod sut y gallai ymarfer o'r fath fod o gymorth i ddysgwyr ganolbwyntio, er enghraifft, ar y defnydd o ansoddeiriau neu adferfau.

Mae gan bob grŵp blwyddyn yn yr ysgol gynradd hon ei wely ei hun i weithio arno yn eu gardd organig, a rhyngddyn nhw maen nhw wedi tyfu amrywiaeth ryfeddol o lysiau a ffrwythau. Tra bydd y rhai ieuengaf yn cael eu cyflwyno i'r gwaith drwy dyfu sialots a letys, mae'r rhai hynaf yn cynhyrchu popeth o india corn i bannas sydd wedi ennill gwobrau.

Dechreuodd yr ysgol arddio drwy dyfu ffrwythau yn hytrach na llysiau. Roedd pentrefwyr wedi mynegi pryder y gallai mathau o afalau lleol oedd yn tyfu yn eu gerddi gael eu colli am byth, oni fydden nhw'n cael eu hamddiffyn. Felly daeth yr ysgol i'r adwy drwy greu perllan afalau ar ei thir bum mlynedd yn ôl, gan ddefnyddio toriadau o'r mathau arbennig hynny o afalau.

Y flwyddyn ganlynol, penderfynodd yr ysgol greu 'Yr Ardd Organig'. Ar y dechrau ni wyddai'r athrawon na'r dysgwyr fawr am arddio. Bu'n rhaid iddyn nhw ddysgu drwy brofiad – gan ddarparu rhai prydau hyfryd i'r lindys yn y dyddiau cynnar – ond erbyn hyn maen nhw'n cynaeafu digonedd o lysiau a ffrwythau gwych, ac yn cael cyfle i fwynhau eu hunain.

Mae garddio organig wedi ysbrydoli'r plant i ofalu amdanyn nhw eu hunain a'u hamgylchedd mewn ffyrdd eraill hefyd – disgrifir hyn gan eu hathro fel 'effaith domino'. Er enghraifft, rhoddwyd cyfle i'r plant flasau 30 o wahanol fathau o afalau, er mwyn eu hannog i fwynhau bwyd iach, ffres. Maen nhw bellach yn hapus i fwyta dim ond ffrwyth yn ystod amser chwarae, yn hytrach na siocled a chreision, ac mae hyn wedi cynorthwyo i ddatrys problem ysbwriel yr ysgol, gan fod croen y ffrwythau'n mynd yn syth i'r bin compostio.

Cymerwyd o *Bwyd a ffitrwydd yn y cwricwlwm yng Nghymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009)

Cysyllteiriau/Ymadroddion cysylltiol

Mae defnydd effeithiol o gysyllteiriau neu ymadroddion yn creu testun cydlynus. Mae'n bwysig bod dysgwyr yn dod yn gyfarwydd â'r geiriau hyn er mwyn ymestyn eu dewis o eirfa, a chael cyfleoedd i'w defnyddio yn aml wrth siarad cyn iddyn nhw ysgrifennu, a thrwy sylwi arnyn nhw yn eu darllen.

Beth mae'n wneud?	Defnydd posibl	Geiriau ac ymadroddion allweddol
Cymharu a chyferbynnu Ceisio esbonio sut mae dau neu fwy o wrthrychau, digwyddiadau neu ddadleuon yn debyg neu'n wahanol.	Gellir eu defnyddio ar gyfer unrhyw un o'r chwe math o destun (gweler Uned 5). Er enghraifft: Celf a dylunio: cymharu dau ddarlun o'r un peth. Hanes: edrych ar ddau adroddiad o'r un digwyddiad o ogwydd wahanol. Daearyddiaeth: ystyried manteision ac anfanteision datblygiadau manwerthu ar gyrion tref.	yn ogystal mwy na hynny ar yr un pryd yr un modd ar y llaw arall er gwaethaf yn lle i'r gwrthwyneb yn debyg heblaw hynny yn gyffelyb nid yn unig...ond o gymharu â mewn cyferbyniad â er hynny
Rhestru Egluro nodweddion pobl, anifeiliaid, gwrthrychau neu lefydd drwy gyfeirio at restrau, casgliadau o fanylion neu gyfresi.	Gellir eu defnyddio ar gyfer unrhyw un o'r chwe math o destun (gweler Uned 5). Er enghraifft: Dylunio a thechnoleg: risetiau; cyfarwyddiadau ar gyfer proses (sut i...) Addysg gorfforol: rheolau gêm. Gwyddoniaeth: adrodd ar arbrawf; nodweddion rhywogaethau.	Casgliad o fanylion: enghraifft o debyg i un arall Geiriau sy'n cyfleu parhad: yn gyntaf yn gynharach yn derfynol o'r diwedd ar (amser, dyddiad) er enghraifft nifer yn wir yn ychwanegol i ddechrau yn ddiweddarach/ yn hwyrach

Taflen 6.5 (parhad i)

Beth mae'n wneud?	Defnydd posibl	Geiriau ac ymadroddion allweddol
Problem ac eglurhad		
Adnabod problem, a chwilio am ffyrdd o'i datrys	<p>Gellir eu defnyddio ar gyfer unrhyw un o'r chwe math o destun (gweler Uned 5).</p> <p>Er enghraifft:</p> <p>Gwyddoniaeth: archwilio problem, e.e. llygredd, gan gyflwyno ffyrdd posibl ymlaen.</p> <p>ABCh: ysgrifennu hysbyseb am nwyddau iechyd.</p> <p>Daearyddiaeth: ystyried ffyrdd o atal ymwelwyr a weithwyr mewn masnach byd eang.</p>	<p>y broblem ydy</p> <p>un eglurhad ydy</p> <p>un ymateb ydy</p> <p>un rheswm am oherwydd/</p> <p>o achos...</p> <p>mae hyn yn golygu felly rydw i'n credu mae'n bosibl bod fy nghynnig i ydy felly</p>
Newid canolbwynt		
Rhybuddio'r darllenwr bod yna ddadl i'r gwrthwyneb neu wrthddywediad, neu newid yng nghyfeiriad y drafodaeth neu'r naratif.	<p>Gellir ei ddefnyddio mewn adroddiadau, wrth berswadio neu drafod.</p> <p>Er enghraifft:</p> <p>ABCh: ystyried manteision neu anafanteision gwisg ysgol.</p> <p>Daearyddiaeth: trafodaeth ar fywyd cefn gwlad yng Nghymru.</p> <p>Celf a dylunio: cofiant arlunydd yn dangos sut bu newid byd arnyn nhw, e.e. o ddinodedd i enwogrwydd, neu fel arall.</p>	<p>er hynny</p> <p>fel arall</p> <p>i'r gwrthwyneb</p> <p>mwyr na</p> <p>er gwaethaf</p> <p>yn wahanol</p> <p>ar y llaw arall</p> <p>o achos, oherwydd</p>

Taflen 6.5 (parhad ii)

Beth mae'n wneud?	Defnydd posibl	Geiriau ac ymadroddion allweddol
Achos ac effaith Dangos sut y mae perthynas achosol rhwng digwyddiadau.	<p>Gellir eu defnyddio mewn adroddiadau, esboniadau, wrth berswadio neu drafod.</p> <p>Er enghraifft:</p> <p>Hanes: archwilio rhesymau am ddigwyddiad arbennig.</p> <p>Dylunio a thechnoleg: egluro proses (sut mae'n gweithio).</p> <p>Cymraeg/Saesneg: dadansoddi rhesymau am fethiant rhyw arwr amlwg.</p>	<p>oherwydd gan hynny o ganlyniad</p> <p>o achos felly am hynny os na</p>

Taflen 6.6

Gwallau cyffredin yn y Gymraeg

Rhestrir yma rai elfennau sy'n peri trafferth wrth ysgrifennu yn y Gymraeg, gyda rhai canllawiau syml.

1. Dyblu n/r

- Dim ond pan fo'r **n/r** yn dod ar ddiwedd sillaf olaf ond un gair y maen nhw'n dyblu, ar wahan i **n** ar ôl an – negyddol, e.e. digon > annigonol; pennill > penillion; difyrru; gyrru.
- Pan fydd y llafariad *a, e, i, o, u, w, y*, yn fyr mewn gair un sillaf ('llyn', 'hyn', ac ati) mae'r **n/r** yn dyblu os byddwn yn ychwanegu sillaf arall, e.e. ton > tonnau; llyn > llynnoedd; hyn > hynny; byr > byrrach. Ond rhaid cofio bod eithriadau.
- Os yw'r llafariad yn hir yn y gair un sillaf yna ni fyddwn yn dyblu wrth ychwanegu sillaf, e.e. tôn > tonau; llun > lluniau.
- Os byddwn yn ychwanegu sillaf at air sy'n gorffen efo -nt, byddwn yn gollwng y -t ac yn dyblu'r **n**, e.e. dant > dannedd; peiriant > peiriannau.
- Os byddwn yn rhoi **an** negyddol o flaen gair yn dechrau efo t/d, bydd yr n (ond ddim r) yn dyblu, e.e. teg > annheg; ond os oes cytsain arall yn dilyn y d/t yn y ffurf wreiddiol, e.e. 'trefn', yna ni ddyblir yr **n**, felly > anhrefn.

2. To bach/Acen Grom/Hirnod

- Mae angen to bach ar bob un o'r llafariad *a, e, o, w, y*, pan fyddan nhw'n hir mewn gair un sillaf yn diweddu yn **l, n, r**, e.e. 'môr', 'pêl', 'tân'. Ond, mae eithriadau, e.e. 'hen', 'dyn' (Efallai y byddai'r gair gwneud ALENORWY yn gymorth i gofio'r rheol hon).
- Yn yr un modd bydd angen to bach mewn geiriau o fwy nag un sillaf gyda'r pwyslais ar y sillaf olaf, e.e. 'ynghlyn â', 'ar wahân'.
- Pan fo gair un sillaf yn diweddu â llafariad yna ni fydd angen to bach, e.e. 'to', 'ni', 'te'. Ond, mae 'tŷ' yn eithriad (Mae angen to ar ben tŷ ond nid ar ben to).
- Mae angen to bach ar lafariad hir mewn gair un sillaf sy'n diweddu gyda'r cytseiniaid **p, t, c, m**, (yn aml yn eiriau o'r Saesneg), e.e. 'tîm', 'gêm', 'plât', 'sê't'.

3. a, â, (ac, ag)

- **a** – y cysylltair ('and' yn Saesneg) a ddefnyddir o flaen cytsain, e.e. 'bachgen a merch' (**ac** o flaen llafariad, e.e. 'dafad ac oen'). Ond, mae eithriadau, e.e. defnyddir 'ac' o flaen geiriau fel mor, mewn, meddai. Bydd treigladau yn dilyn yr **a** hon e.e. ci a chath. Ond, mae rhai eithriadau.
- **â** – y ffurf a ddefnyddir ar ôl gradd gyfartal yr ansoddair, e.e. 'mor wyn â'r eira' (**ag** a ddefnyddir o flaen llafariad, ac nid oes angen to bach, e.e. 'cyn wynned ag eira'); neu 'gynted â phosibl'; neu i gyfateb i **gyda/efo**, e.e. torri â chylllell'. Defnyddir 'ag' o flaen llafariad, e.e. 'a fyddechystal ag anfon...'.

Uned 6

Taflen 6.6 (parhad i)

4. Arddodiaid

Y defnydd o arddodiaid gyda rhai berfau/berfenwau. Oherwydd dylanwad y Saesneg camddefnyddir yr arddodiaid yn aml, e.e. dywedir 'dweud i' ('dweud wrth' yw'r ffurf gywir), 'gofyn wrth' ('gofyn i' sydd yn gywir), a cheir idiomaau Saesneg fel 'mynd i'r deintydd' (yn hytrach na 'mynd at y deintydd'). Hefyd, erbyn hyn gwall cyffredin yw defnyddio'r ffurf anghywir o'r arddodiad rhediadol yn dilyn y ferf lle na cheir cytundeb rhwng yr arddodiad a chenedl, e.e. 'gofyn iddo hi' (yn hytrach nag 'iddi hi').

Ffurf bersonol yr arddodiad, e.e. clywir rhai'n dweud 'Dyma'r bachgen 'roeddwn yn sôn **am**' yn hytrach na 'sôn **amdano**', sef ffurf gyfatebol bersonol yr arddodiad. Mae hyn yn peri cryn drafferth i rai.

Rhoi arddodiad ar ddiwedd brawddeg, e.e. 'Lle ti'n mynd i?' (yn hytrach nag 'I ble wyt ti'n mynd?').

5. Camsillafu geiriau sy'n cynnwys y llafariad y/u/i

Yn aml mae sŵn y llafariad hyn yn debyg iawn, a rhaid dysgu'r gwahaniaeth rhyngddyn nhw, e.e. 'fyny', 'rhywun', 'canu', 'ci', 'gwely', 'tŷ', 'gweiddi', 'gilydd', 'mynydd'.

6. Defnydd neu'r camddefnydd o'r collnod/sillgoll

Er nad yw bob amser yn amharu ar yr ystyr ar lafar, defnyddir y collnod i ddangos fod llythyren/llythrennau ar goll neu wedi eu hepgor ac mae'n bwysig wrth ysgrifennu, e.e. 'a'r' (a + y/yr), 'mae'n' (mae + yn), 'cadw'i' (cadw + ei). Mae angen collnod gyda rhai rhagenwau, e.e. 'fy mam a'm tad', 'ti a'th chwaer', 'dewch i'n tŷ ni'. Weithiau rhoddir collnod lle nad oes ei angen, a gall hyn newid ystyr y gair, e.e. 'mae'r'.

7. Treigladau

Mae treigladau yn newid y ffordd mae dechrau rhai geiriau yn newid o dan amgylchiadau arbennig. Yn aml, o dan ddylanwad y Saesneg, hepgorir y treigladau oherwydd na ddefnyddir y rhagenw blaen, e.e. 'bag fi' (yn hytrach na 'fy mag'). Mae llawer o reolau (gweler yr adran ar ramadeg) a dylid dewis y rhai mwyaf perthnasol i'w hymarfer.

8. Defnydd anghywir o ffurfiau amser amherffaith y ferf

Mae 'roedd ni' er enghraifft yn anghywir oherwydd dylid cael cytundeb rhwng y rhagenw ôl a chenedl y ferf (gwrywaidd/benywaidd); 'roedden ni' sy'n gywir.

9. Negyddu brawddegau

Dylid nodi 'Dydwn i ddim' yn lle 'Mae fi ddim' a 'heb weld' neu 'ddim wedi gweld' yn lle 'heb di gweld'.

Taflen 6.6 (parhad ii)

10. Y defnydd o idiomau Saesneg, neu gyfieithu llythrennol o'r Saesneg

Er enghraifft 'Mae'r plant i gyd' (nid 'i gyd o'), 'gormod' (nid 'rhy gormod'), 'mae gen i' (nid 'dw'i hefo'), 'mynd at y doctor' (nid 'mynd i'r doctor'), 'mae gen i' (nid 'dw'i hefo'/'fi gyda').

11. Diffyg ymwybyddiaeth o genedl enwau

Er enghraifft dywedir 'y cân' (yn hytrach nag 'y gân'), 'dwy fis' (yn hytrach na 'dau fis'), 'y gêm hwn' (yn hytrach na 'y gêm hon').

12. Diffyg ymwybyddiaeth o ffurf unigol neu luosog enwau

Mae gan y rhan fwyaf o enwau cyffredin ddwy ffurf, sef ffurf unigol a ffurf luosog, e.e. 'llong/llongau', 'môr/moroedd' ond mae ffurfiau lluosog i ansoddeiriau hefyd, e.e. 'plant bychain', 'pobl eraill' (nid 'pobl arall').

13. Defnydd anghywir o'r fannod y, yr, 'r

Dylid defnyddio:

y o flaen cytsain, e.e. '**y** ci'

yr o flaen llafariad, e.e. '**yr** eglwys'

'r ar ôl llafariad, e.e. 'dyma**'r** ferch'.

Rheol arall wrth ddefnyddio'r fannod yw:

Rhaid treiglo enw benywaidd unigol yn feddal ar ôl y fannod, e.e. '**y** gath', '**y** ferch', 'mae**'r** ferch' (ond ni threiglir **ll** a **rh** hyd yn oed ar ôl enwau benywaidd unigol, e.e. 'y llong', 'y rhaff').





Uned 7: Mwy o ramadeg: gwaith lefel brawddegau

Uned 7

Mwy o ramadeg: gwaith lefel brawddegau

- Nod:** Ystyried strategaethau pellach ar gyfer addysgu gramadeg ar lefel brawddegau.
- Amser:** 1 i 1½ awr
- Paratoi:** Darllenwch drwy'r uned gyfan ac ymgylfarwyddo â'i chynnwys.
- Adnoddau:** Copïau o Daflenni 7.1 i 7.3 ar gyfer pob aelod o'r grŵp.

Crynodeb o'r tasgau

Tasg 1: Ydy atalnodi'n bwysig?

Tasg 2: Defnyddio atalnodi i wneud yr ystyr yn glir

Tasg 3: Y collnod

Tasg 4: Defnyddio dyfynodau

Tasg 5: Defnyddio atalnodau

Tasg 1

Ydy atalnodi'n bwysig?

Mae'r gweithgareddau yn yr uned hon, ac yn Uned 6, yn amlygu rhai o'r penderfyniadau mae'n rhaid i ddysgwyr eu gwneud fel mater o drefn wrth ysgrifennu – penderfyniadau a fydd yn dod yn ail natur i'r awdur medrus yn y pen draw, ac a fydd yn ei alluogi i ganolbwyntio ar faterion ehangach cyfansoddi. Mae codi ymwybyddiaeth o atalnodi'n rhywbeth mae'n rhaid ei wneud yn gyson – trwy waith dosbarth cyfan ar y cyd, gwaith grŵp bach dan arweiniad, gwaith partner siarad ac yn ystod hunanasesu ac asesu cyfoedion gan ddysgwyr.

Fel grŵp, ystyriwch y ddau ddatganiad canlynol a thrafodwch eu goblygiadau i'ch addysgu:

1. Camgymeriadau atalnodi, fel camgymeriadau sillafu, yw un o'r problemau gweledol hynny a all arwain at gamsyniadau am sgiliau awdur, gan dynnu sylw oddi wrth waith y gellid ei ystyried yn fywiog a diddorol fel arall. Er bod cydlynad, perthnasedd a diddordeb yr holl destun yn bwysicach, mae cywirdeb o ran gramadeg sylfaenol ac atalnodi'n elfen gyfrannol bwysig ac mae'n rhaid i athrawon wneud popeth y gallan nhw i gynorthwyo dysgwyr i ddeall y ffaith hon.
2. Yn y byd y tu allan i'r ysgol, fe wneir y rhan fwyaf o waith ysgrifennu am reswm penodol (sy'n aml yn gysylltiedig â chyflogaeth neu gofnodi ffeithiau a safbwyntiau) a gall camgymeriadau sy'n effeithio ac yn amharu ar ystyr greu problemau sylweddol.

Cymerwch tua 15 munud.

Tasg 2

Defnyddio atalnodi i wneud yr ystyr yn glir

Bydd athrawon yn y grŵp yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd atalnodi gwaith ysgrifennu er mwyn gwneud ei ystyr yn glir. Ond sut mae mynd ati i ddarbwylllo dysgwyr o'r pwysigrwydd hwn – bod y symbolau bach hyn ar y dudalen mewn gwirionedd yn cyflawni swyddogaeth hollbwysig mewn gwaith ysgrifennu effeithiol?

Un strategaeth yw cynnig darn ysgrifenedig heb ei atalnodi o gwbl i ddysgwyr a gofyn iddyn nhw drafod y problemau sy'n codi oherwydd hyn. Mae Taflen 7.1 yn darparu darnau o'r fath.

Mewn parau, gofynnwch i aelodau'r grŵp atalnodi'r darn a nodi sut y gwnaethon nhw hynny, h.y. nodi'r gwaith datrys problemau a gwneud penderfyniadau a gyflawnwyd. Er ei bod yn ymddangos bod hon yn dasg hawdd, mae'n gofyn am ddealltwriaeth reddfol o ramadeg i rannu'r testun yn frawddegau a'u hatalnodi'n briodol.

Cymerwch tua 15 munud.

Tasg 3

Y collnod

Mae camddefnydd o'r collnod yn un o'r camgymeriadau mwyaf cyffredin mewn gwaith ysgrifenedig.

Dylai dysgwyr ddeall fod defnydd penodol i'r collnod – i nodi bod llythyren wedi ei hepgor. Fel y nodir yn yr uned flaenorol, y ffordd orau i arddangos hyn ac i gadarnhau dealltwriaeth dysgwyr yw trwy ddarllen ac ysgrifennu ar y cyd – trwy adnabod enghreifftiau mewn darllen ac esbonio eu defnydd, a thrwy gynnwys enghreifftiau o ysgrifennu ar y cyd.

Yn y Gymraeg yn benodol, nodi bod llythyren neu lythrennau wedi eu hepgor mewn gair wna'r collnod, a bod dau air wedi'u rhoi at ei gilydd, er enghraifft 'mae'n' (mae + yn), 'i'r' (i + yr), 'i'ch' (i + eich), a hyn yn aml er mwyn crynhoi neu dalfyrru geiriau.

Yn yr un modd, gwelir dysgwyr, naill ai'n peidio â defnyddio collnod ble mae ei angen, neu yn ei orddefnyddio drwy roi'r collnod mewn mannau nad oes ei angen, er enghraifft 'mae'n nhw', 'maen't', 'cynheli'r', 'gweli'r'.

Y ffordd orau o ddangos ac atgyfnerthu dirnadaeth dysgwyr o'r defnydd o'r collnod yw trwy ddarllen ac ysgrifennu ar y cyd – trwy nodi enghreifftiau wrth ddarllen ac esbonio eu swyddogaethau, a thrwy gynnwys enghreifftiau mewn darn o ysgrifennu ar y cyd.

Pa ffyrdd eraill allai aelodau'r grŵp eu defnyddio i addysgu'r ffurf hon o atalnodi? Trafodwch fel grŵp gan rannu ffyrdd sy'n gweithio.

Cymerwch tua 15 munud.

Tasg 4

Defnyddio dyfynodau

Fel grŵp, trafodwch yr egwyddorion sy'n gysylltiedig â defnyddio dyfynodau. Mae Taflen 7.2 yn cynnig rhestr ar gyfer cymharu.

Pa fathau o weithgareddau a allai gynorthwyo dysgwyr i gofio pryd a sut y'u defnyddir? Mae Taflen 7.2 hefyd yn cynnig rhai awgrymiadau ond dylai'r grŵp ychwanegu rhagor y maen nhw wedi'u defnyddio'n llwyddiannus, i gyfeirio atyn nhw yn y dyfodol.

Cymerwch tua 20 munud.

Tasg 5

Defnyddio atalnodau

Wrth i ddysgwyr arbrofi mwy gyda brawddegau cymhleth, mae angen iddyn nhw ddefnyddio atalnodau yn gywir i egluro'r ystyr o fewn y frawddeg. Ceir rheolau penodol ynglŷn â defnyddio atalnodau, a restrir ar Daflen 7.3. Trafodwch y rheolau fel grŵp ac ystyriwch y goblygiadau ar gyfer addysgu.

Cymerwch tua 15 munud.

Taflen 7.1

A yw atalnodi'n bwysig?

Ceisiwch ddarllen y darnau canlynol ar lafar heb baratoi. Mae'n anodd gwneud hynny gan nad yw'n cynnwys atalnodau na phriflythrennau.

adeg y nadolig rydym yn dathlu geni babi wnaeth mrs jones drws nesa ir ganolfan hamdden maer cwrs tennis yw hoff gem angharad mai yw mis y cystadlu gyda urdd mae llawer yn ymaelodi

jones yw cyfenw fy nghariad pert ywr rhosod yn yr ardd mae llysiau tyfu bob haf awn ir traeth i fwynhau awyr iach y mor yw cartref nifer o greaduriaid a physgod y byddaf yn bwyta sglodion

rydym yn cael twrci i ginio nadolig ywr adeg i roi anrhegion syn dderbyniol iawn ar ein penblwydd cawn hwyl fel arfer rhown gusan i sion corn yn ei ddillad coch a gwyn y cysylltwn liwr eirlys

Darnau allan o *Datblygu Cywirdeb Iaith*, Agweddau ar Addysgu'r Gymraeg, Cyfnodau Allweddol 3 a 4, Rhaglen genedlaethol Hyfforddiant mewn-swydd y Gymraeg (CBAC)

Nesaf, fel grŵp, rhowch atalnodau yn y darnau uchod. Bydd hyn yn gymharol hawdd i grŵp o oedolion sy'n ddarllenwyr medrus ond ni fyddai mor hawdd i ddysgwyr sy'n gweithio ar tua Lefel 3 neu 4. Mae cyflwyno darn heb unrhyw atalnodi'n dasg ddarllen ar y cyd ddefnyddiol a ddylai ddarbwylllo dysgwyr bod atalnodi'n bwysig iawn.

Pan fydd partneriaid siarad yn gweithio gyda'i gilydd, dylen nhw ddarllen yr hyn y maen nhw'n ei drafod yn uchel. Bydd unrhyw broblemau gydag atalnodi ac ystyr yn cael eu datgelu drwy wneud hyn a bydd seibiannau naturiol yn dynodi lle mae angen rhoi atalnodau.

Taflen 7.1 (parhad)

Cywirwch y darn canlynol drwy roi'r atalnodau lle mae eu hangen.

Cwmni Gwyliau Heulwen,
Ffordd y Plas,
Pwllheli,
Gwynedd.

Annwyl Mr. Williams,

Rydwi wedi bod ar fy ngwiliau efo eich cemni gwiliau chi I Menorca a ella bod chi yn meddwl mai llythyr diolch ynd hyn ond naci llytyr cwyn di hyn. Dwi yn meddwl bod fi wedi cael y gwiliau mwya erchyll a dwi di cael erioed.

Mi fyes yn disgwl am 8 awr yn y maes awyr a ddwedodd neb wrtha fi pam er bod fi di gofyn lawer gwaith. Roedd rhaid I mi aros dros nos yn y maes awyr a gesi fy neffro 7 yn y bore yn cael fy ddweud bod y plen yn barod.

Pan gyreiddishi yno oni yn meddw cael cysgy a gorffwys yn fy ngwesty crand ond geshi naddo oherwydd roedd fy ngwely yn damp roedd y cyrtens di disgyn roedd y waliau di cracio roedd y toiled di blocio a chwiliwch neu beidio on ffeindishi llgoden di marw tu mewn I nghas pilw fellu gysgis i ar lawr am wythnos.

Pan eshi I lawr I orffwys yn yr haul a nofio yn y pwll doedd dim pwll yno mon JCB yn trwsior pwll ffelly odd rhaid I mi fynd I lan y mor I orffwys yn yr haul drwr wythnos.

Pan es am swpar lawr yn y gwesy mi neshi ordro sbageti bolones mi fitish chwarter y bwyd a oedd o yn reit flasys a oni yn meddwl wbath neis or diwedd dyna be oni yn feddwl nes ffindish chwilen mowr ddu yn fy mwyd a roedd y gweinyddiau yn cae roid fy mhres yn ol a roedden nhw yn ofnadwy o anhapus felly roeddwni yn goro bwuta allan bob nos.

Dwi yn edrych yn mlaen I cael ateb yn ol a dwi yn disgwl cael bob ceiniog o fy mhres yn ol.

Oddi wrth

.....

Defnyddio dyfynodau

Defnyddir dyfynodau, unigol neu ddwbl yn ôl eich dewis:

- mewn llefaru uniongyrchol, o gwmpas pob gair a siaredir – ac eithrio mewn sgript drama lle nodir enw'r siaradwr ar yr ymyl, sydd wedi'i wahanu oddi wrth brif ran y testun gyda cholon fel rheol
- o gwmpas dyfyniad: 'Mae gen i freuddwyd.'
- o gwmpas enwau llyfrau, dramaau a cherddi: 'Tân ar y Comin' gan T. Llew Jones.

Mae dysgwyr yn cael trafferth yn aml wrth benderfynu sut i atalnodi llefaru uniongyrchol a lle i ddefnyddio priflythrennau. Ceir sawl rheol syml:

- Mae priflythyren yn dynodi dechrau'r llefaru uniongyrchol.
- Dylai geiriau pob siaradwr newydd ddechrau llinell newydd o destun.
- Rhoddir atalnodyn rhwng y geiriau a siaredir a'r geiriau nad ydyn nhw'n cael eu siarad fel rheol, e.e. "Edrychwch arna i," meddai Mair. "Rwy'n gallu nofio!" Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir pan fydd y grŵp cyntaf o eiriau a siaredir yn gorffen gyda gofynnod neu ebychnod – gweler isod.
- Pe torrir ar draws llefaru yng nghanol brawddeg, mae'r ail ran yn cychwyn gyda llythyren fach; e.e. "Paid â gwneud hwnna!" gwaeddodd yr athro "neu fe fyddi di'n cael dolur."
- Os bydd llefaru y torrwyd ar ei draws yn cynnwys dwy neu fwy o frawddegau llawn, mae'r ail frawddeg yn dilyn y rheol arferol ac yn dechrau gyda phriflythyren; e.e. "Paid â gwneud hwnna!" gwaeddodd yr athro! "Medri syrthio."
- Dylai pob atalnodyn sy'n ymwneud â'r llefaru fod y tu mewn i'r dyfynodau (e.e. "Rydw i'n gallu nofio!").

Mae strategaethau i gyfnerthu gwybodaeth dysgwyr am ddyfynodau'n cynnwys:

- darllen ac ysgrifennu ar y cyd a dan arweiniad
- troi stori o gomic â swigod llefaru'n stori ysgrifenedig
- troi sgript drama'n sgwrs fel rhan o stori
- amlygu testun i ddynodi gwahanol siaradwyr
- darllen ar lafar o nofel, lle mae dau neu fwy o ddysgwyr yn cymryd rhannau ac yn darllen yr hyn a ddywedir gan eu cymeriadau nhw eu hunain. (Bydd hyn yn golygu y bydd rhaid iddyn nhw hepgor y cymal adrodd, e.e. 'dywedodd Robin', gan ddarllen y geiriau a siaredir yn unig)
- troi llefaru uniongyrchol yn llefaru anuniongyrchol. Mae rheolau penodol ynglŷn â hyn y bydd angen ei addysgu:
 - bydd amser y ferf a siaredir yn newid, o'r presennol i'r gorffennol fel rheol
 - bydd rhagenwau personol yn newid
 - bydd trefn geiriau'n newid
 - bydd atalnodi'n newid
 - bydd yn rhaid ychwanegu geiriau.

Er enghraifft: Mae "Rwy'n dy garu di," sibrydodd hi.

yn newid yn

Sibrydodd hi ei bod yn ei garu o.

Defnyddio atalnodau

Defnyddir atalnodau:

- i wahanu eitemau mewn rhestr ac eithrio'r ddau olaf a wahanir gan y gair 'and', e.e. 'afalau, bananas, mefys a grawnwin'
- i wahanu ymadrodd disgrifiadol mewn brawddeg, e.e. 'Sion, y bachgen gyda'r llais gorau, ganodd yr unawd.'
- i wahanu cymalau mewn brawddeg, e.e. 'Pan welsant y ddamwain, fe sgrechion nhw mewn braw.'
- ar ôl geiriau rhagarweiniol ar ddechrau brawddeg, e.e. "O, dydw i ddim yn credu.", "Galla, gallaf dy weld."
- i ddilyn arwyddeiriau ar ddechrau brawddeg, e.e. 'Fodd bynnag, mae'r rheolau'n dweud...'
- i wahanu'r sawl sy'n cael ei gyfarch, ar ddechrau brawddeg, e.e. "Dafydd, tyrdd â'r bag i mi..."
- o gwmpas arwyddeiriau mewn brawddeg, e.e. 'Mae'r rheolau, fodd bynnag, yn dweud...'
- o flaen dyfyniad uniongyrchol mewn brawddeg, e.e. Dywedodd, "Mae'n ddrwg iawn gen i."
- ar ôl dyfyniad ond fel rhan o'r llefaru uniongyrchol ar ddechrau brawddeg, e.e. "Mae'n ddrwg iawn gen i," meddai'r ferch...
- cyn cysylltair fel 'a', 'neu', 'ond', mewn brawddeg sy'n cynnwys dwy frawddeg gyflawn (brawddeg gyfansawdd), e.e. 'Roedd Sian eisiau mynd i'r siop, ond roedd yn rhaid iddi wneud ei gwaith cartref yn gyntaf.'
- mewn parau, fel sangiad, yn yr un ffordd ag y byddech yn defnyddio cromfachau, e.e. 'Y pŵdl yw'r gorau, os nad y mwyaf deallus, o'r holl gŵn.'

Mae atalnodi'n egluro ystyr. Pan mae'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol, neu pan nad yw'n cael ei ddefnyddio o gwbl, gall ystyr brawddeg gael ei newid.

Ystyriwch yr enghreifftiau hyn. Ble byddech chi'n rhoi atalnod?

- Hyfforddwr y tîm cartre fu'n herio un annoeth ydy o ar adegau.
- Newydd gyrraedd adref yr oedd hi o'r ysbyty daeth y neges y bu'n ei hofni.



Uned 8: Gwaith lefel geiriau: sillafu a geirfa

Uned 8

Gwaith lefel geiriau: sillafu a geirfa

Nod: Archwilio ffyrdd effeithiol o addysgu sillafu a chynorthwyo dysgwyr i ehangu eu geirfa.

Amser: 1½ i 2 awr

Paratoi: Darllenwch drwy'r uned gyfan ac ymgylfarwyddo â'i chynnwys.

Adnoddau: Copïau o Daflenni 8.1 i 8.5 ar gyfer pob aelod o'r grŵp.
Copïau o Daflen 8.6 os byddwch yn cyflawni Tasg 5.

Crynodeb o'r tasgau

Tasg 1: Camgymeriadau sillafu

Tasg 2: Beth yw'r rheolau?

Tasg 3: Ehangu geirfa

Tasg 4: (dewisol) Addysgu sillafu Saesneg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg

Cyflwyniad

Fel y nodwyd yn Uned 7, mae camgymeriadau sillafu, fel camgymeriadau atalnodi, yn hynod amlwg a gallan nhw arwain darllenwr i wneud sylwadau di-sail am ddeallusrwydd yr awdur. Mae'n angenrheidiol felly i awduron fod mor gywir â phosibl – un ai'n reddfod, fel awduron effeithiol, neu o ganlyniad i olygu a phrawf-ddarllen cyson a gofalus.

Tasg 1

Camgymeriadau sillafu

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn cael trafferth yn sillafu rhai geiriau – hyd yn oed athrawon.

Gan ddefnyddio'r geiriau ar Daflen 8.1, rhowch brawf sillafu i'r grŵp, gofynnwch i eraill ei farcio ac yna cyhoeddwch nifer y camgymeriadau a wnaed gan bob unigolyn. Mae hyn yn rhannol fel hwyl ac yn rhannol i wneud y pwynt y gall bob un ohonom sillafu geiriau'n anghywir – oni bai, wrth gwrs, bod rhywun yn y grŵp yn cael 100 y cant – ond hefyd i efelychu'r sefyllfa lle gallai dysgwr gael ei fychanu trwy ddatgan ei gamgymeriadau mewn ffordd mor gyhoeddus.

Gofynnwch i aelodau'r grŵp drafod y ffyrdd maen nhw'n addysgu sillafu, a ydyn nhw'n gwneud hyn trwy gywiro'n bennaf neu drwy strategaethau mwy ymarferol sy'n cynnwys y dysgwyr mewn ymchwiliadau a gweithgareddau, neu gymysgedd o'r ddwy ffordd? Rhannwch strategaethau sydd wedi gweithio'n dda.

Mae Taflen 8.2 yn darparu rhai sylwadau a strategaethau i'w hystyried. Nid yw'n rhestr gynhwysfawr ac fe anogir athrawon i ychwanegu eu syniadau eu hunain.

Cymerwch gyfanswm o tua 40 munud.

Tasg 2

Beth yw'r rheolau?

Bydd y rhan fwyaf o athrawon Cyfnod Allweddol 2 – yn enwedig y rhai ym Mlynnyddoedd 3 a 4 – yn gyfarwydd â'r rheolau sillafu sy'n gweithio ran amlaf. Fodd bynnag, os ydych yn gweithio gydag athrawon nad ydyn nhw yn y sefyllfa hon – athrawon uwchradd nad ydyn nhw'n dysgu'r Gymraeg na'r Saesneg – efallai y bydd angen eu hatgoffa fel y gallan nhw, yn eu tro, drosglwyddo'r wybodaeth hon i'w dysgwyr.

Fel grŵp, ystyriwch y rheolau a restrir ar Daflen 8.3 a'u trafod.

Cymerwch tua 30 munud.

Tasg 3

Ehangu geirfa

Mae diffyg diddordeb ac effaith yng ngwaith ysgrifennu llawer o ddysgwyr gan fod yr amrywiaeth o eirfa a ddefnyddir yn gyfyngedig ac yn amhendant.

Mae angen i ddysgwyr 'gasglu' geiriau diddorol yn ymarferol wrth iddyn nhw ddarllen neu wrando ar rywun arall yn siarad neu'n darllen. Dylai pob athro/athrawes geisio addysgu'r eirfa berthnasol fel y gellid canfod ystyr yn yr ysgrifennu. Bydd athro/athrawes Gymraeg neu Saesneg am wella ysgrifennu drwy ganolbwyntio ar iaith goeth a chystrawen gref. Bydd athro/athrawes gwyddoniaeth neu ddaearyddiaeth, er enghraifft, angen i'r dysgwr ddefnyddio termau penodol i'r pwnc dan sylw i ddisgrifio proses neu sefyllfa.

Fel grŵp, trafodwch ffyrdd o ehangu geirfa mae aelodau'r grŵp yn eu defnyddio. Mae Taflen 8.3 yn cynnig rhai awgrymiadau i'w defnyddio yn ystod neu ar ôl y drafodaeth hon.

Cymerwch tua 25 munud.

Tasg 4 (dewisol)

Addysgu sillafu Saesneg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg

Mae cyhoeddiad Estyn *Codi Safonau Sillafu Saesneg mewn Ysgolion Cynradd: Papur Trafod Estyn* (Estyn, 2001) yn gwneud y datganiad canlynol ar ddechrau Adran 5:

Ar y cyfan, mae'r gydberthynas rhwng synau a llythrennau yn llawer mwy cyson yn Gymraeg nag yn Saesneg. Golyga hyn y gall disgyblion ysgolion Cymraeg, y mae llawer ohonynt wedi llwyddo i ddysgu patrymau sillafu Cymraeg, gael anhawster penodol wrth ddysgu'r system sillafu Saesneg. Mewn rhai ysgolion Cymraeg, mae'r disgyblion yn dechrau darllen ac ysgrifennu yn Saesneg yn ystod tymor olaf Blwyddyn 2. Yn yr ysgolion hyn ac ysgolion Cymraeg eraill, mae Blwyddyn 3 yn hanfodol bwysig o ran datblygu medrau sillafu'r disgyblion yn Saesneg.

Os yw'n berthnasol i'ch ysgol/ion chi, gofynnwch i aelodau'r grŵp ystyried goblygiadau'r datganiad hwn ac i adnabod strategaethau penodol fyddai'n delio â hyn. Cymharwch y rhain gyda'r rhai a ddyfynnir gan Estyn ar Daflen 8.6.

Cymerwch tua 20 munud.

Taflen 8.1

Prawf sillafu i'r grŵp

Gofynnwch i aelodau'r grŵp sillafu unrhyw **10** o'r geiriau canlynol, ar lafar neu ar bapur.

1. fyny	11. ysgrifennwyd	21. anhreuliedig	31. disgyn
2. ei gilydd	12. cyrraedd	22. enghraifft	32. gwrywaidd
3. rhywun	13. absennol	23. dianghenraid	33. cymryd
4. anhrefn	14. annymunol	24. anghysbell	34. direidus
5. llythyr	15. canghennau	25. gwaedu	35. eisoës
6. annheg	16. anghenfil	26. oddi wrth	36. budr
7. diwydiannol	17. synnwyr	27. cymhleth	37. byr
8. penderfynu	18. cylchgronau	28. digywilydd	38. rhyddiaith
9. cyffrous	19. annog	29. ŵyn	39. byrrach
10. ysbyty	20. anogaeth	30. haeddu	40. cyflythrennu

Dysgu sillafu – rhai strategaethau i'w hystyried

Bod yn hyderus gyda geiriau sy'n ymddangos yn aml

Mae angen i bob dysgwr wybod sut i sillafu geiriau sy'n ymddangos yn aml (gweler Taflen 8.5). Gallan nhw wneud hyn trwy:

- gael rhywun i'w dangos iddyn nhw mewn sesiynau ysgrifennu ar y cyd neu dan arweiniad
- eu nodi mewn testunau maen nhw'n eu darllen fel unigolion
- treulio sesiynau aml, byr cychwynnol ar ddechrau gwersi sy'n canolbwyntio ar y rhain, yn gysylltiedig efallai â defnyddio byrddau gwyn unigol y gallan nhw ysgrifennu arny'n nhw
- eu defnyddio'n rheolaidd yn eu gwaith ysgrifennu.

Rheolau/patrymau sillafu

Mae angen cyflwyno a chanolbwyntio ar reolau a phatrymau sillafu mewn ffordd systematig yn gynnar yn ystod Cyfnod Allweddol 2 ac yna eu hatgyfnerthu a'u hadolygu'n rheolaidd wedi hynny – am y cyfnod sy'n angenrheidiol i ddysgwyr unigol.

Geiriau yn eu cyd-destun

Gall geiriau unigol olygu gwahanol bethau. Mae angen dysgu geiriau yn eu cyd-destun, h.y. fel rhan o frawddeg lle mae eu hystyr yn eglur. Wrth ysgrifennu geiriau a gofiwyd felly, dylai dysgwyr eu rhoi mewn brawddeg.

Profion sillafu

Nid yw profion sillafu wythnosol ar hap sy'n gyffredin i bob dysgwr mewn dosbarth yn ddefnyddiol iawn ac eithrio i ddarparu gwaith cartref rheolaidd a chadw rhieni'n hapus. Bydd y rhai sy'n gallu sillafu'n gwneud yn dda a'r rhai na allan nhw sillafu'n gwneud yn wael. Os y'u defnyddir, mae angen iddyn nhw gyfeirio at waith penodol a wnaed yn y dosbarth yr wythnos honno – ar batrwm sillafu efallai – fel eu bod yn atgyfnerthu'r hyn a ddysgwyd.

Cofnod sillafu personol

Yr unig restrau sillafu sy'n effeithiol mewn gwirionedd yw'r rhai personol, sy'n cael eu llunio gan y dysgwr, o eiriau sy'n achosi problem i'r dysgwr hwnnw – h.y. a gymerir o waith ysgrifennu ar draws y cwricwlwm os yn bosibl. Os bydd dysgwyr yn cadw llyfr sillafu eu hunain, gallan nhw restru'r geiriau sy'n peri problemau iddyn nhw ynddo a'i ddefnyddio wrth ddysgu sut i'w sillafu – gyda phartner neu mewn sesiwn sillafu reolaidd mewn dosbarth, lle mae dysgwyr yn profi ei gilydd yn unigol, neu gartref gyda rhiant yn cynorthwyo i gyfnerthu'r gair/geiriau. Y dull gorau ar gyfer y dysgu hwn yw'r drefn 'Edrych, Cuddio, Ysgrifennu, Gwirio' adnabyddus.

Taflen 8.2 (parhad i)

Ymchwiliadau ymarferol

Os gall y dysgwyr ddysgu'r rheolau eu hunain trwy ymchwilio ac arsylwi'r ffordd mae geiriau'n gweithio, yna maen nhw'n fwy tebygol o'u cofio, e.e. ymchwilio i sut mae ffurfio lluosog enwau.

Creu casgliadau dosbarth

Trowch eich dosbarth yn dditectifs geiriau unwaith eto – ditectifs sydd, ar ôl iddyn nhw ganolbwyntio ar reol sillafu, i gasglu geiriau sy'n dilyn y patrwm/rheol honno o unrhyw beth maen nhw'n ei ddarllen dros gyfnod o ychydig ddiwrnodau. Gadewch iddyn nhw ychwanegu'r geiriau hyn at restr neu fag o eiriau neu rhyw fath arall o fanc geiriau sy'n rhan o amgylchedd yr ystafell ddosbarth. Mae'n debygol y datblygir ymwybyddiaeth o unrhyw eithriadau i'r rheolau hyn gyda'r gweithgaredd hwn.

Mewn pynciau ar draws y cwricwlwm casglwch eiriau sy'n perthyn i bwnc neu agwedd arbennig ac sydd â'r un rhagddodiad neu olddodiad, gan nodi eu tarddiad a'u hystyr gwreiddiol.

Cymorth Cof

Cynhaliwch gystadlaethau rheolaidd i'r dysgwr sy'n gallu cyfansoddi cofymadrodd gorau'r wythnos i'w cynorthwyo i gofio geiriau sy'n peri problemau, ac arddangoswch y gwaith buddugol yn yr ystafell ddosbarth. Dyma rai enghreifftiau i gychwyn y broses:

Fyny/mynydd: 'Mae angen dwy goes i fynd i fyny mynydd'

Wy: 'Rhaid cael llwy i fwyta wy'. (Mae 'wy' yn y gair 'gwybod', 'trwyn', 'gwymon', 'llwy', 'mwynhau'.)

'Rhoi cynnig arni'

Anogwch ddysgwyr i 'roi cynnig ar' sillafu'r geiriau sydd eu hangen arnyn nhw ar ddarn o bapur neu fwrdd gwyn bach. Os bydd athro/athrawes yn darparu'r sillafiad cywir yn gyson heb ofyn i'r dysgwr geisio sillafu'r gair, yna ni fydd y dysgwr yn ffwdanu i feddwl.

Mae'r rhan fwyaf o oedolion yn ceisio ysgrifennu gair nad ydyn nhw'n siŵr ohono'n reddfodol – dim ond er mwyn gweld os yw'n edrych yn iawn, gan fod y rhan fwyaf o oedolion yn sillafwyr gweledol. Os bydd dysgwyr yn cael eu hannog i wneud yr un fath, byddwch yn gweld yn aml eu bod yn gwneud ymdrech dda, gan gael darn bach o'r gair yn anghywir yn unig. Mae hyn yn iawn ar gyfer y drafft cyntaf – cyn-olygu – a gellir ei gywiro'n ddiweddarach wrth ganolbwyntio arno gydag unigolyn, grŵp bach neu ddosbarth cyfan. Yna, dylid ychwanegu'r gair at y rhestr o eiriau trafferthus yn llyfr sillafu'r dysgwr a'i gadw yno nes y gall yn reddfodol ei ddefnyddio'n gywir.

Taflen 8.2 (parhad ii)

Dewis y dull gorau i ddysgu sillafu

I'r rhai hynny nad ydyn nhw'n sillafwyr gweledol, mae strategaethau eraill ar gael sy'n gysylltiedig ag arddulliau dysgu eraill. Ceir crynodeb isod.

Dulliau dysgu sillafu

Os mai drwy weld pethau yr ydych yn dysgu orau:	Os mai drwy wneud pethau yr ydych yn dysgu orau:
Edrychwch ar y gair; dywedwch y gair ar lafar, gan ynganu'r holl seiniau.	Edrychwch ar y gair; 'ysgrifennwch' y gair gyda'ch mynegfys; dywedwch y llythrennau.
Caewch eich llygaid a'i ddychmygu.	Rhowch flwch o gwmpas y gair sy'n dilyn siapiau'r llythrennau; sylwch o beth mae'r llun yn eich atgoffa.
Agorwch eich llygaid ac ysgrifennwch y gair.	Ysgrifennwch y gair gyda hufen eillio, halen mewn bocs, paent bysedd, pwddin, ac ati.
Gwiriwch ei fod yn gywir; ysgrifennwch y gair eto.	Dyrnwch y llythrennau yn yr awyr; dywedwch bob llythyren gyda phob dyrnod.
Edrychwch i fyny i'r chwith a dychmygwch y gair mewn lliw llachar.	Canwch, actiwch neu ddawnsiwch y gair y (yn eich pen).
Cuddiwch eich sampl ysgrifenedig; ysgrifennwch y gair eto; gwiriwch ei fod yn gywir.	Defnyddiwch llythrennau papur tywod i atgyfnerthu'r teimlad o gyffwrdd a dysgu; gwnewch siâp y geiriau gyda'ch mynegfys wrth ddweud y geiriau ar lafar.
Cuddiwch y sampl; ysgrifennwch y gair eto gan ddefnyddio pen neu bensil lliw llachar; gwiriwch.	Ysgrifennwch y gair yn yr awyr; ysgrifennwch y gair ar bapur a gwiriwch ei fod yn gywir.
Ailadroddwch y camau hyn gyda phob gair arall.	Cuddiwch eich sampl ysgrifenedig; ysgrifennwch y gair eto; gwiriwch ei fod yn gywir.
Ysgrifennwch bob gair sawl gwaith; gwiriwch bob tro.	Ailadroddwch y camau hyn gyda phob gair arall.
Os nad ydych yn siŵr sut i sillafu gair, ysgrifennwch y gair ac edrychwch i weld os yw'n edrych yn iawn – 'rhoi cynnig arni'.	Ysgrifennwch bob gair sawl gwaith; gwiriwch bob tro.

Taflen 8.2 (parhad iii)

Os mai trwy glywed yr ydych yn dysgu orau:	Os ydych yn dysgu ym mhob un o'r tair ffordd:
Dywedwch y gair, gan sicrhau eich bod yn ei ynganu'n gywir.	Defnyddiwch strategaethau o'r tri blwch arall. Cyfuniadau a awgrymir:
Seiniwch y gair, gan ddweud bob llythyren neu gymysgedd hyd yn oed pan fydd hyn yn swinio'n wirion, e.e. 'yn bendramwnwngwl' – ben/dra/mwn/w/gwl.	Edrychwch ar y gair; ynganwch yr holl seiniau.
Sillafwch y gair ar lafar; ysgrifennwch y gair wrth i chi ei sillafu ar lafar.	Dychmygwch y gair gyda'ch llygaid ar gau.
Gwiriwch ei fod yn gywir; ysgrifennwch y gair eto; gwiriwch.	Ysgrifennwch y llythrennau gyda'ch bys; gwnewch eiriau papur tywod os oes angen.
Canwch y llythrennau i dôn cân neu rigwm rydych yn ei gwybod.	Rhowch flwch o gwmpas y gair.
Mynegwch bob llythyren yn eglur neu gymysgwch nhw'n araf.	Canwch, actiwch neu ddawnsiwch y gair.
Ailadroddwch y camau hyn gyda phob gair arall.	Ysgrifennwch y gair gyda'ch bysedd ar gefn partner.
Ysgrifennwch bob gair sawl gwaith; gwiriwch bob tro.	Ysgrifennwch mewn sialc neu farcwyr lliw; cyfryngau eraill.
	Ailadroddwch y camau hyn gyda phob gair arall.

Cofier y dylai athrawon anelu at ymestyn hoff ddull y dysgwr unigol o ddysgu, ac nid annog eu hoff ddull nhw eu hunain neu gyflwyno popeth drwy'r dull hwnnw.

Edrych ar strwythur geiriau

Pe bai athrawon pob pwnc yn y cwricwlwm yn canolbwyntio eu sylw ar batrymau, strwythur a rhesymeg geiriau, bydd dysgwyr yn magu hyder wrth iddyn nhw sylweddoli y gall dysgu sut i sillafu un gair arwain at allu sillafu llawer mwy, gan fod geiriau'n gysylltiedig a bod patrymau'n cael eu hailadrodd. Byddan nhw hefyd yn dod o hyd i gysylltiadau sy'n ganolog i ddeall pynciau.

Anogwch y dysgwyr i rannu geiriau hir yn adrannau a dewch o hyd i rag-ddodiaid, bonion ac ôl-ddodiaid, a geiriau o fewn geiriau.

Taflen 8.2 (parhad iv)

Rhagddodiaid: grŵp o lythrennau a roddir ar ddechrau gair i newid ei ystyr. Mae angen i ddysgwyr nodi bod y gair 'sylfaenol' yn aros yn union yr un fath. Mae llawer o ragddodiaid a gallai'r rhain – fel bonion ac ôl-ddodiaid – fod yn sail i gasgliad arall yn y dosbarth. Maen nhw'n cynnwys:

Rhagddodiaid	Ystyr	Gair
af-	negyddol	afiach, aflonydd, afresymol
ad-	eto	adennill, adnewyddu, adolygu
ang-	negyddol	anghredadwy, anghyson, angof
ail-	eto	ailadrodd, ailddechrau, ailosod
all-	arall	allforio, allgyfeirio, alltudlo
am-	negyddol/o gwmpas	amharchus, amharod, amhosibl/amgylch
an-	negyddol	anaeddfed, annheg, annheilwng
arch-	prif	archangel, archdderwydd, archesgob
gwrth-	yn erbyn/croes	gwrthdaro, gwrthdystio, gwrthryfel
prif-	prif	prifddinas, prifysgol, priffordd
rhyng-	rhwng	rhyng-gipio, rhyngolegol, rhyngwladol

Rheolau sillafu sylfaenol

Rheolau sillafu yn y Gymraeg

Er bod y Gymraeg yn iaith ffonetig, hynny yw, rydym yn sillafu geiriau fel yr ynganwn nhw, mae rhai trafferthion yn codi wrth sillafu rhai geiriau am wahanol resymau. Byddai'n fuddiol, felly, i roi sylw i rai o'r elfennau canlynol wrth ddysgu a chywiro sillafu yng ngwaith dysgwyr, er enghraifft:

1. Gwahaniaethu rhwng geiriau sy'n cynnwys y llafariad y/u/i

Yn aml mae sŵn y llafariad hyn yn debyg iawn, a rhaid dysgu'r gwahaniaeth rhyngddyn nhw, e.e. 'fyny', 'rhywun', 'canu', 'ci', 'gwely', 'tŷ', 'gweiddi'.

2. Gwahaniaethu rhwng 'f' ac 'ff'

Oherwydd dylanwad y Saesneg, yn aml bydd dysgwyr yn defnyddio un 'f' wrth ysgrifennu rhai geiriau lle mae angen dwy, e.e. 'fair/ffair', 'Fion/Ffion'. Yn yr un modd, gwahaniaethu rhwng **'dd'** ac **'th'**.

3. Enwau unigol a lluosog

Mae sawl ffordd o ffurfio'r lluosog yn y Gymraeg:

- Newid llafariad, e.e. llygad > llygaid.
- Ychwanegu terfyniad, e.e. afal > afalau; esgid > esgidiau; cerdd > cerddi. merch > merched; cath > cathod; creadur > creaduriaid.
- Newid llafariad + ychwanegu terfyniad, e.e. mab > meibion.
- Colli terfyniad unigol, e.e. mochyn > moch.
- Newid llafariad + colli terfyniad unigol, e.e. deilen > dail.
- Rhoi terfyniad lluosog yn lle terfyniad unigol, e.e. cerdyn > cardiau.

Mae rhai enwau gyda'r lluosog yn afreolaidd, e.e. llaw > dwylo; ac enwau efo mwy nag un lluosog, e.e. sant > seintiau/saint; llythyr > llythyrau/llythyron. Mae rhai enwau efo dau lluosog gydag ystyron gwahanol, e.e. pwys > pwysi/pwysau, pryd > prydau/prydiau.

Gweler Uned 6 am wybodaeth am y treigladau.

Nodir yn Uned 6, Taflen 6.3 reolau sillafu sylfaenol sy'n amlwg yn y Gymraeg. Mae rheolau ac arferion eraill y dylid eu dysgu o lyfrau arbenigol ar y pwnc.

Ehangu geirfa

Mae unedau blaenorol wedi trafod eisoes rhai o'r strategaethau fydd yn cynorthwyo dysgwyr i ddatblygu eu geirfa. Y pwysicaf yw sicrhau bod y dysgwr yn cael cyfle i ddarllen amrywiaeth mor gyfoethog ac eang â phosibl, gan drafod geirfa fel rhan reolaidd o'r gwaith darllen hwnnw ac annog dysgwyr i ddefnyddio geiriau newydd yn eu gwaith ysgrifennu eu hunain. Bydd rhai geiriau'n cael eu dysgu'n anffurfiol, o ganlyniad i ailadrodd a diddordeb, ond mae ffyrdd eraill, mwy ffurfiol, o gynaeafu'r geiriau i waith darllen a phrofiadau dysgwyr.

Er enghraifft, os bydd dosbarth yn paratoi i ysgrifennu stori frawychus am ysbrydion, gallen nhw weithio mewn grwpiau i ddarllen enghreifftiau o fath tebyg o ysgrifennu, gan gasglu geirfa ddefnyddiol ac eglur yn ogystal â thechnegau ar gyfer cadw'r darllenwr ar bigau'r drain, a'u cofnodi i'w defnyddio'n ddiweddarach yn eu gwaith ysgrifennu eu hunain. Yn yr un modd, os ydyn nhw yn paratoi i gynhyrchu llyfryn hysbysebu gwyliau, efallai y gallen nhw gasglu enghreifftiau priodol o eirfa a ffurfiau o amrywiaeth o ddeunyddiau a ddadansoddir yn yr ystafell ddosbarth.

Deall geirfa sy'n benodol i bynciau

Mae'r math o drafodaeth a ddisgrifir uchod yn angenrheidiol mewn pynciau eraill yn y cwricwlwm yn ogystal â phynciau iaith penodol. Cyfrifoldeb pob athro/athrawes pwnc yw cyflwyno, esbonio a chyfnerthu'r defnydd o'r eirfa benodol sy'n gysylltiedig â'r pwnc hwnnw. Defnyddir waliau geiriau'n aml i ddangos geirfa o'r fath ond ni fydd y rhain ar eu pen eu hunain yn arwain at y canlyniad dymunol o gynorthwyo dysgwyr i ddefnyddio geiriau'n hyderus. Dim ond ar ôl i'r dysgwyr drafod, ymarfer defnyddio a chydweddu'r geiriau y byddan nhw yn gallu eu defnyddio'n rhydd ac yn effeithiol. Er enghraifft, gallai athro/athrawes daearyddiaeth neu wyddoniaeth gynhyrchu cyfres o ymarferion sy'n gofyn i ddysgwyr ddatblygu eu dealltwriaeth o set o dermau sy'n ymwneud â phwnc penodol trwy eu defnyddio mewn gwahanol ffyrdd:

- labelu map neu ddiagram
- cwblhau ymarfer dull cyfannu
- paru geiriau a diffiniadau
- ysgrifennu eu diffiniadau eu hunain
- creu wal geiriau.

Ni ddylai hyn gymryd mwy na gwerau ond dylai gallu dysgwyr i siarad ac ysgrifennu am bwnc wella.

Taflen 8.4 (parhad)

Adnoddau allanol

Gall ymwelwyr â'r dosbarth ac ymweliadau y tu allan i'r ystafell ddosbarth gynnig llawer o gyfleoedd i ehangu geirfa gwaith dysgwyr. Dylid annog dysgwyr i gofnodi geiriau sydd o ddiddordeb iddyn nhw neu sy'n angenrheidiol ar gyfer gwaith pellach mewn pwnc – mewn llyfr ysgrifennu neu sillafu sy'n gronfa adnoddau bersonol eu hunain.

Tarddiad geiriau

Mae tarddiad geiriau (geirdarddiad) yn berthnasol ac yn bwnc mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ei fwynhau. Gellir ei ehangu i gynnwys gwaith ar eiriau 'benthyg' sydd wedi dod i'r Gymraeg o ieithoedd eraill dros y blynyddoedd, er enghraifft Lladin, Gwyddeleg ac ieithoedd Celtaidd eraill ac yn arbennig y Saesneg.

Er enghraifft, gallai dysgwyr wneud ymchwil am y wlad lle tarddodd y geiriau hynny, chwilio am ragor o enghreifftiau o'r wlad honno a chofnodi eu canfyddiadau ar fap o'r byd. Bydd gan y math hwn o weithgaredd ddiddordeb ychwanegol mewn dosbarth sy'n cynnwys cyfran o ddysgwyr â Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY).

Osgoi'r un hen eiriau

Mae Uned 6, Taflen 6.2, yn cynnwys cyfeiriad at yr angen i osgoi'r geiriau diystyr hynny sy'n aml yn ymgripio i mewn i waith dysgwyr pan nad ydyn nhw'n cael eu herio i ddefnyddio geirfa gywir ac eglur. Dylid annog dysgwyr, er enghraifft, i gasglu:

- geiriau gwell na...
- geiriau ffurfiol/anffurfiol ag ystyr tebyg
- berfau cryf
- ansoddeiriau brawychus

ac ati.

Gellir datblygu casgliadau dosbarth ac unigol.

Defnyddio geiriaduron, thesawrws a deunyddiau cyfeirio

Dylai pob ystafell ddosbarth, mewn ysgol gynradd, arbennig neu uwchradd, fod â detholiad o eiriaduron, thesawrws a deunyddiau cyfeirio priodol – mewn print a/neu ar ffurf electronig – i ddysgwyr eu defnyddio. Mae'r syniad o drefn yr wyddor yn rhywbeth y mae angen ei addysgu'n gynyddol a'i gyfnerthu yn ystod pob cyfnod addysg fel y gall dysgwyr ddefnyddio'r deunyddiau hyn yn effeithiol.

Yn ystod camau cynnar gwaith gyda geiriadur, bydd angen cynnig rhywfaint o gymorth; er enghraifft, trwy roi tair llythyren gyntaf gair i ddysgwyr a gofyn iddyn nhw ddefnyddio geiriadur i ddod o hyd i'r hyn sydd ei angen.

Taflen 8.5

Geiriau amledd uchel

1. yn	21. meddai	41. fy	61. bach	81. ddau
2. i	22. ni	42. beth	62. ben	82. aeth
3. y	23. wrth	43. 'w	63. yma	83. hun
4. 'r	24. nhw	44. na	64. allan	84. lawr
5. 'n	25. un	45. yna	65. hyd	85. wneud
6. o	26. ti	46. e	66. arall	86. hefyd
7. a	27. a	47. at	67. eto	87. os
8. ei	28. fod	48. iddo	68. gyda	88. meddwl
9. ar	29. fel	49. pan	69. gael	89. gweld
10. roedd	30. mi	50. doedd	70. edrych	90. dyna
11. wedi	31. ol	51. hyn	71. lle	91. dros
12. ac	32. bod	52. dy	72. sy	92. erbyn
13. mae	33. fe	53. rhaid	73. weld	93. yno
14. ond	34. gan	54. mam	74. mor	94. bob
15. am	35. mewn	55. cael	75. fi	95. 'u
16. yr	36. dim	56. hynny	76. fynd	96. efo
17. 'i	37. chi	57. 'na	77. fo	97. iddi
18. hi	38. mynd	58. cyn	78. neu	98. dad
19. oedd	39. eu	59. hen	79. dod	99. heb
20. ddim	40. iawn	60. di	80. er	100. ffordd

Hefyd:

Dyddiau'r wythnos
Misoedd y flwyddyn

Rhifau hyd at ugain

- Ein Geiriau Ni – Corpws o Lenyddiaeth Gymraeg i Blant – Y geiriau mwyaf cyffredin (www.egni.org/indexw.htm).

Strategaethau ar gyfer addysgu sillafu Saesneg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg

Addaswyd o Adran 5 *Codi Safonau Sillafu Saesneg mewn Ysgolion Cynradd: Papur Trafod Estyn* (Estyn, 2001).

Mae addysgu sillafu da yn union debyg boed yn Gymraeg neu Saesneg ac mae'n meddu ar lawer o'r nodweddion a grybwyllwyd eisoes. Fodd bynnag, ar ddechrau Blwyddyn 3, mae athrawon effeithiol yn gwybod bod rhai gwallau sillafu cyffredin sy'n digwydd oherwydd bod y dysgwyr yn cymhwyso rheolau y maent wedi'u dysgu yn Gymraeg i'w hiaith newydd, sef Saesneg. Defnyddia athrawon sy'n addysgu sillafu Saesneg yn effeithiol mewn ysgolion Cymraeg y strategaethau canlynol:

- canolbwyntiant ar lythrennau sy'n swinio'n debyg yn Saesneg ac yn Gymraeg, ond sy'n cael eu sillafu mewn ffordd wahanol, e.e. 'th' (fel yn 'the') a 'dd' (fel yn 'ddiwrnod'), 'f' (fel yn 'feet') a 'ff' (fel yn 'ffrind')
- cyflwynant batrymau ac odlau wrth sillafu yn Saesneg gan eu cymharu â'r ffordd y sillefir geiriau yn Gymraeg yr ymddengys eu bod yn odli hefyd, e.e. 'hide', 'side', 'ride', 'tide' yn Saesneg a 'paid', 'rhaid', 'taid' yn Gymraeg
- cyflwynant eiriau am yr un peth i'r dysgwyr sy'n wahanol yng Ngogledd a De Cymru, e.e. 'llaeth/llefrith', 'gwdihw/tylluan', 'gyda/efo' a 'merch/hogan'; mae hyn er mwyn rhybuddio'r dysgwyr i edrych am wahaniaethau a thebygrwydd mewn iaith o oedran cynnar ac i'w helpu i wrando ar y gwahaniaethau rhwng ieithoedd sy'n hollol wahanol, fel Cymraeg a Saesneg
- maent yn ymwybodol o'r posibilrwydd y gall gwaith sillafu'r dysgwyr yn Gymraeg a Saesneg ymyrryd â'i gilydd yn ystod blynyddoedd olaf Cyfnod Allweddol 2, pan fydd y dysgwyr wedi dod yn sillafwyr llawer mwy cymwys yn Saesneg; mae'r athrawon yn parhau i ganolbwyntio ar y gwahaniaethau rhwng y ddwy iaith, e.e. 'I'd' yn Saesneg ac 'i'r' yn Gymraeg lle mae llawer o ddysgwyr yn defnyddio'r briflythyren 'I' yn y ddwy iaith.

Mae dwyieithrwydd yn aml yn gwneud i ddysgwyr ddod yn ymwybodol o ieithoedd a gall hyn helpu'u sillafa yn y tymor canol a hir.

Ar y cyfan, yn sgîl dysgu dwy iaith ar yr un pryd o fewn cyd-destun dwyieithog, mae dysgwyr yn aml yn sensitif i strwythur a chynnwys iaith. Caiff yr ymwybyddiaeth hon o iaith effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth y dysgwyr o'r ddwy system sillafu.





Uned 9: Technegau ysgrifennu: ysgrifennu i greu effaith

Uned 9

Technegau ysgrifennu: ysgrifennu i greu effaith

Nod: Archwilio gwahanol dechnegau ysgrifennu y gallai dysgwyr eu defnyddio.

Amser: 1½ i 2 awr

Paratoi: Darllenwch drwy'r uned gyfan ac ymgylfarwyddo â'i chynnwys.

Adnoddau: Copïau o Daflenni 9.1 i 9.4 ar gyfer pob aelod o'r grŵp.

Crynodeb o'r tasgau

Tasg 1: Nodweddion arddull

Tasg 2: Nodweddion trefn a chyflwyniad

Tasg 3: Cyhoeddi

Cyflwyniad

Mae awduron yn dewis ac yn defnyddio dulliau ieithyddol ac argraffu'n fwriadol i gynyddu effaith, neu i ddylanwadu ar gynulleidfaoedd penodol. Maen nhw'n dewis o blith y rhain yn dibynnu ar ddiben eu gwaith ysgrifennu ac anghenion eu cynulleidfa.

Tasg 1

Nodweddion arddull

Mae gwaith ysgrifennu effeithiol yn cael ei lunio gan yr awdur i greu effeithiau penodol. Er enghraifft, mae angen i awdur ganolbwyntio ar:

- eglurder a threfn gywir mewn gwaith ysgrifennu cyfarwyddiadol
- arddull syml a ffurfiol mewn adroddiad ar gyfarfod
- iaith ddisgrifiadol, gyflym ac weithiau emosiynol mewn naratif
- iaith ddarbwyllol ac weithiau rhethregol neu emosiynol mewn darn darbwyllo
- iaith anemosiynol, rhesymegol ac achosol mewn erthygl amleiriog ddifrifol
- dulliau barddonol mewn cerddi, dramâu a gwaith llenyddol – a rhai ffurfiau anllenyddol.

Mewn parau, edrychwch ar Daflen 9.1, sy'n darparu rhai enghreifftiau o wahanol fathau o ysgrifennu. Amlygwch feysydd o ddiddordeb a thrafodwch y math o nodweddion arddulliadol a ddefnyddir ynddyn nhw. Enwch gymaint ohonyn nhw â phosibl.

Os oes angen, cyfeiriwch at y rhestr o nodweddion arddulliadol a gymerwyd o Atodiad 1 – gweler Taflen 9.2. Os oes unrhyw rai ohonyn nhw'n anghyfarwydd i aelodau'r grŵp, esboniwch a thrafodwch nhw.

Cymerwch tua 40 munud.

Fel grŵp, trafodwch pa nodweddion y gallech ddisgwyl eu gweld yng ngwaith ysgrifennu eich dysgwyr a'r ffyrdd gorau o addysgu sut i'w defnyddio. Bydd hyn yn amrywio rhwng gwahanol gamau a chyfnodau a dylech ystyried yr hyn fyddai'n fwyaf priodol i grwpiau oedran penodol. Pa fath o gynnydd fyddai'n briodol a beth yw goblygiadau'r safbwynt hwn o ran cynnydd ar gyfer y cyfnod pontio rhwng dosbarthiadau ac ysgolion?

Mae Taflen 9.3 yn darparu rhai sylwadau ac awgrymiadau i'w defnyddio ar ôl y drafodaeth gychwynnol.

Cymerwch 15 munud arall.

Tasg 2

Nodweddion trefn a chyflwyniad

Mae Uned 4, Tasg 4 yn ystyried ysgrifennu mewn gwahanol ffurfiau ar gyfer gwahanol ddibenion a chynulleidfaoedd, a'r angen i ganfod rhesymau gwirioneddol am ysgrifennu. Mae rhestr o gyfleoedd o'r fath wedi'i chynnwys ar Daflen 4.6.

Mae'r uned hon, Uned 9, yn canolbwyntio ar y penderfyniadau dilynol mae angen i ddysgwyr eu gwneud am y ffordd y bydd gwaith ysgrifennu'n cael ei drefnu a'i gyflwyno. Bydd angen i ddysgwyr fod yn gyfarwydd â nodweddion gwahanol destunau sy'n eu cynorthwyo i gyflawni eu diben, sef gwybod, er enghraifft, bod:

- naratif yn cael ei drefnu'n baragraffau
- rhai erthyglau mewn colofnau
- papurau newydd yn defnyddio penawdau i amlygu negeseuon allweddol
- y rhan fwyaf o daflenni a llawer o lyfrau gwybodaeth yn cymysgu blociau o destun â delweddau a diagramau neu fapiau a'u bod weithiau'n defnyddio is-benawdau yn y testun.

Mae dulliau trefnu o'r fath yn creu heriau i'r darllenydd ond maen nhw hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdur wneud penderfyniadau cyfatebol wrth 'gyhoeddi' eu gwaith ysgrifennu eu hunain.

Fel grŵp, ystyriwch y ffyrdd y trefnir gwahanol destunau a'r amrywiaeth o nodweddion sy'n ymwneud â threfn a chyflwyniad mae angen i ddysgwyr fod yn gyfarwydd â nhw. Gallai'r testunau ar Daflen 9.1 fod yn fan cychwyn defnyddiol. Rhestrwch y nodweddion a'r sgiliau sy'n ofynnol, a phenderfynwch ar y ffordd orau o'u haddysgu a:

- pha ffurfiau ysgrifennu
- pa bynciau o'r cwricwlwm

fyddai'n darparu'r cyd-destunau mwyaf priodol ar gyfer eu datblygu a'u defnyddio.

Mae Taflen 9.3 yn darparu rhestr rannol i'w defnyddio os oes angen.

Trwy gydol y ddogfen hon, nodwyd bod modelu ysgrifennu'n ffordd bwysig iawn o addysgu ysgrifennu ac mae hyn yn berthnasol i bob maes pwnc. Trafodwch gyda'r athrawon pa un fyddai'n ddefnyddiol ac yn bosibl i'ch ysgol(ion) ddatblygu banc o fodelau ysgrifennu – sy'n dangos tasgau o bob pwnc yn y cwricwlwm yn ddelfrydol – er enghraifft, ailadroddiad hanesyddol, adroddiad o faes gwyddoniaeth, arolwg o ABCh, cyfres o reolau o addysg gorfforol, bywgraffiad o faes cerddoriaeth neu gelf, esboniad o broblem fathemategol. Sut gellid trefnu adnodd o'r fath? A allai fod yn rhan o'r portffolio o dystiolaeth sydd eisoes wedi'i sefydlu neu y bwriedir ei ddatblygu fel rhan o gymedroli pynciau mewn ysgolion uwchradd? Mae enghreifftiau o'r fath eisoes yn bodoli yn y canllawiau pwnc a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â'r cwricwlwm diwygiedig. Ydy'r rhain eisoes yn rhan o bortffolios eich ysgol? A ellid datblygu'r arferion gwaith fel bod yr ysgol gyfan yn eu defnyddio fel deunyddiau enghreifftiol?

Cymerwch tua 25 munud.

Tasg 3

Cyhoeddi

Ar ôl mynd drwy'r broses ysgrifennu, fel y disgrifir yn Uned 4, bydd dysgwyr yn barod i gyhoeddi eu gwaith gorffenedig. Bydd yn rhaid iddyn nhw wneud nifer o benderfyniadau ynglŷn â fersiwn derfynol eu gwaith ysgrifennu.

Yn gyflym, fel grŵp, rhestrwch y penderfyniadau hyn. Darperir rhestr 'gychwyn' ar Daflen 9.4.

Yna, ystyriwch gyda'ch gilydd y ffordd orau o gynorthwyo dysgwyr i gyflawni'r hyn y maen nhw'n bwriadu ei wneud ar gyfer cyhoeddi. Os ydyn nhw am ddefnyddio TGCh, pwy yn eich ysgol(ion) sydd â'r sgiliau perthnasol i'w cynorthwyo? Ydy pob athro/athrawes yn gymwys a hyderus i gynghori a dangos y sgiliau angenrheidiol? Ydy'r offer angenrheidiol ar gael? Ydy'r adnoddau sydd ar gael yn ffactor sy'n cyfyngu ar ddysgwyr? Os felly, sut gellid datrys hyn?

Gallai'r atebion i rai o'r cwestiynau hyn amlygu bylchau yn y ddarpariaeth ac yng ngwybodaeth ac arbenigedd athrawon. Mae angen i chi, fel arweinydd y grŵp, sicrhau bod hyn yn cael ei gofnodi ac, os yw'n bosibl, bod rhai atebion yn cael eu hawgrymu ac y gwneir rhywfaint o waith dilynol i wella'r sefyllfa.

Cymerwch tua 20 munud.

Taflen 9.1

Enghreifftiau allan o Codi Safonau *Llythrennedd: Datblygu Ysgrifennu Ffeithiol*, Rhaglen Genedlaethol Hyfforddiant Mewn-swydd y Gymraeg, Agweddau ar Addysgu'r Gymraeg, Cyfnod Allweddol 2 (CBAC, 2005)

1. Adroddiad (tud 17)

Pengwiniaid

Adar y môr sy'n methu hedfan yw'r pengwiniaid ac mae tua phymtheg math neu rywogaeth ohonynt.

Mae gan bob math gefnau o liw tywyll a bronnau gwyn. Plu byr trwchus sydd ganddyn nhw ond mae gan rai o'r rhywogaethau grib o blu hir ar eu pennau a thwffftiau o blu lliwgar ar eu gyddfau. Yn debyg i fwyafrif o adar y môr, mae ganddynt draed gweog.

O dan eu crwyn, mae gan y pengwiniaid haenen o fraster i'w gwarchod rhag y tywydd oer.

Mae'r pengwin mwyaf, sef y pengwin ymerodrol, dros 1m o daldra. Dim ond tua 40cm o uchder yw'r math lleiaf.

Mae'r pengwin yn treulio'r rhan fwyaf o'i amser yn y môr. Maen nhw'n nofio a phlymio'n gyflym a medrus. Maen nhw'n dal ac yn bwyta pysgod, cril ac ystifflogod. Ar adegau penodol o'r flwyddyn maen nhw'n dod i'r lan i baru ac i fagu.

Mae'r rhan fwyaf o'r pengwiniaid yn gwneud nythod ar y ddaear neu yn y glaswellt, tra bydd rhai yn dodwy eu hwyau mewn twneli. Un yn unig mae'r pengwin ymerodrol benywaidd yn ei ddodwy ac yna mae'r gwryw yn ei gadw'n gynnes trwy ei ddal ar ei draed o dan haenau o groen.

Mae rhai pengwiniaid mewn perygl. Mae llygredd yn niweidio eu hamgylchedd ac mae'r fflydoedd o gychod pysgota yn dal eu bwyd.

Taflen 9.1 (parhad i)

2. Rhoi cyfarwyddiadau – Enghraifft o waith dysgwr (tud 24)

Rysait Gwneud Ffroes

Cynhwysion

4 owns o flawd plaen

ychydig bach o halen

2 wy mawr

7 owns o lath wedi cymysgu gyda 3 owns o ddŵr

2 llwy fwrdd o fenyn wedi toddi, ac ychydig mwy o fenyn i goginio'r ffroes

Yn gyntaf, rhowch y blawd mewn bowlen fawr. Yna gwnewch dwll yng nghanol y blawd a torrwyd yr wyau mewn i'r bowlen. Curwch y blawd a'r wyau, a gofalu'r gasglu'r darnau sydd ar ochr y fowlen gyda llwy.

Nesaf, arllwyswch ychydig o'r llaeth a'r dŵr i mewn i'r bowlen, yn para i guro'r gymysgedd. Peidiwch â gofidio os oes darnau ynddo oherwydd byddan nhw yn diflannu cyn bo hir.

Wedyn, ar ôl curo'r llaeth a'r dŵr mewn i'r cymysgedd, ewch â spatula rwber rownd yr ochrau i grafu'r blawd sydd wedi'i gasglu yno mewn i'r gymysgedd. I orffen, curwch y cyteu unwaith eto i gael ansawdd dda.

Ar ôl hynny, pan fyddwch yn barod i goginio'r ffroes, rhowch ddwy lwy fwrdd o fenyn mewn i'r cyteu a'i gymysgu nes mae wedi diflannu. Yna rhowch tua un llwy fwrdd o fenyn mewn i'r ffrwmpan nes bod y ffrwmpan yn seimllyd.

Nesaf, rydych yn rhoi tua 1 llwy fwrdd o'r cyteu mewn i'r ffrwmpan, wedyn ysgwydwch y ffrwmpan nes mae'r cyteu yn llenwi'r gwaelod. Pan mae'r ffroes yn frown, trowch e drosodd pan mae hwnna'n frown, rhowch nhw ar blât yn barod i fwyta.

Taflen 9.1 (parhad ii)

3. Perswadio (tud 37)

Dewch i ymweld ag Aberbraf

Dewch i ymweld ag Aberbraf, y man gorau posib i gael gwyliau bendigedig.

Saif Aberbraf rhyw hanner ffordd rhwng Caerisa a Chaerucha a thua hanner milltir o'r arfordir. Mae'r wlad o gwmpas yn hyfryd gyda dolydd gwyrddion yn ymestyn am filltiroedd ar lan afon Braf. Yma, ar hyd y llwybrau cyhoeddus, cewch ddewis o fannau bendigedig i gerdded mewn tawelwch ac i fwynhau'r golygfeydd godidog.

Ar yr arfordir ceir sawl pentref bach glan môr sy'n eithriadol o hardd. Mae nofio yn y môr yn hollol ddiogel a chewch ddewis o draethau eang gwastad gyda digon o fannau diogel i chwarae. O ganlyniad i'r safon uchel a geir yno, mae traeth y Twmp wedi ennill gwobr y Faner Las am yr ail flwyddyn yn olynol. Hefyd, cewch ddewis da o dai bwyta bendigedig sy'n rhagori ar bysgod ffres o'r môr.

Cofiwch ymweld â thre Aberbraf oherwydd mae'n lle â chymeriad arbennig iawn gyda nifer o atyniadau hanesyddol. Yn ogystal â'r hen ran o'r dre ceir dewis eang o siopau bach a mawr i ddenu pobl a phlant o bob oed. Gyda'r hwyr mae dewis o dai bwyta diddorol a rhesymol yn ogystal â sinema newydd. Felly mae digon i'w wneud yn y dydd a'r nos yn y dref.

Hefyd, ar gyrion y dref mae canolfan hamdden heb ei hail sydd â phwll nofio, campfa, cwrt sboncen a neuadd sy'n cynnal gwersi o bob math ar gyfer y plant. Felly, mae'n siwr o'ch denu gan fod digon o weithgareddau wedi eu trefnu yn ogystal â chaffi i gael lluniaeth ac i ymlacio.

Y farn yw mai Aberbraf yw un o'r aradaloedd harddaf, mwyaf atyniadaol yn Ne Cymru gan fod cymaint yno i'w gynnig i blant a phobl o bob oed beth bynnag yw eu diddordebau. Felly, dewch yn llw i Aberbraf!

Taflen 9.1 (parhad iii)

4. Dwyn i gof (tud 28)

Trip i'r Ardd Fotaneg

Aeth ein dosbarth ni ar drip i'r Ardd Fotaneg dydd Gwener, Ebrill 20 fel rhan o'n prosiect gwyddoniaeth. Mae'r Ardd Fotaneg yn Llanarthne, felly roedd rhaid i ni fynd mewn bws.

Yn gyntaf roedd rhaid i ni gwrdd tu fas i'r ysgol am naw o'r gloch. Roedd rhaid i bawb ddod â brechdanau i ginio a chôt law. Gadawodd y bws yn brydlon a chymerodd y siwrnai tua un awr.

Wedi gadael y bws cawsom ein rhannu i dri grŵp wrth y fynedfa. Roeddwn i a Bethan yng ngrŵp Mr. Ifans.

I gychwyn aeth ein grŵp ni i'r dde tuag at y llyn. Buom yn cael hwyl yn dal penbyliaiad a chawsom weld lluniau lliw ar gylch bywyd y broga. Roedd Miss Griffiths, sy'n gweithio yn yr Ardd, yn egluro wrth ddangos y lluniau, a bu rhaid i ni lanw holiadur ar y diwedd.

Yna, aethom i fyny'r rhiw serth a chawsom gyfle i weld yr olygfa odidog o'n cwmpas gan gynnwys Tŵr Paxton ac adfeilion Castell Dryslwyn ar fryncyn yn y pellter.

Erbyn hyn roedd hi'n amser cinio a chawsom eistedd ar y lawnt i gael ein picnic. Cefais frechdanau ffowlyn, afal a sudd oren. Cawsom hwyl a chyfle i gael tipyn o sbort yn ystod yr hanner awr yma, a chyfle i'r athrawon gael hoe fach.

Wedyn aethom i'r tŷ gwydr anferth i weld planhigion rhyfedd o wledydd y byd. Dyma dŷ gwydr un-bwa mwya'r byd. Roedd yn anhygoel. Wedi cerdded o gwmpas y tŷ gwydr a dysgu tipyn am nifer o'r planhigion, aethom i'r ystafell ddosbarth i weld fideo ar sut mae planhigion yn tyfu o hedyn. Roedd hyn yn ddiddorol iawn.

Yn olaf, aethom i ystafell "Meddygon Myddfai" i gael hanes sut roedd pobl ers slawer dydd yn defnyddio planhigion i wneud moddion. Hefyd, gwelsom rai o'r offer oedd yn arfer cael eu defnyddio i wella pobl. Cefais fy synnu gan rai ohonynt. Roedden nhw'n fy atgoffa i o siop y cigydd!

Dysgais lawer yn ystod y dydd ac roedd pawb o'r dosbarth wedi mwynhau'n fawr.

Taflen 9.1 (parhad iv)

5. Trafod (tud 50)

A ddylai plant gael gwaith cartref?

Mae Llywodraethwyr yr ysgol yn credu y dylai plant oed cynradd wneud o leiaf hanner awr o waith cartref bob nos.

Mae llawer o bobl yn tueddu i gytuno â hyn am eu bod yn credu y byddai mwy o waith cartref yn gwella gwaith ysgol plant. Mae ar rai plant angen ymarfer eu darllen neu ddysgu eu tablau. Pe gwnânt hyn gartref byddai eu gwaith yn yr ysgol yn gwella. Mae lolo Jones, Pennaeth Ysgol Gynradd Crawia'n dweud i safonau llythrennedd a rhifedd godi yn ei ysgol ers i bob athro/athrawes osod gwaith cartref yn rheolaidd. Honna'r bobl hyn fod plant yn elwa o ran eu hyder am eu bod wedi dysgu pethau'n dda gartref a'u bod yn dysgu i fod yn fwy trefnus ac yn gwylio llai o deledu fin nos. Yn ogystal, mae ymgymryd â gwaith cartref yn yr ysgol gynradd yn helpu plant i ymdopi â bywyd ysgol uwchradd pan fyddan nhw'n trosglwyddo o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7.

Fodd bynnag, mae dadleuon cryf yn erbyn y farn uchod. Yn gyntaf, mae plant yn ymwneud â llawer o weithgareddau gwerth chweil gartref. Er enghraifft, mae llawer o blant oed cynradd yn cymryd rhan mewn chwaraeon, yn cael gwersi offerynnau cerdd ac yn mynychu clybiau megis Yr Urdd ac ati. Nodwyd bod aelodaeth Yr Urdd a chlybiau drama wedi cynyddu dros 30% yng Nghymru yn y pum mlynedd diwethaf. Yn ogsytal â hyn oll, mae plant yn gweithio'n galed yn yr ysgol ac erbyn diwedd y dydd maen nhw wedi llwyr ymlâdd. Dylen nhw gael rhwydd hynt fin nos i ymlacio neu ymgymryd â'u hobiau a'u diddordebau.

Taflen 9.1 (parhad v)

6. Esbonio (tud 43)

Yr Enfys

Mae'n siwr fod pob un ohonoch chi wedi gweld enfys rywdro.
Ydych chi wedi meddwl pam mae'r enfys i'w gweld weithiau a ddim dro arall?
Cyn y medrwch chi weld enfys rhaid i chi gael dau beth – goleuni a glaw.
Mae goleuni'r haul yn edrych yn wyn.
Ond cymysgedd o liwiau ydy o.
Pan fydd y goleuni hwn yn tywynnu ar rywbeth mae'n cael ei blygu.
Mae o'n cael ei dorri yn wahanol liwiau.

Pan fydd pelydryn o oleuni'r haul yn taro yn erbyn diferyn o law, mae'r goleuni'n cael ei dorri yn nifer o liwiau gwahanol.
Mae'r diferyn fel drych.
Mae o'n adlewyrchu'r lliwiau.
Dyna pam rydyn ni'n gweld y lliwiau hyn.
Dyna'n union sy'n digwydd i oleuni'r haul pan fydd yn dod yn erbyn y diferyn glaw.

Ond wrth gwrs nid un diferyn o law sy'n disgyn ar y tro, ond miloedd.
Ac felly, os sefwch chi rhwng yr haul a'r diferion glaw, fe welwch fwa'r enfys.
Sylwch yn fanwl ar fwa'r enfys.
Ar yr ochr allan fel welwch liw coch.
Yna daw oren, melyn, gwyrdd, glas, indigo a fioled.
Mae yna air am y saith lliw yma.
Y gair ydy sbectrwm.

Taflen 9.2

Gwerthfawrogi deunyddiau anllenyddol

Elfennau arddull mewn deunyddiau anllenyddol	
Y math o dechneg	Rhai awgrymiadau am effaith y dechneg
Cwestiwn rhethregol	Y dechneg yn cael ei defnyddio i sicrhau gwrandawriad/i bwysleisio mai dyma'r ateb cywir, e.e. 'Ydyn ni'n mynd i gael ein twyllo gan yr honiadau ffals yma?'.
Iaith emosiynol	Os yw awdur yn ceisio perswadio darllenydd i gredu rhywbeth, bydd o bosibl yn defnyddio iaith emosiynol iawn – gall naill ai fod yn amlwg iawn neu'n eithaf cynnil a chudd. Os yw awdur yn pledio am arian neu gymorth, gall geisio chwarae ag emosiynau darllenwyr er mwyn cyrraedd nod arbennig, e.e. gofyn am arian adeg trychineb. Mae awduron yn defnyddio geiriau i effaith, e.e. mae gwahaniaeth mawr rhwng y tri gair yma i ddisgrifio pobl mewn tyrfa: 'mob', 'giang', 'criw o bobl'.
Iaith yn cynnwys gwybodaeth dechnegol	Os yw awdur eisiau addysgu neu gyflwyno gwybodaeth, bydd yn aml yn defnyddio termau technegol ac iaith arbenigol.
Iaith sy'n addas i'r gynulleidfa	Dylid trafod a yw'r iaith yn addas i'r darllenwyr, e.e. os mai dysgwyr yn yr ysgol gynradd yw'r gynulleidfa fe ddylai'r iaith fod yn uniongyrchol a chymharol syml. Gall awduron naill ai ddefnyddio'r ail berson unigol 'Wyt ti'n gwybod?' neu'r trydydd person lluosog 'Ydych chi'n gwybod?'. Dylid edrych am elfennau o dafodiaith mewn darn a thrafod a ydy defnyddio tafodiaith yn bwrpasol.
Geiriau unsill	Mae'n dueddiad i rai testunau anllenyddol (poster neu hysbyseb) gynnwys geiriau unsill ac nid rhai lluosillafog gan fod yr awdur eisiau i'r dweud fod yn gyflym ac yn sionc.
Tan ddweud/lleihad/meiosis	Bydd yr awdur yn dweud llai nag a feddylir er mwyn creu rhyw effaith, e.e. 'Tyrd am damaid o fwyd' lle golygir 'Tyrd am bryd o fwyd'. Y dechneg hefyd yn cael ei defnyddio i dynnu sylw neu i fod yn eironig, e.e. 'Hwyrach y bydd rhai pobl ifanc dan ddeunaw yn mynd i dafarndai dros y penwythnos'.

Taflen 9.2 (parhad i)

Elfennau arddull mewn deunyddiau anllenyddol	
Y math o dechneg	Rhai awgrymiadau am effaith y dechneg
Gor-ddweud/Gormodiaith	Y dechneg yn cael ei defnyddio i godi gwrychyn pobl neu i fod yn holl wybodus, e.e. 'Mae miliynau o blant yn troi at eu cyfrifiaduron a dydyn nhw ddim yn sgwrsio â neb weddill y nos'.
Trefn	Os yw awdur yn rhoi cyfarwyddiadau ar sut i wneud rhywbeth bydd yn rhaid i'r cyfarwyddiadau ddilyn trefn resymegol ac nid neidio o un lle i'r llall yn ddi-drefn.
Gwrthgyferbynnu dau beth	Y dechneg yn cael ei defnyddio i gymharu deubeth fel y gall y gynulleidfa dynnu casgliadau.
Dyfyniad/sgwrs â phobl/ vox pop	Y dechneg yn cael ei defnyddio i fywiocau'r naratif neu i ddod ag arbenigedd i'r testun, e.e. gwyddonydd yn esbonio arbrawf. Gellir defnyddio'r dechneg hon mewn adroddiad ar y newyddion er mwyn i'r darlennydd gydymdeimlo, e.e. rhywun yn siarad sydd wedi bod yn dyst i ddamwain.
Ffaith a barn	<p>Mae'n bwysig gallu gwahaniaethu rhwng ffaith a barn. Gall ffeithiau fachu sylw'r gynulleidfa a'u haddysgu a gall barn awdur hel pobl i feddwl yn ddyfnach am bynciau ac achosi trafodaeth. Bydd y gynulleidfa naill ai'n cytuno neu'n anghytuno â'r farn honno.</p> <p>Bydd yn rhaid ystyried ydy'r farn mewn testun yn gytbwys ac a ydy awdur yn rhoi dwy ochr o'r ddadl. Dylid ystyried hefyd oes yna ffeithiau i gefnogi'r farn.</p>
Defnydd o lun/ffotograff	Mae rhai lluniau yn gallu bod yn emosiynol iawn, e.e. lluniau o fabis bach neu dlodi. Gall llun hefyd gyflwyno gwybodaeth mewn ffordd uniongyrchol, e.e. mewn cyfarwyddiadau ar sut i wneud rhywbeth. Bydd ffotograff yn 'real' ac yn darlunio bywyd go iawn. Mae llun yn gallu ychwanegu at y testun gan fod y darlennydd yn gallu 'darllen' y llun yn ogystal ond os yw'r llun yn anaddas neu'n amherthnasol yna gall dynnu sylw oddi wrth y testun ysgrifenedig.
Defnydd o gartŵn	Bydd awduron yn aml yn defnyddio cartwnau i ysgafnhau'r testun a chyflwyno hiwmor ond gall rhai cartwnau fod yn grafog ac yn eironig.

Taflen 9.2 (parhad ii)

Elfennau arddull mewn deunyddiau anllenyddol	
Y math o dechneg	Rhai awgrymiadau am effaith y dechneg
Defnydd o dablau, diagramau, mapiau	Yn aml bydd y rhain yn torri ar draws y testun ac yn gwneud i'r darn cyfan fod yn fwy diddorol ac yn haws i'w ddarllen. Bydd y cynnwys hefyd yn cynnig gwybodaeth mewn ffordd weledol i'r darllenydd. Gall rhai diagramau a thablau, serch hynny, fod yn or-gymhleth a bydd darllenydd yn colli diddordeb yn y cynnwys.
Datganiad	Bydd awduron yn aml yn defnyddio'r rhain ar ddechrau'r testun (datganiad agoriadol) i dynnu sylw, e.e. 'Rhaid concro problem cyffuriau' cyn mynd ymlaen i ymhelaethu.
Defnydd o wrtheiriad/oxymoron	Bydd awduron yn defnyddio dau air sydd yn golygu pethau sy'n hollol groes i'w gilydd er mwyn tynnu sylw, e.e. 'fe brysurodd y dyn yn araf'. Mae rhai gwrtheiriau yn rhan o'n hiaith ni erbyn hyn heb i ni sylwi arnyn nhw, e.e. 'daeth tyrfa fechan', 'enillodd hi ffortiwn fach ar y loteri'.
Diweddsglo/canlyniad	Bydd awduron yn defnyddio brawddegau allweddol ran amlaf i ddod â'r ysgrifennu i fwcl.
Pennawd/Is-bennawd	Bydd pennawd yn dangos yn glir beth sydd yn mynd i gael ei drafod yn yr adran dan sylw.
Chwarae ar eiriau/geiriau mwys	Bydd hysbysebion yn aml yn defnyddio geiriau sy'n debyg i'w gilydd fel penawdau neu i greu ysgafnder.
Y defnydd o ffont a'r defnydd o brint trwm	Bydd dewis yr awdur o ffont yn gallu bod yn fwriadol. Mae'r ffont <i>Lucinda</i> , e.e. yn gallu bod yn agos atoch chi, eraill, e.e. <i>Tempus</i> neu Ravie yn gallu bod yn blentynnaidd tra bod eraill fel Old English yn gallu ymddangos yn hen-ffasiwn. Mae awduron yn defnyddio print trwm i bwysleisio a thynnu sylw at bethau pwysig yn y testun. Gall maint y ffont a lliw y ffont hefyd effeithio ar y testun.

Taflen 9.2 (parhad iii)

Elfennau arddull mewn deunyddiau anllenyddol	
Y math o dechneg	Rhai awgrymiadau am effaith y dechneg
Lliw	Efallai y bydd awdur yn defnyddio lliwiau llachar i dynnu sylw ond bydd eraill yn defnyddio lliwiau tawel i greu darlun heddychlon. Bydd awdur yn defnyddio'r lliw coch er enghraifft i ddangos bod yna elfen o berygl a chwarae â'r syniad ei fod yn lliw gwaed. Gall coch hefyd ddynodi 'cariad', e.e. ar garden Santes Dwynwen.
Defnydd o ferfau	Mae ambell ffurf, e.e. cyfarwyddiadau, yn mynd i gynnwys llawer o ferfau yn y gorchmynnol, e.e. 'gwthiwch', 'plygwch' ond bydd adroddiad o bosibl yn cynnwys llawer o ferfau amhersonol yn y gorffennol, e.e. 'gwelwyd', 'nodwyd'.
Defnydd o ragenwau	Bydd areithiau yn defnyddio llawer o ragenwau yn yr ail Berson lluosog, e.e. ' Chi yw'r dyfodol. Yn eich dwylo chi y mae Cymru a dim ond y chi all ei hachub'. Gall defnyddio rhagenwau yn y person cyntaf lluosog fod yn effeithiol hefyd oherwydd yma mae'r awdur yn cynnwys y gynulleidfa yn ei ddadleuon, e.e. ' Ein cyfrifioldeb ni yw hyn i gyd ac mae'n rhaid i ni lwyddo'.
Defnydd o ebycheiriau	Bydd awdur yn defnyddio ebycheiriau i ddangos syndod, boddhad neu ddangos trueni dros rhywun, e.e. 'O bechod!' neu 'Ych a fi!'.
Logos	Bydd cwmnïau yn aml yn rhoi lluniau o logos ar waelod taflen, e.e. i ddangos bod llawer o bobl eraill yn cytuno â nhw neu wedi cyfrannu arian tuag at rhyw achos da arbennig.
Gwneud defnydd o 'ddyfynnu' i bwysleisio	Gall awdur bwysleisio a thynnu sylw at air drwy roi dyfyniadau o'i amgylch, e.e. 'bydd hi'n 'Amen' ar y lle yma'.
Personoli	Bydd yr awdur yn defnyddio nodweddion dynol, e.e. 'Roedd gwell hwyliau ar y farchnad stoc yr wythnos hon ar ôl iddi gael annwyd go drwm yr wythnos ddiwethaf'.
Sloganau	Mae 'slogan' yn ffordd o dynnu sylw pobl – ran amlaf mae'n fyr, yn fachog ac yn gofiadwy.
Defnydd o acronymau, e.e. TGAU, UCAC	Bydd rhai darnau yn rhy ddibynnol ar acronymau nes troi'n rhy gymhleth i'r darllenydd.

Taflen 9.2 (parhad iv)

Elfennau arddull mewn deunyddiau anllenyddol	
Y math o dechneg	Rhai awgrymiadau am effaith y dechneg
Defnydd o glos	Bydd ambell awdur angen egluro neu esbonio ambell beth a bydd ambell waith yn gwneud nodiadau ar ymyl y dudalen neu ar waelod y dudalen. Fe welwch chi rai cwmnïau yn gwneud hyn os ydyn nhw'n cynnig gwobr am gystadleuaeth, e.e. 'Byddan nhw yn rhoi seren wrth ymyl y dudalen ac yn nodi <i>*rhaid i chi fod yn ddeunaw oed i gystadlu</i> ar waelod y dudalen'.
Defnydd o gysyllteiriau	Mewn testunau anllenyddol, yn enwedig rhai sy'n esbonio, defnyddir llawer o gysyllteiriau fel 'ac' 'yna' 'wedyn' fel bod brawddegau yn llifo i'w gilydd yn naturiol.
Ailadrodd	Gwneir hyn i atgyfnerthu'r hyn sydd wedi ei ddweud eisoes – gall ambell air neu syniad gael ei ailadrodd. Bydd yn rhaid i'r darllenydd ddod i gasgliad a yw'n effeithiol neu'n llafurus ac yn ddiddiwedd, e.e. 'Mae gen i freuddwyd, breuddwyd y bydd meibion a merched cyn gaethweision yn eistedd gyda meibion a merched y cyn feistri wrth fwrdd dynoliaeth' (Rhan o araith Martin Luther King).
Defnydd o 'driawd'	Yn aml bydd awdur yn defnyddio datganiadau neu ddisgrifiad mewn 'triawd', e.e. 'Dydy e ddim yn synhwyrol, dydy e ddim yn gyfiawn a dydy e ddim yn deg'.
Naws/tôn	Ambell waith bydd naws darn yn 'agos atoch' neu bydd y naws yn ffurfiol iawn. Gall y naws fod yn ymwithiol, yn ymosodol, yn ddifyr neu fe all fod yn drist neu'n drasig. Os yw awdur yn credu'n gryf yn yr hyn mae'n ei ddweud, e.e. araith 'Tynged yr iaith' gan Saunders Lewis, bydd tôn yr iaith yn angerddol.
Defnydd o hiwmor – coegni	Gall awdur wneud hyn i ysgafnhau'r mynegiant.
Ebychnodau	Mae 'marciau syndod' yn gallu creu naws ysgafn ond mae posibl i'r awdur ddefnyddio gormod ohonyn nhw ar adegau a bydd yr effaith yn lleihau o'r herwydd!!!
Defnydd o ddywediadau/jôcs/diarhebion	Yn aml fe ddefnyddir dywediadau adnabyddus fel 'mae sawl ffordd o gael Wil i'w wely' fel bod y darllenydd yn teimlo'n gartrefol. Bydd rhai awduron yn dyfynnu o'r Beibl – gall wneud y testun yn fwy 'parchus' ac apelio at garfan arbennig o ddarllenwyr.

Taflen 9.2 (parhad v)

Elfennau arddull mewn deunyddiau anllenyddol	
Y math o dechneg	Rhai awgrymiadau am effaith y dechneg
Pwyntiau bwled	Yn aml mae'r darllenydd yn gallu deall testun yn well wrth ddarllen pwyntiau bwled gan eu bod yn fyr ac maen nhw ran amlaf yn canolbwyntio ar y prif bwyntiau. Byddan nhw hefyd yn fodd i ddarllenydd ddarllen testun yn gyflym a chaniatáu i'r llygad sganio am wybodaeth yn gyflym.
Defnydd o'r negyddol	Yn aml bydd awdur yn defnyddio'r negyddol i berswadio'r darllenydd, e.e. ' ni fydd modd... ni ddaw hyn... nac ychwaith'.
Trosiad a chymhariaeth	Ni welir llawer o'r rhain mewn testunau anllenyddol ond ambell waith fe'i defnyddir yn y naratif 'gadawyd blas cas yng nghegau pawb' neu 'fel caseg eira'.
Dyfeisiadau Sŵn = cyflythreniad/odl/onomatopoeia/dryc sain/persain	Yn aml fe ddefnyddir dyfeisiadau fel y rhain mewn testunau anllenyddol – byddan nhw o bosibl yn gwneud y testun yn fwy cofiadwy a difyr.
Hyd brawddegau	Bydd awdur yn amrywio hyd brawddegau er mwyn effaith mewn testunau anllenyddol fel mewn testunau llenyddol ond y tueddiad yw i frawddegau fod yn gymharol fyr i gadw sylw'r darllenydd.
Defnydd o elipsau (...)	Gall awdur ddefnyddio'r rhain i ddangos ei fod wedi gadael darn o ddyfyniad neu sgwrs allan. Yn aml mewn deunyddiau anllenyddol fe'u defnyddir i bwrpas arall sef i ddangos fod yna fwy o fanylion y gellid eu cynnwys a bod y rhestr yn ddiddiwedd, e.e. 'Yng Nghymru mae golygfeydd godidog fel traethau, ceunentydd, cestyll, afonydd, mynyddoedd...'
Bachigyn	Bydd awdur yn anwylo ambell air drwy ychwanegu terfyniad fel 'os' at y ffurf lluosog, e.e. 'plantos'. Gall hefyd ddefnyddio ffurf arall sef 'ach' i gyfleu nawws fwy ymosodol e.e. 'criwiach'.
Bathu geiriau	Bydd awduron o dro i dro yn bathu neu'n ffurfio geiriau newydd er mwyn effaith.

Taflen 9.2 (parhad vi)

Elfennau arddull mewn deunyddiau anllenyddol	
Y math o dechneg	Rhai awgrymiadau am effaith y dechneg
Parodi	Gall awdur ddefnyddio cerdd neu ddywediad enwog a'i newid ychydig er mwyn creu doniolwch, e.e. gallasai newyddiadurwr ysgrifennu pennawd fel 'Llawn yw'r môr o swnd a sbwriel' i barodio'r llinell 'Llawn yw'r môr o swnd a chregyn'.
Talfyrru geiriau	Gall awdur ddefnyddio'r dechneg hon i greu dywediad bachog, e.e. 'joio', 'swogs'.
Ystrydeb	Dywediad neu ymadrodd sydd wedi ei orddefnyddio ac mae wedi colli llawer o'i rym a'i ystyr o ganlyniad, e.e. 'Diwedd y gân yw'r geiniog'.

Nodweddion arddull

Mae angen i ddysgwyr adnabod a deall ffurf a swyddogaeth y nodweddion hyn. Y ffordd orau iddyn nhw wneud hyn fydd:

- cael eu haddysgu am y termau penodol sydd dan sylw fel bod yr iaith ganddyn nhw i'w nodi a'u trafod (meta-ieithyddiaeth) – gweler Taflen 9.2
- eu nodi wrth ddarllen a thrafod eu heffaith – ac nid dod o hyd i'r nodweddion yn unig
- eu defnyddio yn eu gwaith ysgrifennu eu hunain.

Ni ellir nodi meini prawf cynnydd pendant ar gyfer hyn – bydd yn dibynnu ar allu a diddordebau'r dysgwyr a'r testunau y maen nhw'n eu darllen. Fodd bynnag, byddai'n ddoeth canolbwyntio i gychwyn ar ddulliau megis odli, rhythm a chyflythrennu y bydd dysgwyr ifanc yn gyfarwydd â nhw trwy waith yn y Cyfnod Sylfaen. Gellid symud ymlaen i gyffelybiaethau a throsiadau, er enghraifft, a'r syniad o onomatopoeia yng Nghyfnod Allweddol 2, a chyflwyno syniadau anos megis eironi a rhethreg wrth i ddysgwyr aeddfedu a magu hyder wrth ysgrifennu. Mae rhestr o'r prif ddulliau ar gael ar ddiwedd Atodiad 1. Edrychwch ar y rhain gyda'ch cydweithwyr a sicrhewch eich bod chi eich hun yn eu deall.

Gall llawer o waith ar ddulliau ieithyddol fod yn ymarferol ac yn weddol ysgafn.

- Gellir archwilio defnydd ac effaith cyflythrennu trwy ofyn i ddysgwyr gynhyrchu brawddegau cyflythrennol sy'n gysylltiedig â rhifau: 'Un wennol ni wna wanwyn' ac ati. Gellid hefyd eu hannog i lunio llinell yn y gynghanedd lusg, e.e. 'Dacw Dan ar gefn panda'.
- Mae nifer o ffyrdd adnabyddus o addysgu cyffelybiaethau a throsiadau. Mewn gwirionedd, mae hon yn sefyllfa lle mae addysgu o'r fath yn aml yn cael ei ailadrodd ar draws cyfnodau, gan arwain at ddiflastod posibl ymhlith dysgwyr sy'n blino ar 'yr un hen beth'. Os bydd rhan o'r cysylltiad rhwng cydweithwyr cynradd ac uwchradd yn galluogi athrawon i nodi'r hyn a addysgwyd ac a ddefnyddiwyd eisoes yng Nghyfnod Allweddol 2, bydd y broblem hon yn cael ei datrys. Nid yw hyn yn golygu na ddylid annog dysgwyr i ddefnyddio'r dulliau hyn – dim ond y gellid eu hatgoffa o'r hyn a ddysgwyd yn flaenorol yn hytrach nag addysgu'r cwbl o'r cychwyn eto.
- Gwelir y defnydd o onomatopoeia am y tro cyntaf yn aml wrth ddarllen comics neu hysbysebion, ac mae'r rhain yn fannau cychwyn defnyddiol.
- Er enghraifft, gellir clapio rhythm neu ei seinio ar offerynnau taro er mwyn cynnal cyflymder a phatrymau pwyslais angenrheidiol cerdd megis *Clicyti clac* gan Tudur Dylan; *Byd Llawn Hud* (Gwasg Gomer).

Taflen 9.3 (parhad)

Wrth i ddysgwyr ddarllen testunau mwy cymhleth ac amrywiol, dylai'r addysgu ganolbwyntio ar ddulliau penodol a ddefnyddir gan awduron a thrafod yr effeithiau a fwriedir ac a gyflawnir. Fel y nodwyd yn gynharach, nid yw nodi nodweddion yn unig yn ddefnyddiol iawn ac mae'n peri pryder i arholwyr TGAU a Safon Uwch sy'n parhau i weld enghreifftiau rheolaidd ohono.

Mae'n hanfodol ein bod yn addysgu dysgwyr i ddeall ac ymdopi â'r hyn y mae'n rhaid i ni i gyd ei ddarllen fel rhan o fywyd beunyddiol, lle rydym yn cael ein boddï mewn testunau amlffurf sy'n ceisio ein darbwyllo a llywio'r ffordd rydym yn meddwl. Sgîl darllen yn gyffredinol yw adnabod a gwerthfawrogi grym dulliau ieithyddol. Fodd bynnag, un ffordd y gall dysgwyr ddangos dealltwriaeth o fwriadau awdur yw trwy ailadrodd yr hyn y maen nhw wedi'i ddarllen yn eu gwaith ysgrifennu eu hunain.

Mae cymharu'r iaith a ddefnyddir mewn amrywiaeth o bapurau newydd – tabloïdau a dalennau llydain – a'r ffordd y mae pob un ohonyn nhw'n trin yr un stori yn fodd defnyddiol o archwilio'r defnydd o iaith yn y cyfryngau. Mae cymharu fersiwn argraffedig papur newydd â'r fersiwn ar y wefan yn ddiddorol i ddysgwyr hefyd ac yn rhoi cyfle iddyn nhw ystyried pa wahanol ddewisiadau a wnaed o ran iaith, delweddau a chynllun, ac am ba resymau. Bydd hyn yn eu galluogi i gynhyrchu eu gwaith ysgrifennu eu hunain mewn ffurfiau tebyg, gan ddefnyddio'r hyn y maen nhw wedi'i ddarganfod.

Bydd dadansoddiad tebyg o we-dudalennau, hysbysebion a thaflenni gwybodaeth yn amlygu defnydd diddorol o iaith, a bydd y darllen 'bywyd go iawn' hwn yn apelio at lawer o'r dysgwyr hynny a allai fod yn amharod i ddarllen testunau llenyddol traddodiadol.

Nodweddion trefn a chyflwyno

Wrth 'gyhoeddi' eu gwaith ysgrifennu, bydd yn rhaid i ddysgwyr wneud penderfyniadau ynglŷn â sut i fynd ati ac ystyried pa un ai defnyddio rhai o'r canlynol:

brawddegau cyflawn	ffurf nodiadau
iaith ffurfiol neu anffurfiol	cwestiynau neu ddatganiadau
diagramau neu gymhorthion gweledol eraill	tabl cynnwys
colofnau	mynegeion
rhestr geirfa	paragraffau
atodiadau	llyfryddiaeth
hyperddolenni	troednodiadau
rhagair	penawdau
is-benawdau	penillion
ffont	llythrennau italig
teip trwm	maint y print
priflythrennau neu lythrennau bach	delweddau
sain	clipiau ffilm
darluniau	tabl
ffotograff	graff

Mae'n bwysig, felly, bod dysgwyr yn gweld enghreifftiau o'r nodweddion hyn yn eu cyd-destun a'u bod yn trafod y manteision a'r anfanteision sy'n gysylltiedig â'u defnyddio.

Gweler hefyd Uned 2, Taflenni 2.1 a 2.2.

Penderfyniadau i'w gwneud cyn cyhoeddi

Efallai y bydd angen i ddysgwyr ofyn rhai o'r cwestiynau canlynol hefyd:

- A fydd y gwaith yn cael ei ysgrifennu â llaw neu ei deipio ar brosesydd geiriau?
- A fydda i'n defnyddio pecyn meddalwedd penodol? Os felly, beth sydd ar gael ac sy'n fwyaf priodol ar gyfer fy ngwaith?
- Sut byddaf yn strwythuro'r testun? A fyddaf yn defnyddio paragraffau, penodau, penawdau, is-benawdau, toriadau tudalen, ac ati?
- Pa ffont, maint print, lliw byddaf yn eu defnyddio? A fydd rhai geiriau mewn teip trwm, llythrennau italig neu briflythrennau?
- Ydw i'n mynd i gynhyrchu testun amlffurf?
- Sut byddaf yn dylunio tudalen ar gyfer y we?
- Ydw i'n mynd i ddefnyddio dulliau hypergyfrwng megis symbolau, delweddau a seiniau i bwysleisio a chyfosod safbwyntiau?
- Ydw i'n mynd i gynnwys hyperdestun i gysylltu â dogfennau eraill, neu glipiau sain neu ffilm?

Taflen 9.4 (parhad)

Bydd angen trafod gyda'r arbenigwr TGCh mewn ysgolion cynradd neu arbennig a/neu bennaeth yr adran TGCh mewn ysgolion uwchradd er mwyn ateb rhai o'r cwestiynau a ofynnir yn Nhasg 2. Mewn rhai sefyllfaoedd, efallai y bydd adran TGCh ysgol uwchradd yn gallu cynorthwyo cydweithwyr mewn ysgolion cynradd clwstwr, un ai gydag arbenigedd, trwy addysgu tîm neu rannu offer.

Mae arweiniad manwl am wneud cysylltiadau rhwng ieithoedd yn y cyhoeddiad, *Gwneud y Cysylltiad: Dysgu iaith 5–14* (ACCAC, 2003).



Uned 10: Asesu gwaith ysgrifennu

Uned 10

Asesu gwaith ysgrifennu

Nod: Archwilio ffyrdd o asesu gwaith ysgrifennu a defnyddio gwybodaeth asesu i gynllunio gwelliant.

Sicrhau bod athrawon yn gyfarwydd â chanllawiau cyfredol: *Cymraeg: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3, Sicrhau cysondeb mewn asesiad athrawon: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3, Manteisio i'r eithaf ar ddysgu: Gweithredu'r cwricwlwm diwygiedig* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008) a'r ddwy ddogfen sy'n gysylltiedig â'r rhaglen, Datblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu, sydd ar gael yn www.cymru.gov.uk/addysgsgiliau

Amser: Tua 1½ awr

Paratoi: Ymgysylltwch â'r cyhoeddiadau a restrir uchod a'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys ynddyn nhw.

Adnoddau: Llungopiau o un neu fwy o'r proffiliau dysgwr diwedd cyfnod allweddol – pob proffil ar dudalen A3 os yw'n bosibl – sydd ar gael yn *Cymraeg: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008). Peidiwch â chynnwys y sylwadau na'r dyfarniad cyffredinol gyda'r darnau o waith.

Dewiswch y dysgwyr hynny y mae eu gwaith ysgrifennu ar y lefel(au) sy'n fwyaf priodol i'r athrawon yn y grŵp, e.e. ar gyfer athrawon cynradd, Kyle, Leigh a Lisa; ar gyfer athrawon uwchradd, Helen, Jac a James; ar gyfer grŵp pontio, Leigh, Lisa, Helen.

Ar gyfer grŵp o athrawon o bynciau ar draws y cwricwlwm, byddai'n ddoeth defnyddio rhai enghreifftiau o waith ysgrifennu o'u dogfennau canllaw ynghyd ag un neu ddau ddewis o'r Gymraeg.

Copiau o'r cyhoeddiadau a restrir yn yr adran 'Nod' uchod.

Copiau o Daflenni 10.1 i 10.4 ar gyfer pob aelod o'r grŵp.

Crynodeb o'r tasgau

Tasg 1: Asesiad ffurfiannol: asesu ar gyfer dysgu

Tasg 2: Dilyniant mewn gwaith ysgrifennu

Tasg 3: Dod i farn ar waith un dysgwr

Tasg 4: Asesiad crynodol (asesu dysgu): y polisi yng Nghymru

Tasg 1

Asesiad ffurfiannol: asesu ar gyfer dysgu

Mae asesiad ffurfiannol, parhaus yn canolbwyntio ar gyflawniad dysgwyr a manylion ynghylch ffyrdd o symud ymlaen yn hytrach nag ar ddeilliannau'r cwricwlwm cenedlaethol a disgrifiadau lefel. Dydy defnyddio disgrifiadau lefel ar gyfer asesu o ddydd i ddydd ddim yn ddefnyddiol gan eu bod nhw wedi'u cynllunio i ddangos cynnydd wrth ystyried nifer o ddarnau o waith dros gyfnod o amser, a dydyn nhw ddim yn ymwneud â manylion darnau unigol o waith.

Mae prosiect peilot ar gyfer datblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu wedi bod ar waith ers tair blynedd bellach yng Nghymru ac, oherwydd ei lwyddiant, caiff ei ehangu ledled Cymru dros y tair blynedd nesaf. Mae *Pam y mae angen datblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn yr ystafell ddosbarth?* a *Sut i ddatblygu sgiliau meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn yr ystafell ddosbarth*, sydd ar gael yn www.cymru.gov.uk/addysgsgiliau yn egluro'r prosiect.

Dylech annog aelodau'r grŵp i weithio ar y rhain yn eu hamser eu hunain neu fel gweithgaredd datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) ar wahân oherwydd bydd angen mwy o amser ar eu cyfer na'r hyn sydd ar gael ar gyfer yr uned hon. Bydd y graddau y bydd angen i chi egluro'r asesiad ar gyfer egwyddorion a gweithdrefnau dysgu yn dibynnu ar y sefyllfa bresennol yn eich ysgol(ion). Hyd yn oed os ydych chi eisoes yn gwneud hyn i raddau helaeth, bydd yn ddefnyddiol i chi ailadrodd yr egwyddorion sylfaenol a'u cysylltu â'ch gwaith ar addysgu ysgrifennu.

Mewn parau, edrychwch ar Daflen 10.1, lle mae sylwadau yn ymwneud ag asesu ar gyfer dysgu, a thrafodwch i ba raddau maen nhw'n berthnasol i'ch arfer yn yr ystafell ddosbarth. Dylech hefyd ystyried sut maen nhw'n ymwneud â'r egwyddorion a'r arferion sydd wedi'u disgrifio mewn unedau blaenorol o'r cyhoeddiad hwn, o ran nodi meini prawf llwyddiant, modelu gwaith ysgrifennu, holi eich hun ac eraill, a gwella gwaith.

Cymerwch tua 20 munud.

Tasg 2

Dilyniant mewn gwaith ysgrifennu

Edrychwch ar Daflen 10.2 a thrafod ei chynnwys.

Fel grŵp, trafodwch y llinellau dilyniant eang yr hoffech eu gweld yng ngwaith ysgrifennu dysgwyr. Cymharwch eich syniadau â'r rhai ar Daflen 10.1 a chyda Thaflen 10.2 sy'n darparu'r disgrifiadau lefel ar gyfer Ysgrifennu yn *Cymraeg yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008).

Cymerwch tua 15 munud.

Tasg 3

Dod i farn ar waith un dysgwr

Dosbarthwch gopïau a baratowyd ymlaen llaw o amrywiaeth o waith gan un dysgwr – proffil dysgwr diwedd cyfnod allweddol – i'r athrawon mewn grwpiau bychain.

Gofynnwch i'r athrawon:

- efelychu sesiwn gymedroli a phenderfynu ar lefel y dysgwr y mae ei broffil dysgwr diwedd cyfnod allweddol o'u blaenau. Yn dibynnu ar faint a chyfansoddiad y grŵp cyffredinol, bydd rhaid i chi benderfynu pa un a ydych am roi'r un proffil i bob grŵp neu roi proffil gwahanol i bob grŵp – mae manteision ac anfanteision i bob dewis a bydd yn rhaid i chi, fel arweinydd y grŵp, ystyried y rhain o safbwynt yr hyn rydych am ei gyflawni
- anodi'r testunau, gan nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu
- gwneud penderfyniad ynglŷn â'r lefel y mae'r dysgwr yn gweithio arni
- awgrymu ffyrdd ymlaen ar gyfer y dysgwr hwnnw.

Ar ôl i bawb gwblhau'r dasg, gwiriwch y penderfyniadau yn erbyn y rhai a nodir yn *Cymraeg: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008).

Cymerwch tua 30 munud.

Tasg 4

Aseiad crynodol (asesu dysgu): y polisi yng Nghymru

Gyda'r grŵp cyfan, ewch drwy'r datganiadau ar Daflen 10.4, un ar y tro, a gwahoddwch drafodaeth i ba raddau mae'r athrawon yn gyfarwydd â'r egwyddorion hyn a sut maen nhw'n cysylltu â'u harfer nhw eu hunain yn yr ysgolion. Eich nod ydy sicrhau bod bob athro ac athrawes sy'n bresennol yn deall y trefniadau asesu presennol yng Nghymru yn llwyr.

Mae'r cyhoeddiad *Sicrhau cysondeb mewn aseiad athrawon: Canllawiau ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 a 3* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008) yn helpu athrawon i wneud yr aseiad athrawon statudol drwy gynnig amryw o ffyrdd effeithiol a hylaw fel bod athrawon yn siŵr bod eu hasesiadau statudol ar ddiwedd cyfnodau allweddol yn gywir ac yn gyson. Mae hyn yr un mor berthnasol i addysg grefyddol a phynciau'r cwricwlwm cenedlaethol lle nad oes angen aseiad athrawon statudol.

Cymerwch tua 30 munud.

Asesu ar gyfer dysgu

Mae asesu ar gyfer dysgu yn ymwneud â dysgwyr yn dod i ddeall nodau dysgu penodol a'r meini prawf llwyddiant cysylltiedig fel y gallan nhw, gyda chymorth yr athro neu'r athrawes, ddatblygu eu gallu i asesu cyfoedion a hunanasesu. Fel hyn, gallan nhw:

- nodi lle maen nhw ar hyn o bryd
- pennu targedau i anelu atyn nhw
- gwybod a ydyn nhw wedi cyrraedd y targedau
- nodi pryd y gwnaethon nhw hynny.

Bydd angen i athrawon sicrhau bod dysgwyr yn gwybod y canlynol os byddan nhw am wneud cynnydd:

- lle maen nhw ar y continwwm dysgu
- lle mae angen iddyn nhw fynd
- y ffordd orau o gyrraedd.

Mae tri prif faes yn gysylltiedig â gweithredu prosesau asesu ar gyfer dysgu, sef:

- Holi
 - amser meddwl – rhoi amser i ddysgwyr feddwl am atebion; o leiaf bum eiliad
 - mathau o gwestiynau – cwestiynau agored a rhai sy'n annog meddwl, cwestiynau i'r dosbarth gan yr athro neu'r athrawes, a chwestiynau i'w gilydd ac i'w hunain gan ddysgwyr
 - caniatáu i ddysgwyr drafod cwestiynau gyda phartneriaid/mewn grwpiau bach cyn cynnig atebion i'r dosbarth cyfan.
- Ansawdd yr adborth
 - ar unwaith – ganddyn nhw eu hunain, dysgwr arall neu'r athro/athrawes
 - dim graddau, dim ond sylwadau yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â dysgu ac sy'n gysylltiedig â meini prawf llwyddiant ar gyfer y dasg benodol; arwain at dargedau ar gyfer gwella
 - dysgwr ganolog, yn gadarnhaol ond yn wrthrychol
 - amllder yr asesiadau – yn rheolaidd yn ystod yr addysgu yn hytrach na bod llawer o asesu'n digwydd ar ddiwedd uned o waith
 - cyfle i ymarfer
 - cyfle i gywiro
 - eglurder fel ei fod yn helpu'r dysgwyr i feddwl.
- Asesu cyfoedion a hunanasesu
 - rhannu a deall bwriad y dysgu; bod yn glir am y dasg a'i phwrpas
 - nodi a deall meini prawf llwyddiant
 - cydnabod gwaith o safon sydd wedi cael ei wneud ar sail model.

Taflen 10.1 (parhad i)

Dylai athrawon gysylltu targedau unigol â gwella ansawdd gwaith dysgwyr, fel sy'n digwydd drwy adborth ffurfiannol, ac felly cysylltu â'r meini prawf llwyddiant ar gyfer tasgau penodol. Does dim modd cysylltu'r targedau unigol hyn â deilliannau neu ddisgrifiadau lefel gan fod y rhain yn disgrifio cyrhaeddiad ar draws amrywiaeth o dasgau ar ddiwedd pob cyfnod allweddol.

Gall athrawon ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau neu ddulliau dysgu i helpu ym mhob cam o'r broses o asesu ar gyfer dysgu. Mae rhestr o ddulliau o'r fath gydag esboniad o'u defnydd yn Atodiad 3 o *Sut i ddatblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn yr ystafell ddosbarth* sydd ar gael yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

Mae'r blwch canlynol yn cynnig rhai strategaethau holi/rhoi sylwadau. Mae'r strategaethau yn cael eu hystyried yn llwyddiannus iawn wrth hyrwyddo asesu ar gyfer dysgu ac yn ehangu meddwl dysgwyr. Maen nhw'n ategu'r strategaethau sy'n cael eu disgrifio yn Unedau 3 a 4.

Gofynnwch gwestiynau ategol: 'Pam?', 'Ydych chi'n cytuno?', 'Allwch chi ehangu?', 'Allwch chi ddweud mwy?', 'Allwch chi roi enghraifft?'

Atal barn: Ymateb i ddysgwyr heb werthuso.

Gofynnwch am grynoded i hyrwyddo gwranddo gweithredol: 'Allech chi grynhoi pwynt Rhodri?'

Holwch y dosbarth: 'Faint o bobl sy'n cytuno â safbwynt yr awdur?'

Gadewch i'r dysgwyr alw dysgwyr eraill: 'Sarah, wnei di alw ar rywun arall i ymateb?'

Cyflwynwch ddadleuon yn eu herbyn: Gwthiwch y dysgwyr i ddiffinio eu rhesymau yn erbyn safbwyntiau gwahanol.

Gofynnwch i ddysgwyr ddisgrifio eu ffordd o feddwl: 'Disgrifiwch sut daethoch at eich ateb.'

Galwch y dysgwyr ar hap: Dylech osgoi'r patrwm o alw ar y dysgwyr hynny sydd wedi rhoi eu dwylo i fyny neu dylech fabwysiadu polisi 'dim dwylo i fyny'.

Dylech annog y dysgwyr i holi: Gadewch i'r dysgwyr ddatblygu eu cwestiynau eu hunain.

Awgrymwch y dylai dysgwyr ymateb: 'Does dim un ateb cywir i'r cwestiwn hwn. Hoffwn i chi ystyried atebion gwahanol.'

Taflen 10.1 (parhad ii)

Asesu cyfoedion a hunanasesu

Dim ond os ydyn nhw'n deall beth sydd ei angen iddyn nhw ei wneud y gall dysgwyr gyflawni deilliannau dysgu llwyddiannus. Mae'n rhaid i'r meini prawf llwyddiant sy'n cael eu pennu gan y dysgwyr a'r athrawon fod yn amlwg i'r dysgwyr a dylid rhoi enghreifftiau pendant o lwyddiant.

Mae asesu cyfoedion yn werthfawr iawn oherwydd mae dysgwyr yn aml yn gallu derbyn beirniadaeth o'u gwaith gan gyfoedion, yn fwy parod na derbyn sylwadau tebyg gan athrawon. Bydd y sgysiau hyn mewn iaith mae dysgwyr eu hunain yn ei defnyddio'n naturiol. Os nad ydy dysgwyr yn deall esboniad, maen nhw'n fwy tebygol o dorri ar draws cyfoedion yn hytrach nag athrawon. Mae asesu cyfoedion yn rhoi'r gwaith yn nwylo'r dysgwyr a gallan nhw gymryd cyfrifoldeb drosto. Mae athrawon ar gael i arsylwi ac ystyried yr hyn sy'n digwydd ac ymyrryd pan fo angen. Fodd bynnag, er mwyn i asesu cyfoedion weithio'n effeithiol, mae'n rhaid i ddysgwyr gael eu hyfforddi mewn arfer da a dydy hyn ddim yn rhywbeth a fydd yn digwydd dros nos.

Bydd hunanasesu ond yn digwydd os bydd athrawon yn helpu dysgwyr, yn enwedig y rhai sy'n cyflawni ar lefel isel, i ddatblygu'r sgîl. Fel mewn gwaith effeithiol mewn parau a grwpiau, bydd hyn yn cymryd amser ac ymarfer. Yn aml, daw hunanasesu ystyrlon yn sgîl asesu cyfoedion: mae angen i ddysgwyr gael eu 'hyfforddi' i hunanasesu drwy lunio cwestiynau a meddwl gydag eraill i ddechrau.

Mae asesu cyfoedion a hunanasesu yn golygu llawer mwy na chwilio am gamgymeriadau a gwendidau. Mae'n golygu egluro pethau sydd ymhlyg fel arfer ac felly mae angen i ddysgwyr fod yn weithredol yn eu dysgu. Bydd hyn ynddo'i hun yn eu helpu i wella eu dysgu.

Llinellau dilyniant eang yn y disgrifiadau lefel ar gyfer ysgrifennu

Mae *Cymraeg: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3* yn cynnwys y datganiad canlynol:

Gwelir dilyniant eang mewn disgrifiadau lefel Ysgrifennu. Ar y lefelau isaf bydd disgyblion yn cyfathrebu drwy ysgrifennu geiriau, ymadroddion ac ambell frawddeg (Lefel 1) a byddan nhw'n dangos rhywfaint o ymwybyddiaeth tuag at y darllenwyr a thuag at y ffurf (Lefel 2). Wrth ddatblygu fwyfwy bydd eu gallu i ysgrifennu ar amrywiaeth o destunau yn datblygu (Lefel 3). Byddan nhw'n dangos peth gwreiddioldeb wrth ddewis a dethol geiriau gan baragraffu i gyflwyno'u gwaith yn drefnus (Lefel 4) a byddan nhw'n ystyried pwnc, pwrpas, argraff a natur y gynulleidfa (Lefel 5). Erbyn cyrraedd y lefelau uchaf bydd disgyblion yn cynnal diddordeb y darlennydd (Lefel 6), yn ysgrifennu'n hyderus (Lefel 7) gan amrywio'r arddull a'r cywair yn ôl pwrpas y dasg (Lefel 8).

O edrych ar y dechneg o ysgrifennu fe welir datblygiad amlwg hefyd. Ar y lefelau isaf (Lefel 2) bydd dysgwyr yn ffurfio llythrennau sydd fel rheol wedi'u ffurfio'n gywir. Byddan nhw'n defnyddio priflythrennau ac atalnodi llawn gyda pheth cysondeb, bydd yr atalnodi yn gywir ar y cyfan (Lefel 3) a byddan nhw'n sillafu'r mwyafrif o'r geiriau strwythur yn gywir. Wrth wella'u sgiliau, byddan nhw'n dechrau atalnodi o fewn brawddeg (Lefel 4) a byddan nhw'n sillafu'r mwyafrif o eiriau sydd o fewn eu profiad yn gywir. Byddan nhw'n defnyddio'u gwybodaeth o reolau sillafu a bydd eu hatalnodi yn gywir fel rheol (Lefel 5). Bydd geiriau afreolaidd yn cael eu sillafu'n gywir fel rheol (Lefel 6) a defnyddir ystod o atalnodi er mwyn egluro'r ystyr. Byddan nhw, erbyn y lefelau uchaf, yn sillafu geiriau cymhleth afreolaidd yn gywir (Lefel 7) a bydd ganddyn nhw afael dda ar ramadeg, atalnodi a sillafu (Lefel 8).

Gan edrych ar ddilyniant llawysgrifen, bydd dysgwyr yn dechrau ffurfio llythrennau sydd yn mynd i'r cyfeiriad cywir (Lefel 1) ac yn ffurfio llythrennau'n gywir a chyson (Lefel 2). Bydd eu llawysgrifen yn ddarllenadwy (Lefel 3) ac yn glir (Lefel 4). Erbyn Lefel 5 a'r lefelau uwch bydd gwaith y dysgwyr yn ddarllenadwy ac wedi'i gyflwyno'n effeithiol.

Taflen 10.3

Disgrifiadau lefel ar gyfer Ysgrifennu

Lefel 1	Bydd y disgyblion yn cyfathrebu drwy ysgrifennu geiriau, ymadroddion ac ambell frawddeg gan ddechrau dangos ymwybyddiaeth o sut i ddefnyddio atalnod llawn. Fel rheol, caiff llythrennau eu ffurfio'n glir a'u cyfeirio'n gywir. Byddant yn dechrau deall gwahanol ddibenion a swyddogaethau iaith ysgrifenedig.
Lefel 2	Bydd gwaith ysgrifenedig y disgyblion yn cyfleu ystyr. Byddant yn defnyddio geirfa addas a diddorol sy'n dangos rhywfaint o ymwybyddiaeth o'r darlennydd a'r ffurf. Yn fynych caiff syniadau eu datblygu mewn cyfres o frawddegau cysylltiedig. Byddant yn defnyddio priflythrennau ac atalnodau llawn gyda pheth cysondeb. O ran llawysgrifen, bydd y llythrennau wedi'u ffurfio'n gywir ac yn gyson o ran maint ac fe'u defnyddir yn unol â chonfensiwn.
Lefel 3	Bydd y disgyblion fel arfer yn ysgrifennu'n glir ac yn drefnus mewn ffurf greadigol a ffeithiol ar amrywiaeth o destunau. Byddant yn dangos peth gafael ar ffurf a dilyniant, yn datblygu syniadau'n synhwyrol, yn amrywio peth ar eu brawddegau, ac yn addasu eu gwaith ar adegau i bwrpas y darlennydd. Byddant yn dechrau creu effeithiau drwy ddethol geiriau addas i'r pwrpas. Bydd y disgyblion yn cynhyrchu cystrawennau a brawddegau sylfaenol yn weddol gywir, ac yn defnyddio atalnodi – priflythyren, gofynnod, collnod ac atalnod llawn – yn gywir ar y cyfan. Byddant yn sillafu'r mwyafrif o'r geiriau strwythur a geiriau sylfaenol y pynciau a drafodir yn gywir. Bydd y llawysgrifen yn ddarllenadwy a chaiff y gwaith ei gyflwyno'n briodol.

Taflen 10.3 (parhad i)

Disgrifiadau lefel ar gyfer Ysgrifennu

Lefel 4	<p>Bydd y disgyblion yn ysgrifennu'n feddylgar a dychmygus gan ddangos gafael eithaf sicr ar ffurf. Mynegir barn yn syml ac yn aml byddant yn cynnal ac yn datblygu syniadau yn ddiddorol. Yn aml, byddant yn dangos gwreiddioldeb wrth ddethol geiriau ac ymadroddion i greu effeithiau. Defnyddiant gystrawennau mwy amrywiol a chymhleth yn weddol gywir. Bydd y disgyblion yn defnyddio paragraffau i gyflwyno'u gwaith yn drefnus ac mewn dilyniant i bwrpas y darlennydd. Byddant yn sillafu'r mwyafrif o'r geiriau sydd o fewn eu profiad yn gywir gan ysgrifennu geiriau yn eu ffurf ysgrifenedig safonol lle bo'n briodol a threiglo'n gywir ar adegau. Byddant yn defnyddio priflythyren, gofynnod ac atalnod llawn yn gywir ac yn dechrau atalnodi o fewn brawddeg gan ddefnyddio collnod a dyfynodau pan fo'u hangen. Bydd llawysgrifen yn glir, a byddant yn ysgrifennu'n rhwydd, gan addasu'r cyflwyniad yn ôl y dasg lle bo hynny'n briodol.</p>
Lefel 5	<p>Bydd y disgyblion yn ysgrifennu'n glir, yn amrywiol ac yn ddiddorol i amrywiaeth o bwrpasau, gan ddangos sylwgarwch, dychmyg a gafael sicr ar ffurf. Byddant yn mynegi barn ac yn ei chefnogi ag ambell reswm. Yn aml, byddant yn dangos gwreiddioldeb wrth ddethol geiriau ac ymadroddion, gan ystyried pwnc, pwrpas, a natur y gynulleidfa. Bydd eu gwaith yn cynnwys paragraffau ac ystod o gystrawennau ac ymadroddion sy'n weddol gywir a Chymraeg eu nawws. Bydd y disgyblion yn atalnodi ac yn treiglo'n gywir fel rheol. Byddant yn defnyddio'u gwybodaeth o reolau sillafu er mwyn sillafu'n gywir. Bydd y gwaith yn ddarllenadwy ac wedi'i gyflwyno'n effeithiol.</p>
Lefel 6	<p>Bydd gwaith ysgrifennu'r disgyblion yn denu ac yn cynnal diddordeb y darlennydd drwy'r dewis bwriadol o eirfa, ymadroddion a ffurfiau brawddegol wrth ddatblygu disgrifiadau, syniadau a dadleuon. Byddant yn cyflwyno gwybodaeth at wahanol ddibenion ac yn mynegi barn gan ddatblygu rhai pwyntiau i gefnogi safbwynt. Byddant yn defnyddio arddull, iaith a chywair addas i'r ffurf yn briodol. Bydd ganddynt afael eithaf sicr ar gystrawen gywir ac idiom naturiol Gymraeg. Byddant yn treiglo ac yn sillafu – gan gynnwys geiriau afreolaidd – yn gywir fel rheol. Defnyddir ystod o atalnodi er mwyn egluro'r ystyr a threfnir syniadau mewn paragraffau. Bydd y gwaith yn ddarllenadwy ac wedi'i gyflwyno'n effeithiol.</p>

Taflen 10.3 (parhad ii)

Disgrifiadau lefel ar gyfer Ysgrifennu

Lefel 7	Bydd y disgyblion yn ysgrifennu'n hyderus ac yn dewis arddull briodol mewn amrywiaeth eang o ffurfiau. Byddant yn dangos gallu cyson i ddefnyddio nodweddion a chonfensiynau ysgrifennu naratif ac ysgrifennu ffeithiol. Mewn naratif, byddant yn datblygu'r cymeriadau a'r sefyllfaoedd, ac wrth ysgrifennu'n ffeithiol bydd eu syniadau'n drefnus ac yn gydlynus. Byddant yn cynnal dadleuon gan gynnig tystiolaeth i gefnogi eu barn. Bydd eu defnydd o eirfa a chystrawen gywir, naturiol Gymraeg, yn adlewyrchu gofynion y dasg. Byddant yn sillafu geiriau cymhleth, afreolaidd yn gywir. Bydd y paragraffu, yr atalnodi, a'r gramadeg fel rheol yn gywir ac fe'u defnyddir i wneud y dilyniant yn glir i'r darllenydd. Bydd y gwaith yn ddarllenadwy ac wedi'i gyflwyno'n effeithiol.
Lefel 8	Bydd gwaith ysgrifennu'r disgyblion yn dangos dyfnder, dawn a gwreiddioldeb. Byddant yn dangos y gallu i ddefnyddio'r mwyafrif o'r ffurfiau creadigol yn effeithiol ac yn hyderus, gan amrywio'r arddull a'r cywair yn ôl pwrpas y dasg. Wrth ysgrifennu naratif, byddant yn datblygu'r cymeriadau a'r sefyllfaoedd, ac wrth ysgrifennu'n ffeithiol bydd eu syniadau'n drefnus, yn gydlynus ac yn gynnil. Byddant yn adeiladu eu dadleuon, gan gynnig tystiolaeth yn gyson. Bydd eu hiaith yn gyfoethog ac yn gywir a bydd ganddynt afael dda ar ramadeg, atalnodi, sillafu a pharagraffu. Bydd y gwaith yn ddarllenadwy ac wedi'i gyflwyno'n effeithiol.
Perfformiad Eithriadol	Bydd y disgyblion yn ysgrifennu'n dreiddgar ac yn gynnil gan ddefnyddio ystod o arddulliau a ffurfiau yn ddeheuig gan gynnal diddordeb y darllenydd. Byddant yn datblygu ac yn cynnal eu syniadau a'u dadleuon yn rhesymegol ac yn eglur, ac yn trin testunau dychmygus a ffeithiol ar dopigau ymestynnol mewn dull manwl a threfnus. Dangosant gyfoeth o adnoddau iaith a ddefnyddir yn gywir a chydag aeddfedrwydd i sicrhau rhuglder eu harddull. Bydd y paragraffau wedi'u strwythuro a'u cysylltu'n ofalus, gan gyfrannu at eglurder a threfn y darn fel cyfanwaith. Bydd y gwaith yn ddarllenadwy ac wedi'i gyflwyno'n effeithiol.

Taflen 10.4

Asesiad crynodol (asesu dysgu): y polisi yng Nghymru

Seilir y tabl isod ar y negeseuon yn nogfennau Llywodraeth Cynulliad Cymru, sef *Sicrhau cysondeb mewn asesiad athrawon: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3; Manteisio i'r eithaf ar ddysgu: Gweithredu'r cwricwlwm diwygiedig; Cymraeg: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008).

Datganiad	Eglurhad a mwy o fanylion
Mae'r deilliannau a'r disgrifiadau lefel ar gyfer Llafaredd, Darllen ac Ysgrifennu yn nodi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth y disgwylir i ddysgwyr eu dangos ar ddiwedd cyfnod allweddol.	Mae'r deilliannau a'r disgrifiadau lefel yn nodi agweddau sy'n arwyddocaol o lefelau penodol.
Gall disgrifiadau lefel eich helpu wrth i chi gynllunio, addysgu ac asesu yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3.	Maen nhw'n dangos disgwyliadau ar lefelau penodol a dilyniant yn y pwnc.
Datblygwyd y deilliannau a'r disgrifiadau lefel ar gyfer asesiad crynodol ar ddiwedd cyfnod allweddol.	Dydy'r deilliannau na'r disgrifiadau lefel ddim yn addas ar gyfer asesiad ffurfiannol. Dydyn nhw ddim yn gwneud targedau effeithiol am eu bod yn disgrifio cyrhaeddiad ar draws yr holl raglen astudio ar ddiwedd cyfnod allweddol.
Dydy'r deilliannau a'r disgrifiadau lefel ddim yn gysylltiedig â chyfnod allweddol penodol. Maen nhw'n disgrifio'r math a'r ystod o berfformiad sy'n nodweddu dysgwyr sy'n gweithio ar lefel benodol.	Gallai dysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 2 ddangos cyflawniad ar unrhyw lefel, er mai Lefel 4 yw'r lefel ddisgwyliedig ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2. Yn yr un modd, gallai dysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 3 ddangos cyflawniad ar unrhyw lefel gan gynnwys Lefelau 7, 8 a Pherfformiad Eithriadol os yw eu gwaith yn dangos tystiolaeth o'r nodweddion priodol.
Mae'r deilliannau a'r disgrifiadau lefel yn cyfeirio at gyflawniad dysgwyr dros amser a thros ystod o waith, gan roi golwg holistig o nodweddion gwahanol.	Ni ddylai athrawon lefelu darnau unigol o waith oherwydd dydy lefelu un darn ddim yn gallu rhoi asesiad llawn o'r lefel mae dysgwr yn gweithio arni. Fodd bynnag, mae'n gallu dangos nodweddion o lefel benodol.
Bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar sail –'cyd-fynd orau'. Bydd pob disgrifiad yn cael ei ystyried ochr yn ochr â'r deilliannau neu'r lefelau cyfagos. Bydd dysgwyr yn cael eu gosod ar y deiliant neu'r lefel sy'n briodol ar eu cyfer.	Mae'n bosibl bydd dysgwyr yn dangos rhywfaint o nodweddion y deilliannau neu'r lefelau cyfagos ond mae'n rhaid i farn grynodol ymwneud â'r deilliannau neu'r lefel sy'n cyd-fynd orau â chyflawniad cyffredinol y dysgwr.

Taflen 10.4 (parhad)

Datganiad	Eglurhad a mwy o fanylion
Swyddogaeth hanfodol disgrifiadau lefel yw helpu i lunio barn grynodol gytbwys ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3.	<p>Wrth lunio barn ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3, dylai athrawon benderfynu pa ddisgrifiad lefel sy'n cyd-fynd orau â pherfformiad dysgwyr. Y nod yw llunio barn gytbwys sy'n:</p> <ul style="list-style-type: none"> • seiliedig ar wybodaeth am berfformiad y dysgwyr mewn amrywiaeth o gyd-destunau • ystyried cryfderau a meysydd gwahanol y mae angen eu datblygu o ran perfformiad y dysgwyr unigol • cael ei mesur yn erbyn disgrifiadau lefel cyfagos i sicrhau mai'r lefel fwyaf priodol ydy'r un sy'n cyd-fynd orau yn gyffredinol â pherfformiad y dysgwyr yn y targed cyrhaeddiad.
Dydy israniadau mympwyol (e.e. 2A, 2B, 2C) o fewn lefel ddim yn rhan o'u cynllun a doedd hi byth yn fwriad eu defnyddio.	Does dim byd yn y trefniadau asesu sy'n cyfeirio nac yn rhoi unrhyw ystyr i raniadau o fewn lefel.
Mae'n bosibl llunio portffolios safoni ysgolion, adrannau neu glystyrau i'w defnyddio fel ffynhonnell tystiolaeth i gyfeirio ati.	Gallai'r rhain gynnwys gwaith un dysgwr neu waith nifer o ddysgwyr, dim ond eu bod yn galluogi athrawon i ddod i gytundeb ar lefelau cyflawniad drwy gadarnhau eu bod yn deall nodweddion lefel. Mae'n bosibl eu llunio a'u trafod unrhyw bryd yn ystod cyfnod allweddol.
Mae proffil dysgwr ar ddiwedd cyfnod allweddol yn cyfeirio at gasgliad o waith dysgwr unigol dros amser a thros ystod o weithgareddau.	Gallai hyn gynnwys llyfr gwaith neu ffeil o waith ysgrifenedig. Does dim angen gwneud casgliad arbennig. Rhaid cynnal asesiad crynodol ar ddiwedd cyfnod allweddol.

Atodiad 1: Rhestr termau

Gramadeg

adferf *adverb*

Gair sy'n disgrifio neu'n addasu berf, e.e. 'rhedodd yn gyflym', 'cyrhaeddodd yn hwyr'.

amhersonol *impersonal*

Pan nad yw awdur yn nodi'n benodol pwy sy'n cyflawni gweithred e.e. 'roedd angen...'

amodol *conditional*

Amser o'r ferf sy'n mynegi'r syniad bod yr hyn sy'n digwydd yn dibynnu ar rywbeth arall. Mae ffurfiau amodol yn aml yn cynnwys cysyllteiriau megis 'os' neu 'wedy'n' a ffurfiau'r ferf megis 'byddai' neu 'gallai'.

amser berfol *tense*

Ffurf y ferf sy'n dweud wrthym pryd y mae rhywbeth yn digwydd, e.e. gorffennol, presennol neu ddyfodol.

ansoddair *adjective*

Gair sy'n disgrifio neu'n addasu enw. Gall ddod cyn neu ar ôl yr enw, e.e. 'y gadair las' neu 'mae'r gadair yn las'. Mae gwahanol fathau o ansoddair: nifer neu faint (e.e. 'ychydig'); ansawdd (e.e. 'da'); meddiannol (e.e. 'fy'); gofynnol (e.e. 'pa'); dangosol (e.e. 'hwn').

arddodiad *preposition*

Geiriau sy'n disgrifio'r cysylltiad rhwng dau enw neu ragenw, e.e. 'yn', 'ar', 'o dan', 'y tu ôl'.

atalnodi *punctuation*

Ffordd o nodi testun i gynorthwyo'r darllenwr i ddeall.

bannod, y fannod *article*

Gair o flaen enw neu ferfenw yw y fannod: 'y' o flaen cytsain (e.e. 'y tŷ', 'y plentyn'), 'yr' o flaen llafariad a 'h' (e.e. 'yr afal', 'yr haf') ac 'r' ar ôl gair sy'n gorffen gyda llafariad (e.e. 'o'r orsaf', 'i'r ysgol').

berf *verb*

Gair sy'n mynegi gweithred neu gyflwr o fod. Gall berfau fod mewn gwahanol amseroedd. Gall berfau fod yn weithredol neu'n oddefol: 'Gyrrodd Jenny'r car' (gweithredol), 'Gyrrwyd y car gan Jenny' (goddefol).

berfenw *infinitive*

Enw ar weithgaredd o ryw fath yw berfenw. Dyma'r ffurf ar y ferf a nodir mewn geiriadur. Does dim sôn am bwy sy'n gwneud y weithred na phryd mae'r weithred yn digwydd, e.e. 'mynd', 'taflu'.

brawddeg *sentence*

Uned o iaith ysgrifenedig sy'n gwneud synnwyr ar ei ben ei hun ac a nodir gyda phriflythyren ar y dechrau ac atalnod llawn ar y diwedd. Gall brawddegau fod yn syml neu'n gymhleth ac maen nhw'n cynnwys berf fel rheol.

cymal *clause*

Rhan eglur o frawddeg sy'n cynnwys berf. Mae dau brif fath: prif gymal ('Byddaf yn gwneud fy ngwaith cartref'), ac is-gymal ('pan gyrhaeddaf adref'). Mae'r prif gymal yn gwneud synnwyr ar ei ben ei hun, ond nid felly'r is-gymal.

cysylltair *conjunction*

Gair a ddefnyddir i gysylltu brawddegau neu gymalau neu i gysylltu geiriau mewn ymadrodd. Maen nhw'n mynegi gwahanol fathau o gysylltiad: (achos, e.e. 'oherwydd'); gwrthwynebiad (e.e. 'ond'); ychwanegiad (e.e. 'a'); amser (e.e. 'tan').

cytundeb *agreement*

Geiriau cysylltiedig sy'n cytuno â'i gilydd o ran nifer, achos, rhyw a pherson, e.e. 'Dywedaf fi', 'dywedi di' (unigolyn); 'cariodd y merched eu llyfrau' (nifer).

y dyfodol *future*

Amser y ferf sy'n mynegi'r hyn a fydd yn digwydd ac, yn y Gymraeg, yr hyn sy'n digwydd fel rheol.

ebychiad *exclamation*

Brawddeg neu ymadrodd sy'n mynegi emosiwn megis arswyd, syndod neu ryfeddod, e.e. 'O na!', neu 'Mae hynny'n anhygoel!'.

enw *noun*

Gair sy'n enwi peth neu deimlad. Y pedwar math o enw yw: cyffredin (cyffredinol, e.e. 'anifail', 'cadair'); priod (enw penodol, e.e. 'Bangor'); haniaethol (syniad neu gysyniad, e.e. 'hapusrwydd'); torfol (grŵp, e.e. 'buches', 'torf').

goddrych *subject*

Y pwy neu'r beth sy'n cyflawni gweithred y ferf, e.e. 'Bwytaodd y ci yr asgwrn', 'Ysgrifennodd hi'r stori'.

gorffennol *past*

Yn y Gymraeg – diweddu gyda 'wedi' ('wedi mynd') Amser y ferf sy'n mynegi'r hyn sydd eisoes wedi digwydd neu a oedd yn digwydd.

gramadeg *grammar*

Y rheolau sy'n ymwneud â'r cysylltiadau rhwng geiriau mewn unrhyw iaith.

gwrthrych *object*

Gwrthrych neu dderbynnnydd gweithred mewn brawddeg, e.e. 'taflodd hi'r bêl'.

lluosog *plural*

Ffurf enw, berf neu ragenw sy'n dangos y cyfeirir at fwy nag un peth.

paragraff *paragraph*

Rhan o waith ysgrifenedig. Mae paragraff newydd yn dynodi newid amser, lle, pwnc neu siaradwr mewn deialog ac yn cychwyn ar linell newydd. Mae'r awdur weithiau'n defnyddio bwlch un llinell neu fewnoliad ar y llinell gyntaf hefyd.

person *person*

Term i ddynodi rhan o ferf. Person cyntaf 'Fi'/'myfi', ail berson 'ti'/'chi', trydydd person 'ef'/'hi'. Lluosog hefyd – 'ni', 'chi', 'nhw'/'hwy' (gweler 'cytundeb' uchod).

presennol *present*

Amser y ferf sy'n mynegi'r hyn sy'n digwydd nawr neu sy'n digwydd fel rheol.

rhagenw *pronoun*

Gair a ddefnyddir yn hytrach nag enw neu ymadrodd enw, e.e. 'ef', 'hi'.

treigladd *mutation*

Yn y Gymraeg, dan amodau penodol, newidir un gytsain am gytsain arall ar ddechrau gair e.e. 'dwyl ferch'.

unigol *singular*

Ffurf enw, berf neu ragenw sy'n dangos y cyfeirir at un peth yn unig.

ymadrodd *phrase*

Un neu fwy o eiriau sy'n ffurfio uned neu ran o frawddeg.

Sillafu

acen *accent*

Arwydd ar ben neu o dan lythyren sy'n newid yr ynganiad fel rheol, e.e. 'â', 'ï', 'ê', 'à', 'w'.

acronym *acronym*

Gair sydd wedi'i greu o lythrennau cyntaf ymadrodd, e.e. 'NATO', 'CBAC'.

blaenddodiad *prefix*

Grŵp o lythrennau a ychwanegir at ddechrau gair i newid ei ystyr, e.e. 'aneglur'.

cytsain *consonant*

Sain a gynhyrchir pan fo'r siaradwr yn defnyddio ei dafod a'i ddannedd. Holl lythrennau'r wyddor ac eithrio 'a', 'e', 'i', 'o', 'u' yn Saesneg ac 'a', 'e', 'i', 'o', 'u', 'w', 'y' yn y Gymraeg.

gair cyfansawdd *compound word*

Gair sydd wedi'i greu o ddau air arall, e.e. 'llyfrgell'.

gair cytras *cognate*

Gair sy'n debyg i air cysylltiedig neu air sy'n golygu'r un peth mewn iaith arall, e.e. 'accent' (Saesneg) ac 'acen' (Cymraeg).

gwreiddair *root word*

Gair y gellir ychwanegu blaenddodiaid ac ôl-ddodiaid ato i greu geiriau eraill, e.e. y gwreiddair yw 'trefn' yn 'trefnus', 'anhrefn', 'trefnu'.

llafariad *vowel*

Sain llythyren a gynhyrchir heb ffrithiant y dannedd neu'r tafod y gellir ei glywed – 'a', 'e', 'i', 'o', 'u' ac 'w', 'y' yn y Gymraeg.

ôl-ddodiad *suffix*

Grŵp o lythrennau a ychwanegir at ddiwedd gair i newid ei ystyr, e.e. 'darlun' i 'darlunio' neu 'cerdded' i 'cerddediad'.

rhestr termau *glossary*

Rhestr o eiriau neu ymadroddion ynghyd ag esboniad o'u hystyr.

sillaf *syllable*

Mae pob curiad mewn gair yn sillaf.

talfyriad *abbreviation*

Gair sy'n cael ei fyrhau, e.e. 'ffôn' (o 'teleffon').

yr wyddor *alphabet*

Y rhestr o lythrennau a ddefnyddir i ffurfio geiriau iaith.

Atalnodi**atalnod/coma** , *comma*

Fe'i defnyddir i rannu rhannau o frawddeg neu restr.

atalnod llawn . *full stop*

Fe'i defnyddir i ddangos diwedd brawddeg.

colon : *colon*

Fe'i defnyddir i gyflwyno rhestr, ail gymal neu ddyfyniad sy'n ymhelaethu ar neu'n esbonio'r cymal cyntaf.

collnod ' *apostrophe*

Yn y Gymraeg defnyddir pan yr hepgorir llythyren, e.e. 'mae'r'.

Fe'i defnyddir i ddangos cyfangiad, e.e. 'mae'n' neu feddiant yn y Saesneg, e.e. 'the dog's basket'.

dyfynodau " " *speech marks*

Fe'u gelwir yn 'inverted commas' yn y Saesneg weithiau ac fe'u defnyddir i ddangos llefaru uniongyrchol mewn testun.

ebychnod ! *exclamation mark*

Fe'i defnyddir ar ddiwedd brawddeg i ddangos emosiwn megis sioc, hiwmor, llawenydd, dicter.

gofynnod/marc cwestiwn ? *question mark*

Fe'i defnyddir ar ddiwedd brawddeg i ddangos mai cwestiwn ydyw.

hanner-colon ; *semi-colon*

Fe'i defnyddir i wahanu cymal neu ymadrodd mewn brawddeg. Mae'n gryfach nag atalnod, ond nid yw mor gryf ag atalnod llawn.

seren * *asterisk*

Fe'i defnyddir i drefnu testun, e.e. i dynnu sylw at droednodyn.

Termau iaith

acen *accent*

Amrywiadau i ynganiad a goslef yn ôl yr ardal neu wlad y siaradwr.

anffurfiol *informal*

Iaith a ddefnyddir mewn cyd-destunau cyfarwydd neu gyda phobl y mae'r siaradwr neu'r awdur yn eu hadnabod.

bratiaith *slang*

Geiriau neu ymadroddion a ddefnyddir mewn cyd-destun anffurfiol, weithiau'n gysylltiedig ag ardal neu grŵp o bobl.

cerdd *poem*

Testun sy'n defnyddio rhythm, odl, cystrawen neu gynghanedd a geirfa i gyfleu syniadau ac ystyr, ar ffurf gywasgedig yn aml.

cymeriad *character*

Unigolyn mewn stori, cerdd neu ddrama.

cynulleidfa *audience*

Y bobl neu'r darllenwyr y cyfeirir testun ysgrifenedig, delwedd symudol neu destun cyfryngol atyn nhw.

ffaith *fact*

Gwybodaeth a dderbynnir neu y gellir ei phrofi wedi'i chefnogi gan dystiolaeth.

ffuglen *fiction*

Testun sy'n cael ei greu o ddychymyg awdur neu siaradwr.

ffurfiol *formal*

Iaith lafar neu ysgrifenedig a ddefnyddir mewn cyd-destunau anghyfarwydd neu ffurfiol, e.e. cyfarch ymwelwyr, ysgrifennu llythyrau ffurfiol.

goslef *intonation*

Tôn llais a ddefnyddir gan y siaradwr i gyfleu ystyr. Mae goslef yn amrywio mewn gwahanol ieithoedd.

idiom *idiom*

Ymadrodd nas golygir yn llythrennol, ond a ddeëllir gan bobl sy'n ei ddefnyddio, e.e. 'a'i gwynt yn ei ddwrn', 'a'i ben yn ei blu'.

llafar *colloquial*

Mae'n disgrifio sgwrs neu iaith a ddefnyddir mewn cyd-destunau anffurfiol neu gyfarwydd.

llefaru *speech*

Iaith lafar. Geiriau a siaredir go iawn yw llefaru uniongyrchol, a ddynodir mewn iaith ysgrifenedig gan ddyfynodau, e.e. "Eistedda i lawr!" meddai'. Llefaru anuniongyrchol neu adroddedig yw'r hyn y mae awdur yn adrodd a ddywedwyd, e.e. 'dywedodd wrthi am eistedd'.

tafodiaith *dialect*

Amrywiadau i ramadeg neu eirfa yn ôl yr ardal y mae'r siaradwr yn dod ohoni.

testun *text*

Iaith wedi'i threfnu i gyfathrebu ar ffurfiau llafar, ysgrifenedig neu electronig.

testun cyfarwyddo *instruction text*

Testun a ysgrifennir i gynorthwyo'r darllenwr i wneud rhywbeth, e.e. cyfarwyddiadau, ryseitiau.

testun gwybodaeth *information text*

Testun a ysgrifennir i hysbysu, e.e. adroddiad, esboniad neu ddisgrifiad.

testun traethiadol *narrative text*

Testun sy'n ailadrodd digwyddiadau mewn trefn gronolegol. Gallai fod yn ffuglen neu gynnwys gwybodaeth.

ynganiad *pronunciation*

Rheolau ar gyfer y ffordd mae grwpiau o lythrennau'n gwneud seiniau mewn iaith lafar. Mae rheolau ynganu'n wahanol ar gyfer gwahanol ieithoedd.

Sgiliau iaith

aillddrafftio *redraft*

Diwygio, adolygu neu gywiro drafft cyntaf o destun.

dangos dealltwriaeth *comprehension*

Deall testun ysgrifenedig neu lafar. Gellir dangos dealltwriaeth trwy ymatebion llafar neu ymatebion di-iaith.

darllen *reading*

Deall ac ymateb i destun ysgrifenedig, ar ffurf argraffedig, wedi'i ysgrifennu â llaw neu electronig.

drafft *draft*

Ffurf gyntaf neu anorffenedig o destun. Drafftio yw'r enw ar y broses o weithio ar destun.

golygu *edit*

Diwygio neu gywiro testun ysgrifenedig neu lafar.

gwranddo *listening*

Deall ac ymateb i iaith lafar a siaredir yn uniongyrchol i'r gwrandäwr neu iaith lafar a recordiwyd.

siarad *speaking*

Mynegi eich hun ar lafar.

ysgrifennu *writing*

Mynegi eich hun ar ffurf ysgrifenedig.

Termau iaith/arddull

ailadrodd *repetition*

Ailadrodd geiriau neu ymadroddion i greu effaith, e.e. i greu tensiwn dramatig.

bathu gair *neologism*

Creu gair neu ymadrodd newydd, e.e. 'bendibopwych'.

cwestiwn rhethregol *rhetorical questions*

Cwestiynau a ofynnir i greu effaith ac na ddisgwylir ateb iddyn nhw, e.e. 'Ydych chi'n disgwyl i mi gredu hyn?'.

cyfatebiaeth *analogy*

Mae hyn yn cymharu un peth â rhywbeth arall – rhywbeth hysbys â rhywbeth anhysbys yn aml.

cyfeiriadaeth *allusion*

Cyfeiriad anuniongyrchol at rywbeth y tu allan i'r darn ysgrifennu cyfredol. Er mwyn ei ddeall, mae angen i ddarllenwr fod â'r wybodaeth gefndirol berthnasol.

cyflythreniad *alliteration*

Cyfatebiaeth cytseiniaid neu seiniau cyntaf geiriau. Ailadrodd llythrennau neu seiniau cychwynnol mewn geiriau sy'n agos at ei gilydd.

cyffelybiaeth *similes*

Cymhariaeth uniongyrchol rhwng dau beth i ddangos eu tebygrwydd, gan ddefnyddio'r geiriau 'fel' neu 'mor'.

cyseinnedd *assonance*

Ailadrodd seiniau llafariaid.

delweddaeth *imagery*

Defnyddio iaith i greu delwedd fywiog neu synhwyaidd, yn weledol yn aml.

diarhebion *proverbs*

Dywediadau cryno sy'n mynegi gwirionedd cyffredinol.

eironi *irony*

Dweud un peth a golygu'r gwrthwyneb. Yn cyferbynnu'r gwirionedd â'r disgwyliad, yr hyn a ysgrifennir â'r hyn a olygir.

gair teg *euphemism*

Ffordd o fynegi rhywbeth annymunol mewn ffordd lai uniongyrchol neu lai cras.

gormodiaith *hyperbole*

Datganiad sydd wedi'i orliwio, e.e. dweud 'pawb' pan olygir y rhan fwyaf, neu 'tragwyddoldeb' am amser maith.

idiom/priod-ddull *idiom*

Dywediad sy'n arbennig i iaith arbennig, na fedrir ei gyfieithu'n llythrennol i iaith arall. Ymadrodd na olygir yn llythrennol, ond a ddeallir gan y bobl sy'n ei ddefnyddio.

jargon

Y defnydd o iaith dechnegol, geiriau sy'n benodol i bwnc penodol ac nad ydyn nhw'n gyfarwydd yn gyffredin.

odl *rhyme*

Dywedir bod geiriau sy'n cynnwys yr un sain yn y sill olaf yn odli.

onomatopoeia *onomatopoeia*

Geiriau sy'n swnio fel eu hystyr.

parodi *parody*

Dynwarediad doniol o destun arall lle mae testun sefydledig yn cael ei ddynwared, e.e. parodiau modern o straeon tylwyth teg traddodiadol.

pastiche

Gwaith ysgrifennu sy'n cyfuno elfennau o destunau eraill.

personoliad *personification*

Rhoi priodweddau dynol i anifeiliaid, pethau neu syniadau haniaethol.

symboliaeth *symbolism*

Unigolyn, gwrthrych, delwedd, gair neu ddigwyddiad a ddefnyddir i gynrychioli neu awgrymu rhywbeth y tu hwnt i'w arwyddocâd llythrennol. Mae symbolau'n benodol i ddiwylliannau ac ni fyddan nhw'n golygu'r un peth i bawb, e.e. 'y ddraig goch am Gymru'.

trosiad *metaphor*

Cymhariaeth a awgrymir rhwng dau beth nad ydyn nhw'n debyg, heb ddefnyddio'r geiriau 'fel' neu 'mor'. Mae un peth yn mabwysiadu priodweddau un arall.

trawsnewid *metonymy*

Newid enw rhywbeth i enw priodwedd neu wrthrych sy'n gysylltiedig ag ef, e.e. 'llaw' am 'ysgrifen'.

tystiolaeth *testimony*

Y defnydd o ddyfyniadau, gan arbenigwyr neu bobl â chysylltiad cadarnhaol â sefyllfa neu gynnyrch fel rheol, a ddefnyddir yn aml mewn hysbysebion ochr yn ochr ag ystadegau.

Atodiad 2: Cyfeiriadau defnyddiol

Cyhoeddiadau

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Gorchmynion y cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer pob pwnc.

Cyfnod Sylfaen: Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru (2008)

Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru (2008)

Gyrfaoedd a'r byd gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru (2008)

Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru (2008)

Mae canllawiau penodol ar gael hefyd ar gyfer pob un o bynciau'r cwricwlwm cenedlaethol. Gallwch weld y dogfennau yn:
www.cymru.gov.uk/addysgsgiliau

Canllawiau ar addysgu uwch sgiliau darllen: Cyfleoedd HMS i athrawon pob pwnc ar draws y cwricwlwm yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 (2010)

Datblygu uwch sgiliau llythrennedd ar draws y cwricwlwm (2010)

Cefnogi uwch sgiliau llythrennedd dysgwyr (2009)

Manteisio i'r eithaf ar ddysgu: Gweithredu'r cwricwlwm diwygiedig (2008)

Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru (2008)

Sicrhau cysondeb mewn asesiad athrawon: Canllawiau ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 a 3 (2008)

Cwricwlwm i bob dysgwr: Canllawiau i gynorthwyo athrawon dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (2010)

Cyflawni'r Her: Safonau Ansawdd mewn Addysg ar gyfer Disgyblion Mwy Galluog a Thalentog (2008)

Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion: Creu cymunedau dysgu effeithiol gyda'n gilydd (2008)

Gwneud y Cysylltiad: Dysgu Iaith 5–14 (2003)

Cwricwlwm o gyfle: datblygu potensial yn berfformiad (2003)

Llywodraeth Cynulliad Cymru/Sgiliau Sylfaenol Cymru

Fi'n Darllen? Byth Bythoedd! Arweiniad ymarferol i wella llythrennedd bechgyn

Fi'n Darllen? Byth Bythoedd! 13 strategaethau i wella llythrennedd bechgyn

Beth sy'n gweithio gyda disgyblion yng Nghymru sydd â phroblemau llythrennedd? Effeithiolrwydd cynlluniau ymyrraeth (Cyf: A5196)

Drama a Llythrennedd: Arolwg o arfer effeithiol yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4 (Cyf: A1693)

Ysgrifennu i ddysgu: Arolwg o arfer effeithiol gydag ysgrifennu yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4 (Cyf: A1694)

Sicrhau Llythrennedd Bechgyn – adolygiad o arfer effeithiol mewn ysgolion cynradd (Cyf: A1242)

SIY: Mwy na Goroesi (Cyf: A1723)

Gwella Llythrennedd Bechgyn – arolwg o arfer effeithiol mewn ysgolion uwchradd (Cyf: A1241)

Arfer effeithiol wrth Ysgrifennu yng Nghyfnod Allweddol 2 – Y filltir Ychwanegol (Cyf: A1173)

Sut i addysgu'r broses ddrafftio (Cyf: A1644)

Sut i addysgu sgimio a sganio (Cyf: A1331)

Sut i ddefnyddio geiriau allweddol yn effeithiol (Cyf: A1307)

Sut i addysgu testun gwybodaeth mewn pynciau Dyniaethau CA3 (Cyf: A1713)

Sut i addysgu testun cyfarwyddiadau ac esboniadau mewn Gwyddoniaeth a Dylunio a Thechnoleg (Cyf: A1714)

Sut i ddatblygu'r iaith i feddwl mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn CA3 (Cyf: A1915)

Sut i addysgu gwerthuso mewn addysg gorfforol a dylunio a technoleg CA3 (Cyf: A1916)

Sut i addysgu sgiliau darllen yng nghyfnod allweddol 3 (Cyf: A2396)

Sut i... adolygu'r ddarpariaeth dysgu ac addysgu sgiliau sylfaenol. Canllaw i uwch reolwyr ysgolion (Cyf: A5274)

Poster Mathau o Destun (Cyf: A5281)

Cardiau Mathau o Destun (Cyf: A5282)

- Gwybodaeth
- Perswadio
- Trafodaeth
- Esboniad
- Cyfarwyddiadau
- Ailgyfrif

Cardiau Cyngor: *Priflythrennau* (Cyf: A1677)

Darllenwch Filiwn o Eiriau yng Nghymru poster enwogion i ysgolion uwchradd (set o dri) (Cyf: A2297)

Darllenwch Filiwn o Eiriau yng Nghymru Rydym wedi bod yn darllen (Cyf: A2135)

Cerdyn Treigladau (Cyf: A1669)

Poster Treigladau (Cyf: A1734)

Estyn

Arfer orau mewn darllen ac ysgrifennu ymhlith disgyblion rhwng pump a saith oed (2009)

Arweiniad atodol ar gyfer arolygwyr annibynnol ac ychwanegol: Dysgwyr mwy abl a dawnus (2009)

Rhannu arfer dda wrth ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion (2009) (negeseuon allweddol y gynhadledd a gynhaliwyd ym mis Medi 2008)

Arfer orau mewn darllen ac ysgrifennu disgyblion 7 i 14 oed (2008)

Cau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched mewn ysgolion (2008)

Datblygu llythrennedd deuol: Papur trafod Estyn (2002)

Codi Safonau Sillafu Saesneg mewn Ysgolion Cynradd: Papur trafod Estyn (2001)

Codi Safonau Ysgrifennu Saesneg mewn Ysgolion Cynradd: Papur trafod Estyn (2000)

*Anelu at Ragoriaeth yng Nghyfnod Allweddol 3
(Estyn/ACCAC/Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002)*

Symud Ymlaen... Pontio Effeithiol o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3 (Estyn/ACCAC/Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004)

*Pontio'r bwlch: Datblygu a defnyddio unedau pontio i gefnogi pontio effeithiol o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3
(Estyn/ACCAC/Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004)*

CBAC

Codi Safonau Llythrennedd, Datblygu Ysgrifennu Ffeithiol, rhan o gyfres Agweddau ar Addysgu'r Gymraeg, Cyfnod Allweddol 2, Rhaglen Genedlaethol Hyfforddiant Mewn-swydd y Gymraeg

Llythrennedd Deuol – Elwa ar Ddwyieithrwydd i Godi Safonau yn y Gymraeg, Agweddau ar Addysgu'r Gymraeg yn CA2, Rhaglen Genedlaethol Hyfforddiant Mewn-swydd y Gymraeg

Datblygu Cywirdeb Iaith, Codi Safonau Llythrennedd, Agweddau ar Addysgu'r Gymraeg, Cyfnodau Allweddol 3 a 4, Rhaglen Genedlaethol Hyfforddiant Mewn-swydd y Gymraeg

Codi Safonau Llythrennedd: Datblygu Ysgrifennu Ffeithiol, Agweddau ar Addysgu'r Gymraeg, Cyfnod Allweddol 2, Rhaglen Genedlaethol Hyfforddiant Mewn-swydd y Gymraeg

Gwefannau defnyddiol

Llywodraeth Cynulliad Cymru
www.cymru.gov.uk

Estyn
www.estyn.gov.uk

Sgiliau Sylfaenol Cymru
(Gweler yr adran 'Sgiliau Sylfaenol Cymru' o dan 'Gwybodaeth ar gyfer darparwyr dysgu')
www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

Cymdeithas Dyslecsia Prydain
www.bdadyslexia.org.uk

Cymdeithas broffesiynol athrawon myfyrwyr ag anawsterau dysgu penodol (Patoss)
www.patoss-dyslexia.org

Y Gymdeithas Genedlaethol dros Ddatblygu Iaith yn y Cwricwlwm
www.naldic.org.uk

Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer leithoedd (gwybodaeth am ddysgwyr amlieithog/Saesneg fel iaith ychwanegol)
www.cilt.org.uk

Dolenni defnyddiol i adnoddau iaith ychwanegol yn yr adran ar geiswyr lloches a ffoaduriaid
www.literacytrust.org.uk

Adnodd ar awtistiaeth i Gymru gyfan
www.awares.org

Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth
www.nas.org.uk

Cymdeithas Genedlaethol ar gyfer Plant Galluog Mewn Addysg
www.nace.co.uk

Academi
www.academi.org

GCaD Cymru
www.ngfl-cymru.org.uk

Cydnabyddiaethau

Hoffai'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) gydnabod y cymorth a'r gwaith a wnaed gan Elan Davies a Gloria Davies wrth baratoi fersiynau Cymraeg a Saesneg y cyhoeddiad hwn, ac yn diolch iddyn nhw am eu gwaith.

Mae APADGOS hefyd yn dymuno cydnabod cyfraniad y grŵp llywio a'r rhai hynny a gynigiodd sylwadau a chynghor wrth i'r cyhoeddiad hwn gael ei baratoi.

Diolch i CBAC eu parodrwydd i ddefnyddio'r enghreifftiau a ddyfynir; i Meinir Ebbsworth am gael defnyddio'r ystadegau o'u harolwg ac i dîm prosiect 'Ein Geiriau Ni' am ddefnyddio'u tabl o'r geiriau mwyaf cyffredin.